

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 6 Tachwedd 2014

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Bethan Davies

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8120

PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Agenda

Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd y byddai eitem 1 yn cael ei chynnal yn breifat

1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Trafod yr adroddiad drafft (09:00 – 10:00)

FIN(4)–20–14 Papur 1

Cyfarfod cyhoeddus

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (10:00)

3 Papurau i'w nodi (10.00 – 10.05) (Tudalennau 1 – 2)

4 Swyddfa Archwilio Cymru: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2013–14 (10.05 – 10.30)

(Tudalennau 3 – 118)

FIN (4)-21-14 Papur 2 – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2013-14
Briff ymchwil

Isobel Garner, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Steven O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru
Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru

5 Swyddfa Archwilio Cymru: Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru o incwm a threuliau ar gyfer 2015-16 (10.30 – 11.00) (Tudalennau 119 – 160)
FIN(4)-21-14 Papur 3

6 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad gan archwilwyr allanol ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-14 (11.00 – 11.05)
(Tudalennau 161 – 190)
FIN (4)-21-14 Papur 4
FIN (4)-21-14 Papur 5

7 Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad Interim Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15 (11.05 – 11.15) (Tudalennau 191 – 216)
FIN(4)-21-14 Papur 6

8 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Craffu ar yr amcangyfrif drafft ar gyfer 2015-16 (11:15 – 12:15) (Tudalennau 217 – 234)
FIN(4)-21-14 Papur 7
Briff ymchwil

Nick Bennett – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Dave Meadon – Cyfrifydd Ariannol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Susan Hudson – Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:
Eitemau 7 ac 8, a'r cyfarfodydd a gynhelir ar 10 Tachwedd 2014 (os bydd angen) a 12 Tachwedd 2014.

10 Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law (12:15 – 12:45)

11 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law (12:45 – 13:15)



24 Cathedral Road / Heol y Gadeiriau
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Epost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee
National Assembly for Wales
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Date: 29 October 2014
Our ref: HVT/2228/fgb
Page: 1 of 2

Don Jones

WALES AUDIT OFFICE SUPPLEMENTARY BUDGET UPDATE 2014-15

Further to correspondence in July, I wanted to update you on the Board's recent decision regarding securing business continuity of our critical audit related systems.

The Committee will recall that we have been developing proposals to replace the variety of legacy IT systems that are in use to plan, manage, record and store audit work. Our aspiration was to procure a common audit platform that would meet the differing needs across our two audit practices. In testing the market, we found that our aspirations could not be achieved without significant resource input and pioneering software that was untested in the external audit sector. The Board concluded that the risks of implementation at this time were too high.

The Board also recognised that business continuity risks were too high to justify a 'do nothing' continuation. Earlier this month, the Board approved the procurement of a new system to plan, manage, record and store our financial audit work. The system will also rationalise and simplify supporting systems, as it will replace our current time-recording and resource-management software. It will lead to reduced system running costs and improved workforce efficiency, releasing resources following full implementation (effective from 2016-17). The Board retains its aspiration for a common audit platform, which we anticipate may be achievable in the medium term, particularly as we continue to work closely with the other UK external audit bodies.

The costs of purchase are lower than the previous estimate provided to the Committee: a capital cost of £216,000 in 2014-15 and revenue costs of £46,000. I am pleased to advise that through careful management of our resources, we will now be able to fund these costs internally. This means that we will not need to seek supplementary funding this year, though we will need to use the Supplementary Budget mechanism to make a technical adjustment to our budget in order to move revenue funds to capital. We would welcome the Committee's support for this and are liaising with Welsh Government officials in readiness for the next Supplementary Budget process early in 2015.

We look forward to attending your Committee on 6 November.



HUW VAUGHAN THOMAS
AUDITOR GENERAL FOR WALES

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14

yr Archwilydd Cyffredinol



Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn a'r cyfrifon yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost info@wao.gov.uk



Gwefan www.wao.gov.uk
Twitter [@WalesAudit](https://twitter.com/WalesAudit)

© Archwilydd Cyffredinol Cymru
Mehefin 2014


Tudalen y pecyn 4

Uchafbwyntiau


Rhoi sicrwydd, cynnig cipolwg a hyrwyddo gwelliant




Rhedeg y busnes



2013-14 yn Swyddfa Archwilio Cymru





Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Bu'n flwyddyn ddiddorol a chynhyrchiol i Swyddfa Archwilio Cymru, a dyma'r flwyddyn olaf y caf y pleser o gyflwyno ei hadroddiad blynyddol, oherwydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, caiff y ddyletswydd honno ei throsglwyddo i Fwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae cynnal ffydd y cyhoedd yn y ffordd y caiff arian ei wario yn bwysicach nag erioed. Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i geisio cyfraniad annibynnol ac awdurdodol gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chefnogaeth Swyddfa Archwilio Cymru, at amrywiaeth o ddibenion. Yn wir, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd o ran rôl bosibl archwilio, mewn perthynas â'r agenda dyfodol cynaliadwy. Mae cydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gymuned adolygu allanol ehangach yng Nghymru wedi parhau i gryfhau, gan adeiladu ar fuddiannau gwasanaeth cyhoeddus cydgysylltiedig Cymru.

O ganlyniad i Ddeddf 2013, bu'n rhaid i ni adolygu ein model costio yn drylwyr eleni. Yn dilyn dyfarniad TAW gan CThEM, ni allwn bellach adennill TAW ar y costau yr eir iddynt wrth gynnal ein gwaith archwilio. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn golygu ar ôl sawl blwyddyn o ostyngiadau dilynol, y bu cynnydd cyffredinol bach yn lefel ein ffioedd eleni. Mae ffactorau eraill, megis yr ad-daliad y byddwn yn ei wneud i gyrff llywodraeth leol, sy'n cyfateb i tua 18 y cant o ffi archwilio'r flwyddyn flaenorol, wedi lliniaru effaith y newidiadau hyn i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, rwyf yn gwbl ymwybodol o'r effaith gyfun anffodus ar rai cyrff llai o faint.

Rwyf i a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn awyddus i ystyried newidiadau posibl mewn deddfwriaeth a allai arwain at ddulliau symlach a llai llafurus o adennill costau yn y dyfodol. Yn y cyfamser, rydym wedi gwneud ein gorau i fod yn agored ac yn glir am y newidiadau, gan wahodd safbwyntiau ar y mater hwn a materion eraill gan bob un o'n rhanddeiliaid. Mae adborth cynnar yn awgrymu bod ein rhanddeiliaid yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi ein gwaith o hyd. Dylai cipolwg cyflym drwy'r adroddiad blynyddol hwn a

Tudalen y pecyn 8

graddau ac amrywiaeth hynod y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru fod yn ddigon i ddangos bod gwasanaethau archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i chwarae rhan weithredol ac effeithiol yng Nghymru.

Nododd y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus fod negeseuon ein hadroddiadau archwilio yn treiddio i ffyrdd o feddwl yng Nghymru. Felly mae'n bwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i ddarparu cipolwg amserol a defnyddiol o wariant ac atebolrwydd cyhoeddus.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu penderfyniadau a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu am sawl blwyddyn. Dengys ein gwaith yr angen i ailgynllunio a thrawsnewid yn wyneb adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol. Nid ydym ychwaith yn osgoi'r posibilrwydd y bydd angen ailgynllunio ein gwaith ni ein hunain. Yn arbennig, rwyf yn awyddus i ddatblygu ein rhaglen archwilio mewn llywodraeth leol er mwyn ychwanegu mwy o werth heb faich na ffocws diangen ar broses.

Unwaith eto eleni, rydym wedi canolbwyntio ar y pwysau ariannol y mae cyrff cyhoeddus yn parhau i'w hwynebu. Fel y nodwyd yn ein Strategaeth ar gyfer 2013-2016, mae llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus, rheoli ariannol ac arloesedd yn parhau i fod yn flaenoriaethau yn ein gwaith.

Yn anffodus, bu'n rhaid i ni gyflwyno adroddiadau er budd y cyhoedd ar nifer o faterion llywodraethu ymhob sector. Am y tro cyntaf, yn un o'r achosion hyn, lluniwyd adroddiad ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn fwy diweddar, hefyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gwnaethom helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu protocol ar gyfer trosglwyddo pryderon i lefel uwch ac ymyrryd mewn perthynas â chyrrff y GIG.

Ein nod yw lledaenu'r gwersi a ddysgw'n o lwyddiannau yn ogystal â methiannau ac annog gwelliant drwy weithio gydag eraill i ddatblygu adnoddau cymorth a gwelliant. Gyda dulliau archwilio mewnol mwy cadarn, gellir canfod methiannau rheoli ariannol a llywodraethu yn haws a gall y sefydliadau eu hunain ymdrin â hwy yn gyflym. Mae ein pwyslais ar rannu arfer da a hwyluso dulliau dysgu a rennir hefyd wedi cryfhau eleni drwy ein seminarau a gaiff eu gwerthfawrogi fwyfwy a'n Cyfnewidfa Arfer Da.

Rydym mewn oes lle mae patrymau darparu yn cael eu hailystyried ar draws y tirlun gwasanaethau cyhoeddus ac rydym oll yn aros am ymateb y llywodraeth i adroddiadau Williams a Silk. Mae tystiolaeth archwilio a thrylwyrredd ar bob cam (nid dim ond ar sail ôl-weithredol) o fudd i brosiectau cyhoeddus mawr. Felly, rydym am wella ein dealltwriaeth o ddatblygiadau strategol ymhob sector ac ad-drefnwyd strwythur ein huwch reolwyr yn ddiweddar er mwyn atgyfnerthu cydberthnasau a thargedu ein cymorth i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn well. Rwyf wrth fy modd gyda'r gwelliannau a wnaed gennym i'n trefniadau cynllunio a rheoli busnes ein hunain, a hoffwn ddiolch i'r staff am eu hymrwymiad a'u hymroddiad.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar am gymorth ein cydweithwyr niferus yng Nghymru a thu hwnt, sy'n rhannu ein hymrwymiad i wella ansawdd bywyd pobl Cymru, ac yr ydym yn cydweithio ochr yn ochr â hwy wrth anelu at y nod hwnnw.



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynnwys a chanllaw i'r darllenydd

9 Amdanom ni

Pwy ydym ni, yr hyn a wnawn, ein nod a'n hamcanion allweddol, a gyda phwy rydym yn gweithio

15 Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol

Dangosyddion perfformiad ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys ein hincwm a gwariant, cynhyrchu gwastraff ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac amrywiaeth a lles y gweithlu

22 Rhoi sicrwydd

Astudiaethau achos o'r modd rydym wedi rhoi sicrwydd amserol, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, o lywodraethu a gwarchod arian cyhoeddus ac asedau yng Nghymru

27 Cynnig mewnwelediad

Enghreifftiau o'r meysydd lle rydym wedi cynnig mewnwelediad defnyddiol yn 2013-14 o'r graddau y caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion pobl Cymru

31 Hyrwyddo gwelliant

Adegau, dros y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn, pan rydym wedi nodi'n glir a hyrwyddo ffyrdd o wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

37 Rhedeg y busnes

Yr hyn rydym wedi ei wneud eleni i adeiladu ar ein gwaith o fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol

45 Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

Trosolwg o'r risgiau allweddol, yr ansicrwydd a'r heriau a wynebir gennym, a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb i hynny

49 Datganiadau o gyfrifon

Rhagor o fanylion am ein cyllid a'n trefniadau llywodraethu: ein datganiadau ariannol, Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, Adroddiad Cydnabyddiaeth ac Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol

Amdanom ni

Pwy ydym ni, yr hyn a wnawn, ein nod a'n hamcanion
allweddol, a gyda phwy rydym yn gweithio

Pwy ydym ni

Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru¹. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir yn flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff elfennau o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru ac i lywodraeth leol.

Ar gyfer y flwyddyn y mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon hyn yn berthnasol iddi, ffurfiodd yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff, gyda'i gilydd, Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bersonol gyfrifol am reolaeth a staffio ar gyfer gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

Sefydlodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol yn cynnwys Bwrdd â naw aelod. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n penodi Cadeirydd y Bwrdd a'r pedwar aelod anweithredol arall ac mae'r Archwilydd Cyffredinol a thri aelod o blith y cyflogeion hefyd yn aelodau o'r Bwrdd.

Mae prif swyddogaethau'r Bwrdd, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2014, fel a ganlyn:

- darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyflogi staff a chaffael gwasanaethau eraill;
- monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol;
- paratoi amcangyfrif blynyddol a chynllun blynyddol ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol; a
- phennu cynllun ffioedd a chodi ffioedd yn unol â'r cynllun hwnnw.

Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd a'r uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar [dudalennau 50 i 58](#).

¹ Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall, yn darparu'r sail statudol ar gyfer eu gwaith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod yn archwilydd allanol statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru pan ddaw penodiadau'r archwilwyr cyfredol i ben.

Yr hyn a wnawn

Mewn democratiaeth, mae cyrff cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Er mwyn hwyluso'r atebolrwydd hwn, mae'n rhaid i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael digon o wybodaeth am weithgareddau'r cyrff cyhoeddus a'u defnydd o arian cyhoeddus; mae angen gwybodaeth amserol, ddiuedd, cywir, cynhwysfawr a chliar arnynt yn eu cylch.

Mae archwiliadau annibynnol o weithgareddau cyrff cyhoeddus a'r defnydd a wneir o arian cyhoeddus gan y rheini sy'n gyfrifol am warchod yr arian hwnnw yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr allanol yn rhoi ystyriaeth annibynnol i p'un a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac a gyfrifir amdano'n briodol. Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn golygu mwy na dim ond rhoi barn ar y cyfrifon. Mae hefyd yn ymdrin â materion fel rheoleidd-dra (p'un a gaiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy), priodoldeb (sut y caiff busnes cyhoeddus ei gynnal) a gwerth am arian. Mae archwilwyr yn gwneud y gwaith hwn ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Nid yw cwestiynu rhinweddau polisi'r llywodraeth yn rhan o swyddogaethau archwilwyr, ond gall archwilwyr archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bolisiâu ac ystyried effeithiau gweithredu polisiâu.

Mae gwaith archwilio yn ychwanegu gwerth at gymdeithas fel a ganlyn:

- rhoi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- cynnig cipolwg o'r graddau y caiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd o wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, nid yw gwaith archwilio allanol yn disodli cyfrifoldebau lywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau y cynhelir eu busnes yn unol â'r gyfraith a safonau cywir, ac y diogelir arian cyhoeddus, y rhoddir cyfrif cywir amdano, ac y caiff ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal rhaglen eang ond cymesur o waith archwilio allanol, ynghyd â rhai swyddogaethau eraill penodol. Mae'r rhaglen gyffredinol yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, archwiliadau gwella ac asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau a ffurflenni grant a pharu data.

Rydym yn nodi arfer da o bob rhan o'n gwaith archwilio ac yn ei ledaenu drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da (adnodd ar-lein sydd ar gael am ddim i bawb) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau dysgu a rennir.

Mae archwilwyr yn ymgymryd â'u gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio, ac sy'n ymgorffori'r hyn sy'n arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol.


Yn 2013-14, cyflawnodd staff yr Archwilydd Cyffredinol tua thri chwarter o'r gwaith archwilio blynyddol. Gosodd yr Archwilydd Cyffredinol weddill y gwaith ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, a threfnodd gontractau ar gyfer sgiliau a gwasanaethau arbenigol i helpu i gyflawni'r gwaith.

Ein nod a'n hamcanion allweddol

Crynohir ein nod strategol cyffredinol a'n pedwar amcan allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2016 isod.

Mae ein nod yn canolbwyntio ar rymuso pobl Cymru a chefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru drwy drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol. Fe'i mynegir fel canlyniad yr ydym yn gyfrannwr allweddol tuag ato oherwydd ein statws hollol annibynnol, ein harbenigedd proffesiynol a'n hawliau statudol helaeth i weld dogfennau a gwybodaeth.

Mae ein tri amcan sylfaenol cyntaf yn canolbwyntio ar gyflawni nod triphlyg gwaith archwilio yn effeithiol – sef rhoi sicrwydd, cynnig cipolwg a hyrwyddo gwelliant. Mae ein pedwerydd amcan allweddol yn ategu'r tri cyntaf, sef: er mwyn darparu gwasanaeth archwilio o'r radd flaenaf, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad a reolir yn dda sy'n darparu gwerth am arian.



Amlinellir y camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd yn ystod cyfnod y strategaeth hon er mwyn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu a chyflawni ein nod a'n hamcanion isod.

Ffactorau amgylcheddol allweddol	Camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb
Rydym mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol	Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi
Mae polisi yng Nghymru yn parhau i ymwahanu drwy broses ddatganoli gynyddol	Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da
Mae diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cynyddu ac erbyn hyn mae cwmpas ehangach i ofynion adrodd	Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd
Mae dyletswyddau a safonau trawsbynciol, newydd wedi'u cyflwyno yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno	Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg
Mae'r dirwedd adolygu allanol yn parhau i ddatblygu	Gweithio'n agosach gyda chyrrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio
Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol	Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol

Gyda phwy rydym yn gweithio

Pobl Cymru

Y Cynulliad Cenedlaethol, yn bennaf drwy ei
Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid

Llywodraeth Cymru

Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
a'r cyrff sy'n eu cynrychioli

Cyrff adolygu allanol perthnasol eraill



Yr Archwilydd Cyffredinol ac Aelodau
anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
(rhes gefn) Peter Price, Steven Burnett,
David Corner, (rhes flaen) Christine Hayes,
Huw Vaughan Thomas ac Isobel Garner

Tudalen y pecyn 16



Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol

Dangosyddion perfformiad ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys ein hincwm a gwariant, cynhyrchu gwastraff ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac amrywiaeth a lles y gweithlu

Crynodeb ariannol

Yn 2013-14:

- Cynhyrchwyd incwm o £18.0 miliwn gennym, gan gynnwys incwm grant o £1.4 miliwn, a chawsom £5.4 miliwn gan Gronfa Gyfunol Cymru
- Daeth cyfanswm o £16.6 miliwn o incwm o ffioedd a godwyd ar gyrff a archwiliwyd - cynnydd o bedwar y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y gwaith ychwanegol a wnaed
- Ar ôl ystyried effaith cyhoeddi'r ddarpariaeth TAW yn 2012-13 (£2.4 miliwn) a'r broses o ddsbarthu ein cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol (£1.6 miliwn), cynyddodd ein gwariant yn ystod y flwyddyn ychydig dros £1.0 miliwn, y gellir priodoli £700,000 ohono i ddyfarniad gan CThEM ar ein statws TAW
- Cynyddodd costau staff £310,000, yn bennaf o ganlyniad i waith recriwtio yn ystod y flwyddyn i lenwi swyddi gwag, rhoi ein trefniadau llywodraethu newydd ar waith, gweithio fel rhan o Grŵp Cyfeirio a Chynghori Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ymateb i geisiadau am waith ychwanegol heb achosi unrhyw oedi i'r gwaith o gyflawni ein rhaglen astudiaethau cenedlaethol
- Yn unol â darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ni fyddwn bellach yn gallu cadw cronfeydd wrth gefn. O ganlyniad, caiff ein cronfeydd cronedig wrth gefn gwerth £1.6 miliwn eu dosbarthu i gyrff llywodraeth leol yn ystod 2014-15. Yr amcangyfrif adnodd net ar gyfer 2013-14 oedd £5,431,000. Ein gwariant net gwirioneddol mewn termau arian parod mewn perthynas â'r rhan honno o'r busnes sydd o fewn y gyfundrefn amcangyfrif oedd £5,094,000 oherwydd gostyngiad mewn costau o gymharu â'r amcangyfrif. O ganlyniad, ad-delir swm o £337,000 i Gronfa Gyfunol Cymru.



- Ffioedd archwilio llywodraeth leol
- Ffioedd archwilio'r GIG
- Ffioedd archwilio llywodraeth ganolog
- Grant gan Lywodraeth Cymru
- Arian o Gronfa Gyfunol Cymru

- Costau staff
- Gwasanaethau allanol
- Costau gweithredu eraill

Tudalen y pecyn 18

£'000	2013-14	2012-13	2011-12
Incwm ac adnoddau			
Ffioedd archwilio ac arolygu	18,015	17,193	18,911
Llywodraeth leol ²	12,794	12,366	13,213
Y GIG	3,302	3,239	4,029
Llywodraeth ganolog	1,919	1,588	1,669
Incwm arall ³	27	23	27
Cyfanswm yr incwm	18,042	17,216	18,938
Gwariant			
Costau staff	(15,291)	(14,981)	(14,855)
Gwasanaethau allanol ⁴	(3,308)	(3,451)	(3,507)
Yn ad-daladwy i gyrff llywodraeth leol ⁵	(1,633)	0	0
(Cynnydd)/gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer trethiant	0	2,392	(2,392)
Costau gweithredu eraill	(4,093)	(3,221)	(2,962)
Treth gorfforaeth	(3)	0	23
Cyfanswm gwariant	(24,328)	(19,261)	(23,693)
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr	(6,286)	(2,045)	(4,755)
Cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru	5,431	4,740	5,303
Yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	(337)	(268)	(1,945)
Newid yn ecwiti trethdalwyr	(1,192)	2,427	(1,397)
Ecwiti trethdalwyr ar 1 Ebrill	1,192	(1,235)	162
Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth	0	1,192	(1,235)

2 Yn cynnwys ffioedd am archwilio cyfrifon, ardystio grantiau a gwaith archwilio ac asesu gwelliant, ynghyd â chyllid grant o £1.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein gwaith gwelliant.

3 Mae incwm arall fel y nodir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ynghyd â llog banc.

4 Gwaith archwilio ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat yn bennaf.

5 Roedd yr ecwiti trethdalwyr a oedd wedi cronni cyn 2013-14 ynghyd â'r swm a enillwyd yn ystod 2013-14 mewn perthynas â gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth leol ac, fel yr amlinellwyd yn yr *Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2015*, ystyriwyd ei bod yn briodol i'r swm hwn gael ei ailddosbarthu i'r cyrff hynny. Bydd y taliad yn deillio o hynny yn cyfateb i rhwng 15 ac 20 y cant o'r ffioedd archwilio a dalwyd yn ystod 2013-14 gan bob corff llywodraeth leol.



Tudalen y pecyn 19



Crynodeb amgylcheddol

Yn 2013-14, gwnaethom y canlynol:

- Cael ein hailachredu ar Lefel 4 o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru ymhob un o'n tair prif swyddfa
- Lleihau ein gwastraff 27 y cant o gymharu â'r llynedd a chynyddu cyfran y gwastraff a aildddefnyddir, a ailgylchir neu a gaiff ei gompostio i bron hanner
- Lleihau ein defnydd o bapur ychydig, ond cynyddu ein defnydd o ddŵr ychydig
- Cynnal ein hallyriadau cyfwerth â CO₂ o ganlyniad i deithiau busnes a'r defnydd o ynni ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol
- Cyflawni lefel effeithlonrwydd ar gyfer ein defnydd o swyddfeydd tebyg i'r lefel a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru



- Cwmpas 1 - allyriadau uniongyrchol sy'n cyfateb i CO₂ o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli (kg)
- Cwmpas 2 - allyriadau CO₂ anuniongyrchol o ganlyniad i ddefnyddio ynni a brynwyd (kg)
- Cwmpas 3 - allyriadau anuniongyrchol eraill o ganlyniad i'n gweithgareddau (kg)

Tudalen y pecyn 20

£'000	2013-14	2012-13	2011-12
Rheoli amgylcheddol			
Lefel achredu'r Ddraig Werdd	4	4	3
Y defnydd o ddŵr			
Y defnydd o ddŵr m ³	2,351 ⁶	2,322	1,684
Y defnydd o ddŵr m ³ fesul WTE ⁷	10.1	9.9	7.5
Costau cyflenwi dŵr £	4,348	3,336	2,763
Y defnydd o bapur			
Y defnydd o bapur mewn rimiau	2,325	2,385	2,465
Costau cyflenwi papur £	6,426	6,112	5,989
Gwastraff			
Cyfanswm y gwastraff kg	65,926	89,970	108,387
Aildddefnyddiwyd, ailgylchwyd, compostiwyd	30,370	33,630	34,709
Tirlenwi	35,199	56,340	73,678
Peryglus	357	0	0
Aildddefnyddiwyd, ailgylchwyd, compostiwyd fel % o gyfanswm y gwastraff ⁸	46.1	37.4	32.0
Cyfanswm costau gwaredu £	4,439	8,586	9,447
Allyriadau nwyon tŷ gwydr⁹			
Cyfanswm yr allyriadau kg CO ₂ e	543,925	512,242	496,172
Y gellir eu priodoli i deithiau busnes	256,580	254,597	257,330
Mewn car	232,035	241,726	242,742
Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr	24,545	12,871	14,588
Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni	256,928	257,645	238,842
Trydan ¹⁰	252,634	251,265	232,776
Nwy	4,294	6,380	6,066
Y gellir eu priodoli i bethau eraill ¹¹	30,417	0	0-
Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £	222,333	197,284	213,394
Cyfanswm gwariant ar ynni £	56,556	69,874	56,828
Effeithlonrwydd ystâd			
Cost fesul WTE £ ¹²	3,431	3,186	3,365
Effeithlonrwydd cost ¹³ £ fesul m ²	285	265	260
Effeithlonrwydd o ran gofod m ² fesul WTE	12.0	12.0	12.9

6 Amcangyfrif oherwydd cyfnod bilio. Fwy na thebyg y gellir priodoli'r cynnydd mewn defnydd yn 2012-13 a 2013-14 i'r ffaith bod mwy o ddigwyddiadau hyfforddiant a digwyddiadau dysgu a rennir wedi'u cynnal yn ein swyddfeydd.

7 Arfer nodweddiadol a gorau ar gyfer y defnydd o ddŵr mewn swyddfa yw 9.3 m³ a 6.4 m³ yn y drefn honno fesul aelodau o staff Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) y flwyddyn (canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd).

8 69 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2012-13 (Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2012-13, Llywodraeth Cymru).

9 Cyfrifwyd gan ddefnyddio canllawiau DEFRA/DECC 2013 ar gyfer adroddiadau gan gwmnïau.

10 Ailddatganwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn unol â newidiadau i ganllawiau ar gyfer adroddiadau gan gwmnïau.

11 Gellir ei briodoli i gludo a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr – cyfrifwyd gyntaf yn 2013-14.


12 O gymharu â £3,420 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2013.

13 Yn cynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill.


Crynodeb cymdeithasol

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14:



- Roedd proffil oedran a rhyw ein gweithlu yn debyg i'r Gwasanaeth Sifil, ond roedd llai o gyflogeion 60 oed a throsodd
- Cynyddodd cyfran y cyflogeion rhan amser, ond roedd yn dal yn is na chyfran gyfatebol y Gwasanaeth Sifil
- Gostyngwyd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch bump y cant, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb hirdymor



- Gostyngodd ein cyfradd trosiant llafur flynyddol ychydig ond roedd yn cymharu'n ffafriol â meincnod CIPD
- Merched oedd tua chwarter y staff mewn bandiau cyflog uwch dîm arwain a thraean y staff mewn bandiau cyflog rheoli



- Dynion rhan amser
- Dynion llawn amser
- Merched rhan amser
- Merched llawn amser



Tudalen y pecyn 22

£'000	2013-14	2012-13	2011-12
Nifer y staff a chydnabyddiaeth			
Nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol	247	251	254
Nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn	233.8	234.5	225.6
Cyflog gros blynyddol staff canolrifol a buddiannau mewn da ¹⁴ £	43,499	45,964	46,347
Trosiant			
Cyfradd trosiant llafur flynyddol ¹⁵ %	9.3	10.8	8.3
Rheoli presenoldeb			
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff ¹⁶	6.4	6.7	9.7
Oherwydd absenoldeb byrdymor	3.7	3.9	2.4
Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod)	2.6	2.9	7.3
Amrywiaeth			
Merched %	49.8	52.2	50.0
O dan 30 oed ¹⁷ %	9.0	10.0	5.9
Rhwng 30 a 59 oed %	88.6	85.2	87.0
60 oed a throsodd %	2.4	4.8	7.1
Patrymau gweithio			
Cyflogeion rhan amser fel % o'r cyfanswm ¹⁸	17.4	16.3	18.6
I ddynion	5.6	3.3	11.1
I ferched	29.3	28.2	26.0
Math o contract cyflogaeth			
% y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol ¹⁹	90.3	87.7	86.6
Dosbarthiad graddfeydd			
Staff mewn bandiau uwch dîm arwain (9 i 11) %	5.2	5.2	5.1
Staff mewn bandiau rheoli (6 i 8) %	21.9	21.5	22.5
Staff mewn bandiau cyflog eraill %	72.9	73.3	72.3
% y staff uwch dîm rheoli sy'n ferched	23.1	23.2	23.2
% y staff rheoli sy'n ferched	35.2	35.2	35.1

Nodyn: Ffigurau diwedd y flwyddyn a nodir yn y tabl oni nodir fel arall

14 £45,331 ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a £41,050 ar gyfer Audit Scotland (yn unol â chyfrifon blynyddol cyhoeddus 2012-13).

15 Canolrif o 9.4 y cant ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Adnoddau a Chynllunio Talent CIPD yn 2013.

16 8.7 diwrnod fesul cyflogai'r flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Rheoli Absenoldeb blynyddol CIPD yn 2013.

17 Ffigurau 2013 yr Arolwg Blynyddol o Gyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil: tua 10.0 y cant o dan 30 oed, 82.3 y cant rhwng 30 a 59 oed a 7.7 y cant yn 60 oed a throsodd.

18 24 y cant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn 2013 (tua 9 y cant ar gyfer dynion yn unig, 38 y cant ar gyfer merched yn unig).

19 89 y cant ar gyfer y cyflogeion hynny o'r sector cyhoeddus a gafodd eu cynnwys yn Labour Market Outlook Winter 2012-13 CIPD – sef arolwg cynrychioliadol o 2,000 o bobl mewn cyflogaeth, a 97 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru (Ystadegau Gwasanaeth Sifil 2013).

Tudalen y pecyn 23

Rhoi sicrwydd

Yn yr adran hon rydym wedi cynnwys rhai astudiaethau achos o'r modd rydym wedi rhoi sicrwydd amserol yn 2013-14 mewn perthynas â llywodraethu a gwarchod arian cyhoeddus ac asedau yng Nghymru.

Archwilio cyfrifon

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi cyfrif am yr arian yn eu gofal. Y brif ffordd y maent yn gwneud hyn yw drwy baratoi cyfrifon blynyddol amserol a chywir. Yn ein gwaith archwilio ariannol rydym yn canolbwyntio ar archwilio'r cyfrifon hyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod.

Yn 2013-14, cyhoeddwyd adroddiadau gennym ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn eu plith roedd Llywodraeth Cymru a'r gyrff a noddir ganddi, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd, awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau ac ymddiriedolaethau heddlu a phrawf, cronfeydd pensiwn a chynghorau cymuned a thref.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd cyfrifon y mwyafrif helaeth o'r gyrff a archwiliwyd eu cymeradwyo a rhoddwyd barnau arnynt erbyn y dyddiad terfyn gofynnol.

Roedd archwilwyr yn aml yn awgrymu diwygiadau i gyfrifon drafft gyrff, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir, ac yn gwneud llawer o argymhellion ar gyfer gwelliant i'r rhai a oedd yn gyfrifol am reoli a goruchwyllo'r cyfrifon.

Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddwyd adroddiad gennym yn dwyn ynghyd ganlyniadau ein gwaith archwilio cyfrifon ar draws y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn gyffredinol, roedd ansawdd cyfrifon a phapurau gwaith ategol wedi gwella o gymharu â 2011-12, ond tynnwyd sylw gennym at rai meysydd penodol o'r cyfrifon y mae angen eu gwella.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi adroddiad o'r enw *Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cynghorau Cymuned 2011-12* ym mis Medi 2013 a ddarparodd grynoded o ganlyniadau gwaith archwilwyr mewn cynghorau tref a chymuned ar gyfer cyfrifon 2011-12. Mae archwilwyr yn parhau i ganfod materion cyffredin a sylfaenol o ran trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol gwan ar draws nifer o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Er mwyn helpu cynghorau o'r fath i wella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu addasu'r trefniadau ar gyfer eu harchwilio ar gyfer archwiliadau 2015-16.

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Mae grantiau yn ffynhonnell bwysig o arian yng Nghymru. Wrth ddyfarnu grantiau, mae cyllidwyr yn gosod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n eu derbyn ddefnyddio'r arian at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig ac o dan reolaethau llym. Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed.

Yn 2013-14, ardystiwyd 33 o gynlluniau llywodraeth leol gennym, a oedd yn werth tua £3 biliwn ac yn cynnwys dros 780 o hawliadau unigol. O ganlyniad i'n gwaith, bu'n rhaid addasu un o bob tri o'r hawliadau hynny (er mwyn cywiro gwall) neu roi barn amodol (er mwyn nodi anghytundeb neu ansicrwydd ynglŷn â rhan o'r gwariant a hawliwyd). Gwnaed addasiadau gwerth £2.4 miliwn gros ac roedd y newidiadau a ddeilliodd o farn amodol yn werth hyd at £15 miliwn. Ardystiwyd hefyd hawliadau gwerth tua £228 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddid ganddi o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Craffu ar geisiadau am arian o Gronfa Gyfunol Cymru

Cronfa Gyfunol Cymru yw'r prif gyfrwng o dderbyn a dosbarthu arian ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Darperir y rhan fwyaf o'r arian a delir i'r gronfa gan Lywodraeth y DU, fel y'i hawdurdodir gan Senedd y DU. Mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo pob taliad o'r gronfa hon, ar ôl cadarnhau bod y taliadau arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a, lle y bo'n briodol, awdurdodiad cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r symiau o arian dan sylw yn rhai mawr - tua £1 biliwn y mis yn ystod 2013-14. Llwyddwyd i brosesu bob cais o dan Gronfa Gyfunol Cymru fwy neu lai ar yr un diwrnod ag y daethant i law, ac ymdriniwyd ag unrhyw anghysondebau mewn ceisiadau fel mater o flaenoriaeth.

Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn 2012, drwy ein gwaith archwilio, codwyd nifer o bryderon gennym ynghylch materion yn ymwneud â llywodraethu, atebolrwydd a darparu gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Adlewyrchwyd ein pryderon yn y canlyniadau a ddeilliodd o adolygiad ansawdd a diogelwch a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Gwnaethom weithio'n agos ag AGIC i fonitro ymateb y Bwrdd Iechyd i'r materion hyn ond erbyn mis Mawrth 2013, roedd ein pryderon ynghylch gallu arweinwyr y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r heriau wedi cynyddu i'r fath raddau fel y teimlwyd bod angen cynnal adolygiad brys ar y cyd o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

Cynlluniwyd gwaith yr adolygiad ar y cyd i ddod â nifer o feysydd archwilio ac arolygu ynghyd er mwyn rhoi barn annibynnol unigol i'r Bwrdd Iechyd o'r materion yr oedd angen iddo ymdrin â hwy er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu corfforaethol, clinigol ac ariannol i'r graddau eu bod yn ddigonol i sicrhau ansawdd, diogelwch a chynaliadwyedd gwasanaethau i'r boblogaeth a wasanaethir gan y Bwrdd.

Sefydlwyd tîm cyfun ar gyfer y prosiect ar unwaith, a oedd yn cynnwys arbenigwyr archwilio ariannol ac arbenigwyr archwilio perfformiad yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr llywodraethu clinigol AGIC, a rhoddwyd rhaglen ddwys o waith maes ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn ystod mis Mai, gan gynnwys adolygu ffeiliau, cynnal cyfweiliadau ac arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

Ar ôl dim ond wyth wythnos, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar y cyd, a gwnaed 24 o argymhellion gennym er mwyn ymdrin â'r canlynol:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau;
- strwythurau rheoli ac arwain clinigol;
- trefniadau ansawdd a diogelwch;
- rheolaeth ariannol a chynaliadwyedd; a
- gweledigaeth strategol ac ad-drefnu gwasanaethau.

Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, ymddiswyddodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd a chynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sesiynau tystiolaeth lafar gydag amrywiol aelodau o'r Bwrdd Iechyd, uwch aelodau o staff a swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd adroddiad dilynol y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, yn cynnwys 21 o argymhellion pellach i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Yn bwysig, nid oedd effaith ein gwaith wedi'i chyfyngu i un Bwrdd Iechyd yn unig. Yn syth ar ôl yr adolygiad, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob un o gyrff eraill y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiad o'u trefniadau llywodraethu er mwyn rhoi sicrwydd nad oeddent yn cael yr un problemau a welwyd gennym ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ogystal, rhwng diwedd 2013 a dechrau 2014, gweithiodd ein staff yn agos ag AGIC a swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu dogfen brotocol newydd o'r enw *Trefniadau ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch ac ymyrryd yn y GIG*. Mae'r protocol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014, yn nodi sut y bydd yr Archwilydd Cyffredinol, AGIC a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd sefydliadol ar draws GIG Cymru. Dylai cyfathrebu rheolaidd ac agored mewn perthynas â gwybodaeth a phryderon sy'n dod i'r amlwg rhwng y tri chorff helpu i nodi materion yn gynnar ac ymdrin â hwy drwy gamau gweithredu cyflym a chydgyssylltiedig.

Tudalen y pecyn 27

Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw

Gall gohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon am fusnes cyhoeddus lywio ein rhaglen waith drwy nodi materion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Ein polisi yw ymateb yn ddi-oed i bryder cyhoeddus mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

O dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol eu cydnabod yn 'unigolion rhagnodedig' a all dderbyn datgeliadau gan gyflogeion neu gyn-gyflogeion cyrff a archwilir drwy drefniadau 'chwythu'r chwiban'. Yn 2013-14, cawsom gyfanswm o 324 o gysylltiadau drwy ein trefniadau chwythu'r chwiban. O'u plith, ystyriwyd bod 12 ohonynt o fewn cwmpas y Ddeddf a dosbarthwyd y gweddill fel gohebiaeth gyffredinol neu ohebiaeth yn ymwneud ag archwilio. Rhoddwyd ymatebion priodol i bob un o'r unigolion hynny a gododd bryder gyda ni.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol am unrhyw amheuaeth neu wybodaeth am unigolyn sy'n ymdrin ag elw troseddau (gwyngalchu arian) y daw ef neu'i staff ar ei draws yn ystod eu gwaith.

Adroddiadau er budd y cyhoedd ar daliadau a wnaed i uwch swyddogion

Ar ôl cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar godiadau cyflog a roddwyd i uwch swyddogion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Mawrth 2013, cyhoeddwyd nifer o adroddiadau eraill er budd y cyhoedd gennym yn ystod 2013-14.

Unwaith eto, canolbwyntiodd yr adroddiadau ar daliadau anghyfreithlon a wnaed i uwch swyddogion llywodraeth leol (prif weithredwyr yn bennaf), gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:

- prynu lwfansau defnyddwyr ceir a gwyliau blynyddol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili);
- indemniad am wrth-hawliad enllib (Cyngor Sir Caerfyrddin); a
- thaliad atodol a wnaed i uwch aelod o staff a benderfynodd eithrio o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin).

Nodwyd yr angen i gynghorau ddilyn prosesau cyfreithiol, cadarn a thryloyw ac i gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol penodol lle y caiff trefniadau newydd a/neu ddadleuol eu hystyried.

Ym mhob achos, mae'r Cynghorau wedi derbyn argymhellion yr adroddiadau. Yn dilyn amrywiaeth o bryderon a godwyd ynghylch lefel cyflogau uwch aelodau o staff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi lansio ymchwiliad.

Cynnig mewnwelediad

Yn yr adran hon, rhown rai enghreifftiau o'r meysydd lle y gwnaethom gynnig mewnwelediad defnyddiol yn 2013-14 o'r graddau y caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Astudiaethau gyda phwyslais ar galedi

Yn 2013-14, rhoesom fwy o bwyslais drwy ein gwaith archwilio ar ba mor dda y gall cyrff cyhoeddus gynnal neu wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt tra'n wynebu toriadau neu newidiadau sylweddol i'w cyllid. Yn arbennig, cyhoeddwyd tri adroddiad sector-benodol gennym a bwysleisiodd bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn a'r angen i wasanaethau cyhoeddus reoli effeithiau posibl newidiadau neu ostyngiadau i'w cyllid ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.

Cyllid iechyd

Cyhoeddwyd yr adroddiad *Cyllid Iechyd 2012-13* a thu hwnt ym mis Gorffennaf 2013 gan ystyried sefyllfa'r GIG yng Nghymru yn ystod y flwyddyn a'i berfformiad wrth gyflawni ei flaenoriaethau a'i dargedau allweddol.

Nodwyd gennym fod cyrff y GIG wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ond dim ond o ganlyniad i gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Nid ystyriwyd bod llawer o'r camau gweithredu a gymerwyd gan gyrff y GIG er mwyn gwneud arbedion yn gynaliadwy. Yn arbennig, codwyd pryderon gennym am y ffaith bod rhai byrddau iechyd yn lleihau gweithgarwch ar ddiwedd y flwyddyn. Cafwyd gennym hefyd yn ystod y cyfnod lle y bu'r GIG o dan bwysau ariannol, fod perfformiad mewn rhai meysydd allweddol, yn fwyaf nodedig, amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol, wedi gwaethygu.

Daeth ein hadroddiad i ben drwy ystyried y rhagolygon i'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol a chodwyd pryderon gennym am gynaliadwyedd hirdymor o ystyried y cynnydd araf a wnaed wrth ad-drefnu a thrawsnewid gwasanaethau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad dilynol yn ystod haf 2014, gan ystyried cyllid y GIG a'i berfformiad yn ystod 2013-14.





Heriau ariannol i lywodraeth leol

Yn ein hadroddiad *Ymddrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, nodwyd gennym y ddwy her sy'n wynebu llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd nesaf: gostyngiadau cyllidebol mewn termau real a galw cynyddol. Roedd cynnwys yr adroddiad hwn yn deillio o ddadansoddiad lefel uchel o bwysau ariannol a phwysau o ran galw, ynghyd â'n gwaith archwilio lleol i brofi trefniadau cynllunio ariannol a strategol cynghorau.

Yn gyffredinol, mae cynghorau wedi ymdopi'n dda hyd yn hyn, ond mae diffygion yn dod i'r amlwg. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o galedi, gwelsom fod cynghorau yng Nghymru wedi cael eu diogelu'n well na chynghorau yn Lloegr ond nodwyd gennym fod hyn yn annhebygol o barhau. Er bod cynghorau yn deall maint yr heriau, nid oedd gan lawer ohonynt gynlluniau clir ar gyfer cyflawni'r math o drawsnewidiadau a newidiadau sydd eu hangen er mwyn iddynt ymateb yn effeithiol. Yn ogystal, daethom o hyd i dystiolaeth nad oedd cynghorau yn gallu olrhain na deall effaith eu penderfyniadau ariannol ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adeiladu ar y gwaith hwn gyda chyfres o adolygiadau a fydd yn ystyried gwydnwch ariannol cyffredinol cynghorau ac effaith pwysau ariannol ar wasanaethau cynghorau unigol.

Cyllid addysg uwch

Cynhaliwyd y darn hwn o waith archwilio yn erbyn cefndir cyflwyno ffioedd dysgu uwch i fyfyrwyr a oedd yn dechrau yn y brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 a newidiadau yn y llif arian cyhoeddus i'r sector addysg uwch. Er bod llawer o'r sylw a gafodd yr adroddiad yn y cyfryngau yn canolbwyntio ar y broses gwneud penderfyniadau a oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad i gyflwyno ffioedd dysgu uwch, roedd negeseuon pwysig eraill.

Yn yr adroddiad, daethom i'r casgliad cyffredinol bod Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi rhoi'r polisi ffioedd dysgu ar waith yn effeithiol, a'u bod wedi gwneud hynny ar adeg lle roedd y ddau sefydliad yn rheoli effaith gostyngiadau yn eu costau rhedeg eu hunain.

Cydnabuwyd gennym fod sefydliadau addysg uwch yn wynebu heriau ac ansicrwydd sylweddol o fewn amgylchedd gweithredu cynyddol gystadleuol, ond nodwyd gennym fod y sefydliadau yn gyffredinol yn ymddangos fel petaent mewn cyflwr ariannol cadarn a bod eu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yn esblygu'n briodol.

Memoranda ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Yn ystod 2013-14, yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar ei raglen o astudiaethau gwerth am arian, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i roi memoranda ffeithiol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi ymchwiliadau o dan arweiniad y Pwyllgor ar bynciau a oedd yn peri pryder penodol i aelodau'r Pwyllgor. O ganlyniad i'r trefniant newydd hwn, cyhoeddwyd memoranda yn ystod rhan olaf y flwyddyn ar y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru - Caerdydd i Ynys Môn, ac ar gyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru -

Caerdydd i Ynys Môn

Dechreuodd y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru weithredu ym mis Mai 2007 a, gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru, mae'n darparu dau hediad bob diwrnod yn ystod yr wythnos i'r ddau gyfeiriad rhwng Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Ynys Môn (RAF y Fali). Drwy'r memorandwm, cyflwynwyd gwybodaeth gennym am darddiadau'r gwasanaeth hwn, trefniadau caffael Llywodraeth Cymru a chostau cyffredinol a pherfformiad y gwasanaeth. Cyfanswm gwerth yr arian a roddodd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwasanaeth hwn oedd £9 miliwn yn ystod y cyfnod o 2007-08 i 2012-13. Mae'r cyfanswm hwnnw yn cynnwys y cymhorthdal a dalwyd i weithredwr masnachol y gwasanaeth ac, ymhlith pethau eraill, costau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i'r prif adeilad a'i weithrediad yn RAF y Fali.

Nododd data am deithwyr a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru fod nifer y teithwyr a deithiodd ar y gwasanaeth wedi gostwng dros 40 y cant o 14,718 yn 2008-09 i 8,406 yn 2012-13, gyda'r gwasanaeth yn gallu cludo uchafswm o 18,720 o deithwyr y flwyddyn pe byddai pob taith yn llawn. Yn erbyn y cefndir hwn, a chyda'r contract presennol ar gyfer y Gwasanaeth Awyr yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2014, mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddeall gwerth am arian posibl unrhyw contract pellach ar gyfer y Gwasanaeth Awyr.

Tâl uwch reolwyr

Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus adrodd ar gyflog eu huwch aelodau o staff yn eu datganiadau ariannol blynyddol neu'r adroddiad cydnabyddiaeth. Mae union natur y wybodaeth y mae angen ei datgelu yn amrywio. Esboniodd ein memorandwm ar gyflogau uwch reolwyr rai o'r gwahaniaethau hyn i'r Pwyllgor gan gyflwyno dadansoddiad cymharol o gyfraddau cyflog ar gyfer sefydliadau ar draws llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r GIG mewn un man.

Er enghraifft, yn y memorandwm, nodwyd gennym fod cyflogau Prif Weithredwyr y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru yn amrywio o £109,000 i ychydig islaw £195,000 yn 2012-13. Wrth gynnal ei ymchwiliad ar y pwnc hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried cyfraddau cyflogau uwch aelodau o staff ym maes addysg bellach ac addysg uwch ac ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gyda chymorth rhywfaint o waith dadansoddi ychwanegol a baratowyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Tudalen y pecyn 32

Hyrwyddo gwelliant

Yn yr adran hon, tynnwn sylw at achosion yn ystod 2013-14 lle rydym wedi nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellid gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Craffu da? Cwestiwn da

Gall gwaith craffu chwarae rhan allweddol wrth sicrhau hunanreoleiddio effeithiol a hyrwyddo gwelliant o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol yn arbennig o bwysig wrth i gyrff cyhoeddus ymateb i'r her o gynnal neu wella'r gwasanaethau a ddarperir tra'n wynebu toriadau ariannol sylweddol.

Yn 2013-14, cynhaliwyd astudiaeth wella gennym wedi'i hanelu at helpu llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau trosolwg a chraffu cryfach. Canolbwyntiodd ein gwaith ar alluogi cynghorau i ystyried eu taith tuag at welliant hyd yn hyn ac i greu llinell sylfaen y gellid ei ddefnyddio i wella eu trefniadau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf. Roeddem hefyd yn awyddus i lywio a dylanwadu ar yr hyn a ystyriwn yn nodweddion allweddol craffu effeithiol.

Wrth gynnal yr astudiaeth, ni ddefnyddiwyd yr hyn y gellid ei ystyried yn ddull archwilio traddodiadol 'o'r tu allan am i mewn' gennym. Yn lle hynny, rhoddwyd mwy o bwyslais ar greu cyfleoedd ar gyfer hunanwerthuso ac i gymheiriaid gyfnewid y gwersi a ddysgwyd ganddynt. Drwy ddilyn y dull hwn, llwyddodd cynghorau i feithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o effeithiolrwydd eu trefniadau trosolwg a chraffu presennol a threfniadau cyfatebol cynghorau eraill, ac i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio ac ymgymryd â gwaith craffu ar y cyd yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr astudiaeth, rhoddwyd llinell sylfaen gyfredol i bob cyngor o'i drefniadau craffu ei hun a threfniadau craffu cynghorau eraill, wedi'i lywio gan hunanwerthusiadau, gweithdai rhanbarthol, adborth gan gynghorau partner ac adroddiadau lleol gan archwilwyr. Wedyn anogwyd y cynghorau i gyflwyno eu llinell sylfaen i'w haelodau eu hunain ac i benderfynu ar gynllun gweithredu priodol ar gyfer gwella.

Yn dilyn yr astudiaeth, gwnaethom hefyd gynnal cynhadledd genedlaethol ar y cyd, sef Goleuni ar Graffu, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ac Ysgol Fusnes Caerdydd, a lanswyd ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol i ysgogi trafodaeth bellach ac i annog pobl i rannu arfer da.

Mae'r astudiaeth a'r gynhadledd wedi ennyn brwdfrydedd llawer o gynghorau i gydweithio er mwyn helpu ei gilydd i wella eu trefniadau craffu ymhellach. Caiff adroddiad cryno cenedlaethol o'r astudiaeth ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2014.



Meincnodi perfformiad rheoli gwastraff

Mae'r term 'rheoli gwastraff' yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau rheng flaen cynghorau, sy'n aml yn darparu enghraifft weladwy iawn o'r ffordd y mae cyngor yn perfformio a sut y mae'n cyfathrebu ac yn gweithio gyda thrigolion a masnachwyr. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau a chyllid arall ar gyfer gwasanaethau gwastraff cynghorau, sy'n dod i gyfanswm o tua £270 miliwn bob blwyddyn.

Er mwyn helpu i hyrwyddo gwelliant wrth ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff yng Nghymru, rydym wedi hwyluso grwpiau meincnodi perfformiad ers dros ddegawd. Mae rheolwr archwilio â phrofiad arbenigol ym maes gwastraff yn cydweithredu gyda'r grwpiau, naill ai fel hwylusydd neu fel 'ffrind beirniadol' i'r broses feincnodi, ochr yn ochr â rheolwyr gwastraff cynghorau a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn ychwanegu gwerth at waith y grwpiau drwy ddarparu safbwynt unigryw a diduedd o ba mor dda y caiff gwasanaethau gwastraff eu darparu a sut y gellid eu gwella. Rydym yn hwyluso trafodaethau drwy dynnu sylw at ganfyddiadau archwiliadau cysylltiedig, argymhellion ac enghreifftiau o arfer da, ac yn hwyluso'r broses o rannu'r gwersi a ddysgwyd ledled Cymru ac yn ehangach.

Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd rhan mewn dau grŵp meincnodi ar wahân: Grŵp Meincnodi Rheoli Gwastraff Cymru Gyfan a'r Grŵp Meincnodi Gwastraff Masnach mwy arbenigol, sy'n canolbwyntio ar gontractau cynghorau i gasglu gwastraff ac adnoddau y gellir eu hailgylchu o safleoedd masnachol.

Ym mis Mawrth 2014, cyflwynwyd ein pedwerydd adroddiad archwilio blynyddol i Fwrdd Gwastraff Rhaglen Weinidogol Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth rydym wedi'u cael o'n gwaith gyda'r grwpiau meincnodi. Yn arbennig, gwnaethom hysbysu'r Gweinidog mai gwella effeithlonrwydd gwasanaethau casglu yw'r ffordd orau i leihau costau a gwella perfformiad gwasanaethau ailgylchu gwastraff bwyd ac ailgylchu sych wrth ymyl y ffordd. Yn 2015, byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog ar y ffyrdd gorau i wella perfformiad a chost canolfannau ailgylchu gwastraff cartref a gwasanaethau gwastraff gweddilliol wrth ymyl y ffordd.

Mae ein presenoldeb ar y grwpiau fel archwilwyr allanol annibynnol yn ychwanegu hygredded a throsoledd i'w gwaith, ac yn helpu i sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud. Mae'r dulliau a ddefnyddir gennym yn drosglwyddadwy, sy'n golygu y gallent fod o fudd i lawer o wasanaethau cyhoeddus eraill.

Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon

Yn ystod hydref 2012, archwiliodd tîm o Swyddfa Archwilio Cymru, gan weithio mewn cydweithrediad â chydweithwyr o Estyn, y trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon mewn ysgolion yng Nghymru. Cafwyd gennym fod tua £54 miliwn wedi'i wario yn 2011-12 ar gostau cyflenwi ar gyfer athrawon dosbarth a oedd yn absennol, ac y darparwyd athrawon cyflenwi ar gyfer ychydig islaw 10 y cant o'r holl wersi. Cafwyd hefyd fod gwariant ar gostau cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu.

Gall athrawon fod yn absennol am amrywiaeth o resymau gan gynnwys oherwydd salwch, ac er mwyn mynd i hyfforddiant a chyfarfodydd. Amcangyfrifwyd bod absenoldeb oherwydd salwch yn gyfrifol am bron i hanner yr holl achosion o absenoldeb yn 2011-12, ac roedd cyfartaledd Cymru, sef saith diwrnod fesul athro yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr, sef pedwar diwrnod a hanner. Gwnaethom arsylwi hefyd fod y lefel o absenoldeb oherwydd salwch yn amrywio'n sylweddol ar lefel leol; roedd gan rai cynghorau gyfartaledd o bedwar diwrnod y flwyddyn ond roedd gan eraill gyfartaledd o hyd at naw diwrnod. Pe gostyngwyd lefel absenoldeb oherwydd salwch yng Nghymru i'r lefel gyfartalog

yn Lloegr, gallai leihau nifer y gwersi y mae angen athrawon cyflenwi ar eu cyfer o tua 60,000 ac arbed dros £9 miliwn y flwyddyn mewn costau cyflenwi.

Yn ogystal â nodi arbedion ariannol posibl, nododd ein gwaith gydag Estyn fod disgyblion ar y cyfan yn gwneud llai o gynnydd mewn gwersi ag athrawon cyflenwi ac na roddwyd digon o sylw i leihau'r angen am athrawon cyflenwi gan ysgolion, awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad nad yw'r trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon wedi'u rheoli'n ddigon da i gefnogi cynnydd dysgwyr nac i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, gwnaethom argymhell y dylid gwneud mwy i leihau'r angen am athrawon cyflenwi, i wella trefniadau cyflenwi, i wella hyfforddiant a datblygiad athrawon cyflenwi ac i reoli adnoddau yn fwy effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'n hargymhellion ac mae wrthi'n cynllunio canllawiau newydd ar drefniadau cyflenwi. Cymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd dystiolaeth ar ein canfyddiadau ac mae wedi paratoi ei adroddiad ei hun yn seiliedig ar ein hastudiaeth.



Tudalen y pecyn 36



Seminarau dysgu a rennir ar reoli asedau

Un o'r ffyrdd rydym yn hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yw drwy raglen flynyddol o seminarau dysgu a rennir. Y thema gyffredinol ar gyfer ein seminarau yn 2013-14 oedd rheoli asedau. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £500 miliwn y flwyddyn yn rheoli tir ac adeiladau gwerth tua £12 biliwn. Fodd bynnag, nid yw asedau'r rhan fwyaf o sefydliadau yn llwyddo i ymateb i ofynion cyfnewidiol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

Cynhaliodd tîm y Gyfnewidfa Arfer Da gyfres o 12 o seminarau rheoli asedau yn 2013-14, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gweithgor Asedau Cenedlaethol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), gan ymdrin â'r canlynol:

- rheoli ynni;
- rheoli gwybodaeth a thechnoleg;
- rheoli fflyd;
- rheoli adeiladau;
- trosglwyddo tir ac asedau; a
- rheoli cyfleusterau.

Fel rhan o'r seminar rheoli ynni, cyflwynodd Dŵr Cymru weithdy yn amlinellu sut roedd wedi cynnal archwiliadau dŵr ac wedi gosod systemau rheoli dŵr newydd ar ei ystâd, gan felly gyflawni arbedion ariannol sylweddol a lleihau'r defnydd o ddŵr. Cynigiodd Dŵr Cymru hefyd archwiliadau dŵr am ddim i bob un a ddaeth i'r seminar.

Ers y seminar, mae Dŵr Cymru wedi cynnal cyfres o archwiliadau dŵr i gyfranogwyr y seminar o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Disgwylir y bydd yr arbedion a nodwyd drwy archwiliadau cychwynnol ar gyfer dim ond un o'r cyfranogwyr, sef Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys EM (Cymru), yn fwy na £35,000.

'Drwy fynd i'r seminar rheoli ynni, cefais gyfle i drefnu archwiliad dŵr yn ogystal â gwneud cysylltiadau allweddol o fewn sectorau cyhoeddus eraill er mwyn rhannu syniadau pellach. Roedd yn fore buddiol sydd wedi ychwanegu gwerth gwirioneddol i'm sefydliad.'

Martin Rowlands, Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys EM (Cymru)

Cydweithio a gwaith rhyngwladol

Rydym yn ymrwymedig i gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU ac adeiladu ar y cydweithrediad sydd eisoes yn digwydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus. Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda chydweithwyr yn Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar brosiectau ar y cyd ac er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau i weithio'n agos â'r tri phrif gorff adolygu allanol yng Nghymru - Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

O bryd i'w gilydd, rydym yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith. Mae ein gwaith rhyngwladol hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ein gwybodaeth am dechnegau cyfrifyddu ac archwilio ymhellach a meithrin sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein gwaith. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny gefnogi ein strategaeth fusnes, y dylent fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

Rhedeg y busnes

Yn yr adran hon amlinellwn yr hyn rydym wedi'i wneud yn 2013-14 i adeiladu ar ein gwaith o fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

Rydym yn ymrwymedig i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol o ran y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes (ac fel rhan o'n holl waith archwilio). Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i gynnwys datblygu cynaliadwy ymhellach yn y ffordd rydym yn cynnal ein busnes mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Caiff ein gwaith ei ariannu'n bennaf o ffioedd a godir ar gyrrff a archwilir ac arian gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Defnyddiwn y cronfeydd hyn i dalu staff a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'n trefniadau rheoli ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, er mwyn bodloni gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rydym wedi mireinio ein trefniadau costio er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r sail ddiwygiedig ar gyfer pennu ffioedd ar gyfer ein gwaith.


Ers 1 Ebrill 2013, rydym hefyd wedi gorfod rhoi dyfarniad gan CThEM ar waith mewn perthynas â'n statws TAW. Mae'r dyfarniad wedi arwain at gynydd anochel o tua £700,000 y flwyddyn yn ein sylfaen gostau, sydd yn ei dro wedi effeithio ar ffioedd archwilio. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried cyfleoedd i wneud arbedion er mwyn helpu i wrthbwysu'r costau ychwanegol hyn. Ym mis Mawrth 2014, trefnwyd contract gyda darparwr allanol i ddarparu ein gwasanaeth cyflogres a fydd yn arwain at arbedion i Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

Ein nod yw talu 95 y cant o anfonebau cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o'u derbyn, yn seiliedig ar fonitro taliadau yn barhaus. Yn ystod blynyddyn ariannol 2013-14, gwnaed 96 y cant o daliadau o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb (o gymharu â 97 y cant yn 2012-13). O 1 Ebrill 2014, byddwn hefyd yn monitro ein perfformiad yn erbyn targed talu o 10 diwrnod.

Caiff manylion am y ffordd yr ymdriniwyd â rhwymedigaethau mewn perthynas â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn ein cyfrifon eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ([tudalennau 50 i 58](#)) ac yn Nodyn 1(v) o'r Nodiadau i'r Cyfrifon. Nid oes unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â thaliadau a wnaed ar gyfer pensiynau rhanddeiliaid.

Yn ystod 2013-14, cynhaliodd Baker Tilly, ein harchwilwyr allanol, astudiaeth gwerth am arian mewn perthynas â'n trefniadau fflyd ar gais y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Cost y gwaith hwn oedd £14,000.

Ym mis Tachwedd 2012, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gais gan yr Archwilydd Cyffredinol am £250,000 o gyllid ychwanegol er mwyn galluogi iddo ymateb yn brydlon i geisiadau cynyddol am waith ad hoc yn 2013-14 heb ohirio'r broses o gyflawni ei raglen astudiaethau cenedlaethol. Nodir dadansoddiad o'r defnydd a wnaed o'r arian ychwanegol hwnnw yn 2013-14 isod. Roedd costau gwaith ad hoc yn 2013-14 yn uwch na'r swm ychwanegol a ddarparwyd a daeth i gyfanswm o tua £285,000.



- Adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - **£64,970**
- Archwilio'r arian cyhoeddus a ddarperir i Ganolfan Cywain yn y Bala - **£80,100**
- Adolygiad ar y Cyd o Gronfa Fuddsoddi mewn Gwyddorau Bywyd Cymru - **£32,930**
- Memorandwm ar gyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru - **£66,750**
- Memorandwm ar y Gwasanaeth Awyr o fewn Cymru – Caerdydd i Ynys Môn - **£38,270**
- Cyfrifon o restrau aros y GIG a phractisau preifat - **£1,780**

Gwarchod yr amgylchedd

Yn 2013-14, cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reolaeth amgylcheddol effeithiol.

Gwnaethom barhau i gyflawni ein targed i leihau milltiroedd busnes mewn ceir a'r allyriadau carbon deuocsid cysylltiedig bump y cant y flwyddyn, a rhoesom systemau pellach ar waith er mwyn gallu cofnodi'r allyriadau y gellir eu priodoli i gerbydau personol yn gywir.

Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y gwastraff a gynhyrchwyd gennym 27 y cant, a gwnaethom barhau i gynyddu cyfleusterau ailgylchu yn ein prif swyddfeydd. Cafodd tua hanner ein gwastraff yn 2013-14 ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, ac yn un o'n swyddfeydd, treialwyd a chyflwynwyd cynllun ailgylchu gwastraff bwyd yn llwyddiannus. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein prosesau ar gyfer pwyso a samplu cyfansoddiad gwastraff er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno adroddiadau cywir.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed buddsoddiad pellach yn ein cyfleusterau fideo-gynadledda hefyd, fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi trefniadau gweithio ystywyth a lleihau teithio diangen a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, bu cynnydd o 17 y cant yn y defnydd o gyfleusterau fideo-gynadledda yn ystod y flwyddyn, a chyfrannodd hyn at gynnydd o tua 500 y cant yn y defnydd dros gyfnod o bum mlynedd.

Uwchraddiwyd ein hargraffwyr amlswyddogaeth hefyd i fersiynau mwy modern ac ynni-effeithlon, gan ein helpu i allu sganio dogfennau, lleihau ein defnydd o bapur a monitro tueddiadau mewn defnydd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth ac urddas yn y gwaith

Mae ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun yn nodi sut rydym yn ceisio dileu gwahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da yn ein gwaith a'n gweithgareddau beunyddiol²⁰. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb (ein staff ein hunain a'r rheini rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith) ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Yn 2013-14, cynhaliwyd adolygiadau cydraddoldeb gennym a, lle y bo'n briodol, asesiadau effaith o amrywiaeth eang o bolisïau sefydliadol newydd a phresennol, ynghyd â'n cynigion cyflog ar gyfer 2014-15.

Gwnaethom hefyd fabwysiadu'r Model Anabledd Cymdeithasol yn ffurfiol lle y caiff anabledd ei ystyried fel rhywbeth a gaiff ei orfodi ar bobl â namau (er enghraifft, nam corfforol, nam synhwyrdd, anhawster dysgu neu gyflwr iechyd meddwl) drwy ddiffyg mynediad i adeiladau, gwybodaeth, dulliau cyfathrebu, cymorth personol, addysg a chyflogaeth, a chan agwedd pobl eraill²¹.

Yn ogystal â chael ein cynrychioli ar Grŵp Rhwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb Cymru gyfan - fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer da - aeth cynrychiolwyr o'n Grwpiau Llywio a Buddiannau Cydraddoldeb i Gynhadledd Gweithleoedd Flynyddol Stonewall Cymru ym mis Hydref 2013.

Mae adroddiad llawn ar ein cynnydd o ran amrywiaeth a chydaddoldeb ar gyfer 2012-13 ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2013-14 ei gyhoeddi yn ystod hydref 2014.

²⁰ Am ragor o wybodaeth, gweler ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* ar ein gwefan.

²¹ Ceir rhagor o wybodaeth am y Model Anabledd Cymdeithasol ar wefan Anabledd Cymru.

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal²². Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog ac rydym yn delio â chyrrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.

Yn ystod 2013-14, gwnaethom gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i ymgymryd â chyfweiliadau gyda'r cyfryngau a'r wasg drwy ddarparu hyfforddiant penodol ar ymdrin â'r cyfryngau. Yn ogystal, fel rhan o ymdrech ragweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Swyddfa Archwilio Cymru, cynigiwyd nifer o raglenni meddalwedd Cymraeg i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr, gyda'r bwriad o hwyluso ac annog trefniadau gweithio dwyieithog.

Yn 2012-13, cynhaliwyd dau arolwg gennym ar yr iaith Gymraeg er mwyn canfod dewisiadau iaith y cyrrff a archwilir gennym a galluoedd Cymraeg ein staff. Yn 2013-14, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth o'r arolygon hyn i asesu p'un a oes gennym ddigon o staff â'r sgiliau angenrheidiol i fodloni dewis iaith y cyrrff a archwilir gennym. Daethom i'r casgliad bod risg gynyddol na fydd gennym ddigon o staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg i ddiwallu anghenion y cyrrff a archwilir gennym.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Tachwedd 2013 er mwyn sicrhau y caiff anghenion Cymraeg y cyrrff ar archwilir gennym eu hystyried wrth i ni gynllunio ein gweithlu a chynllunio olyniant. Bydd y Grŵp hefyd yn cynllunio ac yn cydgysylltu'r broses o ddarparu hyfforddiant Cymraeg wedi'i deilwra'n arbennig i aelodau o staff.



²² Am ragor o wybodaeth, gweler ein Cynllun Iaith Gymraeg ar ein gwefan.

Recriwtio a phrofiad gwaith

Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd recriwtio mewnol ac allanol yn ystod 2013-14, gan gynnwys rhai ar gyfer staff â chymwysterau proffesiynol er mwyn helpu i gyflawni ein gwaith.

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol, rydym yn anelu at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl. Yn 2013-14, gwnaethom benodi pedwar hyfforddai archwilio, sydd bellach wedi dechrau ar eu hastudiaethau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, symudodd pob un o'n hyfforddeion a'n technegwyr cyfredol yn llwyddiannus i gam nesaf eu hastudiaethau, gyda 93 y cant ohonynt yn llwyddo yn eu harholiadau gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) a Chymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu y tro cyntaf. Dyfarnwyd Gorchmynion Teilyngdod Pwnc Rhyngwladol ICAEW i ddau hyfforddai i gydnabod eu safonau cyflawniad uchel.

Yn ogystal â'u hastudiaethau proffesiynol, rydym yn rhoi hyfforddiant pwrpasol a phrofiad gwaith perthnasol i'n hyfforddeion a'n technegwyr. Yn ystod eu hyfforddiant, maent yn treulio amser yn gweithio gyda thimau archwilio amrywiol, gan wneud cyfraniad allweddol i'n llwyddiant cyffredinol.

Hefyd, drwy ein cysylltiadau â Gyrfa Cymru a phrifysgolion ac ysgolion lleol, rydym yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith o fewn Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ystod 2013-14, bu dau fyfyrwr ar leoliad gwaith gyda ni.

'Mae'r rhain yn gyflawniadau cwbl ardderchog ac yn dangos safon uchel y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Hyfforddeion Swyddfa Archwilio Cymru. Gobeithio y bydd y newyddion hyn yn annog myfyrwyr eraill i anelu am yrfa archwilio yn y sector cyhoeddus ac i wneud cais am le ar ein Cynllun Hyfforddeion.'

Huw Vaughan Thomas,
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Dyfarnwyd gwobr Knox i Dylan Rees (dde) am ennill y marc uchaf ledled y byd yn y papur Adrodd Ariannol yn arholiadau'r ACA ym mis Rhagfyr 2013, a dyfarnwyd gwobr Railton i Neall Hollis (chwith) am ennill y marc uchaf ledled y byd yn y papur Cyfrifwyr Busnes.

Ymgysylltu â chyflogeion a'u lles

Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu'n effeithiol â'n staff ac annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd bywyd a gwaith da.

Tua diwedd 2013, cynhaliwyd arolwg gennym i feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o safbwyntiau a chanfyddiadau cyflogeion o weithio yn Swyddfa Archwilio Cymru. Cymerodd 71 y cant o'r staff ran yn yr arolwg – cynnydd sylweddol o gymharu â'r gyfradd gyfranogi o 53 y cant ar gyfer arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2011-12. Yn dilyn hynny, cyfarfu aelodau Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru, rheolwyr a'r grŵp a ddatblygodd ein harolwg â staff ledled Cymru er mwyn trafod y canfyddiadau yn fanwl, a datblygu ymateb yr arweinwyr.

Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth ein gwaith dwys ar ddatblygu diwylliant ac arweinyddiaeth i ben hefyd, a phrif-frydiwyd y gweithgarwch hwn, gyda'r uwch dîm arwain newydd yn cymryd yr awenau ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhaglen wedi rhoi cyfle i ni edrych yn ofalus ar ddiwylliant ac arweinyddiaeth, gan ddatblygu ethos mwy cydweithredol ar gyfer yr uwch arweinwyr a gwneud gwelliannau sylweddol mewn perthynas â grymuso staff i gyflawni, ymgysylltu rhwng aelodau o staff ac arweinwyr y sefydliad a symleiddio ein prosesau busnes. Bu hefyd o gymorth wrth ailgynllunio'r strwythur uwch reolwyr.

Rydym yn monitro cyfraddau absenoldeb salwch yn ofalus ac mae amrywiaeth o ddulliau ar waith gennym i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd cyfartaledd o 6.4 diwrnod eu colli fesul cyflogai oherwydd absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014; gostyngiad o bump y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a ffigur sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd o 8.7 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Rheoli Absenoldeb blynyddol CIPD yn 2013.

Mae rhaglen cymorth i gyflogeion ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cymorth i gyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Dysgu a datblygu

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn dysgu a datblygu ein staff er mwyn eu helpu i gyflawni eu gwaith. Yn 2013-14, cynyddodd cyfartaledd yr hyfforddiant a gynigiwyd fesul cyflogai o saith diwrnod i wyth diwrnod yn ystod y flwyddyn. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei ddylunio a'i ddarparu'n fewnol, a lle y bo'n briodol ac yn gost-effeithiol, comisiynwyd cymorth hyfforddiant allanol hefyd i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Yn ystod 2013-14, gwnaethom barhau ag ail gam Tanio, sef ein rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad diwylliannol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau drwy reoli a chymell timau'n effeithiol, ac mae'n cyfuno sesiynau dysgu bach â gwaith maes ar astudiaethau achos. Rydym yn dal i gael adborth cadarnhaol iawn gan unigolion sy'n cymryd rhan yn Tanio, a chyflwynir trydydd cam y rhaglen yn ystod 2014-15.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn parhau i annog a chefnogi staff i wneud cais i gymryd rhan yn ysgolion haf ac ysgolion gaeaf blynyddol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Gweithio gyda'r trydydd sector

Mae Tanio, sef ein rhaglen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys ymarfer astudiaeth achos fyw, lle mae'n rhaid gweithio gydag elusen neu sefydliad arall yn y trydydd sector. Mae'r astudiaeth achos fel arfer yn cynnwys adolygiad dwys o wasanaeth a datblygu atebion i broblemau go iawn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, gweithiodd ein staff ar astudiaeth achos gydag RNIB Cymru.

'Roedd yn gyfle ardderchog ac yn fraint cael gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru fel yr astudiaeth achos ar gyfer y Rhaglen Datblygu Rheolwyr, sef Tanio.

Darparodd y tîm arbenigedd ar draws sawl disgyblaeth; roedd eu hymrwymiad, eu crafter a'u sgiliau cyfathrebu yn glodwiw. Cyflwynodd y tîm amrywiaeth o atebion i'r her ar ôl adolygu adroddiadau, siarad â chleifion, darparwyr gwasanaethau a gwneuthurwyr polisi. Roedd y tîm yn heriol ac yn onest ac roedd yn bleser gweithio gyda hwy, byddwn yn argymhell y rhaglen hon yn fawr i gydweithwyr.'

Ceri Jackson,
Cyfarwyddwr, RNIB Cymru

Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal yn y gymuned, gwaith amgylcheddol a phrosiectau cadwraeth, codi arian i brosiectau cymunedol ac elusennau, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus. Gall staff hefyd gymryd rhan mewn cynllun 'rhoi wrth ennill'.

Yn 2013-14, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau mewnol a gododd tua £1,500 ar gyfer elusen. Yn ogystal, er mwyn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru gefnogi'r syniad o Elusen Staff. Caiff elusen ei dewis bob blwyddyn drwy bleidlais gan y staff a bydd yr elusen honno yn ffocws ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau codi arian a chyfleoedd dysgu. Yn ystod ein cynhadledd staff ym mis Ionawr 2014, dewisodd y staff yr elusen Changing Faces fel y ffocws ar gyfer eu gweithgareddau codi arian yn 2014-15.

Bod yn agored a thryloyw

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored a thryloyw yn ein ffordd o weithredu fel busnes. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a gafodd ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O dan y Cynllun, rydym yn ymrwmo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd – am ragor o wybodaeth gweler ein gwefan.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, daeth 61 o geisiadau am wybodaeth i law. Dim ond mewn un achos y gwnaethom fethu â chyflawni'r terfyn amser statudol, a hynny oherwydd penderfyniad gan yr archwilwyr i ddarparu ymateb i bwyllgor archwilio'r cyngor perthnasol. Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2013-14.

Ffocws ein gwaith yn y dyfodol

Trosolwg o'r risgiau allweddol, yr ansicrwydd a'r heriau a wynebir gennym,
a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb i hynny

Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi

Mae arian cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn parhau i ostwng mewn termau real, gyda thoriadau mawr iawn o ran arian cyfalaf. Mae'n anochel y bydd cyfyngiadau ariannol a osodir gan lywodraethau cenedlaethol yn effeithio ar wasanaethau lleol. Mae sylwebyddion yn cytuno y byddwn yn teimlo effaith y penderfyniadau hyn ynghylch gwariant am rai blynyddoedd i ddod ac yn sicr ar ôl i dymor y deddfwrfeydd cyfredol yng Nghaerdydd a San Steffan ddod i ben.

Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol a chaledi fel yr un presennol, mae'n rhaid newid pwyslais ein gwaith archwilio. Caiff mwy o bwyslais ei roi ar ba mor dda y gall cyrff cyhoeddus gynnal neu wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt tra'n wynebu toriadau sylweddol i'w cyllid. Ar gyfer cyfnod ein strategaeth bresennol, bydd ein gwaith archwilio yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at helpu cyrff cyhoeddus i ymdopi ag effaith gostyngiadau ariannol a llwyddoer gwaethaf y gostyngiadau hynny. Ac rydym ni ein hunain yn ymrwymedig i geisio gwneud mwy gyda llai a gweithio'n galetach yn ogystal ag yn ddoethach.

Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da

Ers datganoli, mae gweinyddiaethau olynol yng Nghymru wedi parhau i ddilyn llwybr gwahanol i lwybr San Steffan mewn nifer o feysydd polisi pwysig. Rydym wrthi'n ystyried amrywiaeth o fodolau gwasanaeth arloesol a modelu gwasanaeth a rennir ar hyn o bryd. Yn ogystal, ym mis Ionawr 2014, nododd y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus fod angen newid sylweddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a pherfformiad y gwasanaethau hynny, a gwnaeth amrywiaeth eang o argymhellion ar gyfer gwella.

Mae angen i gyrff adolygu allanol, a'r cyrff y maent yn eu hadolygu, allu asesu'n effeithiol a yw newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu yn cynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus tra'n cynnal neu'n gwella ansawdd gwasanaethau. Mae meincnodi yn agwedd hanfodol ar hyn - cymharu prosesau busnes a cheisio cymharu perfformiad o ran canlyniadau mewn ffordd gadarn. Agwedd arall yw hwyluso cyfnewid dysgu ac arfer da.

Yn ystod cyfnod ein strategaeth bresennol, wrth i bolisi Cymru a modelau darparu gwasanaethau barhau i ymwahanu yn lleol ac yn genedlaethol, byddwn yn ymgymryd â gweithgarwch meincnodi, gan gynnwys cymharu perfformiad o ran canlyniadau, yn fwy rheolaidd fel rhan o'n gwaith archwilio, tra'n cydnabod y gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n bodoli ledled Cymru. Byddwn hefyd yn mynd ati i gynyddu'r gwaith a wnawn i ysgogi a hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth archwilio ac arfer da yn sylweddol.

Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sy'n ymwneud â budd y cyhoedd

Mae llywodraethu da, atebolrwydd a thryloywder yn un o gonglfeini dull Llywodraeth Cymru o wella gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ar nifer o faterion yn ddiweddar, sy'n ymwneud yn aml â methiannau yn nhrefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus. Erbyn hyn mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiadau ar eu trefniadau llywodraethu mewn Datganiad Llywodraethu blynyddol a gyhoeddir. Mae Datganiadau Llywodraethu wedi disodli'r Datganiadau Rheoli Mewnol a oedd yn ofynnol gynt. Mae iddynt gwmpas ehangach ac maent yn cwmpasu pob agwedd ar y gwaith o reoli a rhedeg cyrff cyhoeddus.

Mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol y cyhoedd yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a chwmpas ehangach gofynion adrodd, bwriadwn adolygu ein fframwaith archwilio yn ystod cyfnod ein strategaeth bresennol, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r agweddau amrywiol ar ein gwaith ymhellach a chynyddu eu gwerth cyfunol cymaint â phosibl, tra'n sicrhau bod y dull a ddefnyddir ar gyfer pob corff a archwilir yn gymesur ac wedi'i deilwra'n unigol.

Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddeddfu er mwyn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd arfaethedig o ran datblygu cynaliadwy yn dilyn y dyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n benodol i Gymru. Yn ogystal, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer pennu safonau ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod ein strategaeth bresennol, byddwn yn ceisio ymdrin ag ystyriaethau datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg mewn ffordd fwy cynhwysfawr yn ein hadroddiadau archwilio. Byddwn yn gweithio'n agos â phartion eraill, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, i ddatblygu fframwaith adrodd sy'n gymesur ac yn dibynnu ar waith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo'n briodol. Yn yr un modd, fel corff sector cyhoeddus, byddwn yn sicrhau ac yn dangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau a safonau o'r fath, drwy'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes.

Gweithio'n agosach gyda chyrrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio

Er gwaethaf y gofyniad hanfodol i archwilywyr fod yn annibynnol, ceir ymrwymiad cynyddol i ddulliau gweithio cydgyssylltiedig rhwng cyrrff adolygu allanol a galw ledled y DU am hynny; er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfun a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol i hwyluso asesiadau cadarn ac amserol o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r fframwaith ar gyfer archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru.


Tra'n parhau â'r angen i sicrhau bod archwilywyr yn annibynnol, a chan gydnabod gwahaniaethau yn eu cyfansoddiad, eu cylch gwaith statudol a'u hamcanion strategol, byddwn yn gweithio'n agosach gyda chyrrff adolygu allanol eraill yn ystod cyfnod y strategaeth bresennol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfun ac er mwyn cynyddu ein heffaith gyfunol i'r eithaf.

Byddwn hefyd yn gweithio i barhau i wella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes ac i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru mor ddidrafferth â phosibl, ac na chaiff fawr ddim effaith ar ein gwaith archwilio.

Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol

Mae technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ryngweithio â phob lefel o lywodraeth a dylanwadu arnynt. Mae hefyd yn cynnig modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau newydd a ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd. Am fod technoleg yn datblygu'n gyflym, mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r broses o ryngweithio â chyrrff cyhoeddus fod mor hawdd â bancio dros y rhyngwrwyd neu siopa ar-lein. Mae angen i asiantaethau archwilio sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau technegol a manteisio ar gyfleoedd newydd i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith a chynyddu diddordeb ynddo cymaint â phosibl, i gasglu gwybodaeth ac i gyflwyno adroddiadau ar eu canfyddiadau.

Ar gyfer cyfnod y strategaeth hon, byddwn yn mynd ati i geisio codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf bosibl. I'r perwyl hwn, byddwn yn ceisio gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg gwybodaeth, gan gynnwys cymwysiadau ar y we a chyfryngau cymdeithasol lle y bo'n briodol, tra'n parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu eraill, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth wyneb-yn-wyneb.



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2014

Datganiadau o gyfrifon

Rhagor o fanylion am ein cyllid a'n trefniadau llywodraethu: ein datganiadau ariannol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Adroddiad Cydnabyddiaeth ac Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol

Adroddiad Cydnabyddiaeth

Polisi cydnabyddiaeth

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan y Cynulliad Cenedlaethol ac, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fe'i telir o Gronfa Gyfunol Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol eu datgelu yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013²³ (Deddf 2013), penodwyd aelodau anweithredol Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2013. Pennir cydnabyddiaeth aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn achos y Cadeirydd, fe'i telir o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf 2013. Nid yw cydnabyddiaeth y Bwrdd yn bensiynadwy. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru eu datgelu yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

Aelodau anweithredol pwyllgorau

Cyn sefydlu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sefydlwyd Bwrdd Cysgodol a thri phwyllgor llywodraethu i baratoi'r sefydliad ar gyfer gweithredu Deddf 2013. Ceir rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol ar [dudalennau 60 i 71](#). Pennwyd cydnabyddiaeth aelodau anweithredol pwyllgorau Swyddfa Archwilio Cymru gan yr Archwilydd Cyffredinol cyn sefydlu Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru. Nid oedd y gydnabyddiaeth hon yn bensiynadwy.

Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â deddfwriaeth, caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol benodi unrhyw staff sydd eu hangen yn ei farn ef i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Pennwyd cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff telerau cydnabyddiaeth aelodau eraill o staff Swyddfa Archwilio Cymru eu pennu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Ymgynghorir ag undebau llafur ynghylch cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn unol â chydgytundeb. O 1 Ebrill 2014, caiff pob aelod o staff ei gyflogi gan Swyddfa Archwilio Cymru ar delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

23 Atodlen 1 Rhan 1

Manylion taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheolwyr ar y lefelau uchaf (h.y. aelodau'r Pwyllgor Gweithredol) yn Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ag aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a phwyllgorau anweithredol blaenorol.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Codir costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid Swyddfa Archwilio Cymru sy'n eu talu. Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu.

Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2013-14 oedd £151,500 (2012-13: £150,000) a chost pensiwn y cyflogwr oedd £23,303 (2012-13: £21,675).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Gwnaed cyfanswm o £27,217 o gyfraniadau i'r cyfrif hwn yn ystod 2013-14 (gan gynnwys £23,303 gan y cyflogwr a £3,914 gan yr aelod) (2012-13: £24,973 yn cynnwys £21,675 gan y cyflogwr a £3,298 gan yr aelod).

Caiiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ei harchwilio.

Uwch reolwyr

Cafodd y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod 2013-14 roedd hefyd yn cynnwys y canlynol:

	Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol	Dyddiad eu penodi i'r swydd	Dyddiad gorffen	Contract
Gillian Body (ACC ²⁴ Archwilio Perfformiad)	02/09/1981	01/12/2009	Dd/G	Parhaol
Anthony Barrett (ACC Archwilio Ariannol)	24/01/2001	01/12/2009	Dd/G	Parhaol
Kevin Thomas (ACC Adnoddau)	26/10/1992	01/12/2009	Dd/G	Parhaol

Adolygir perfformiad pob un o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn rheolaidd. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw 12 wythnos. Pe byddai contract unigolyn yn cael ei derfynu'n gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal am golli ei swydd.

O 1 Ebrill 2014, caiff y Pwyllgor Gweithredol ei ddisodli gan Bwyllgor Rheoli a fydd yn cynnwys pob un o'r aelodau uchod o staff ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a dau arweinydd sector.

²⁴ Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Mae'r tablau canlynol yn nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth mewn perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ac hefyd yn dangos sut mae hyn yn cymharu â'r cyflog canolrifol ar draws Swyddfa Archwilio Cymru.

	Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014						Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013					
	Cyflog	Bud- diannau mewn da	Treuliau Trethad- wy	Cyfan- swm heb gyn- nwys Pensiwn	Cyfraniad pensiwn	Cyfan- swm Cydna- byddia- eth	Cyflog	Bud- diannau mewn da	Treuliau Trethad- wy	Cyfan- swm heb gyn- nwys Pensiwn	Cyfraniad pensiwn	Cyfan- swm Cydna- byddia- eth
	Ban- diau o £5,000	I'r £100 agosaf	I'r £100 agosaf	Ban- diau o £5,000	Bandiau o £2,500	Ban- diau o £5,000	Ban- diau o £5,000	I'r £100 agosaf	I'r £100 agosaf	Ban- diau o £5,000	Bandiau o £2,500	Ban- diau o £5,000
Gillian Body	120-125	0	0	120-125	27.5-30.0	150-155	115-120	0	0	115-120	27.5-30.0	145-150
Anthony Barrett	115-120	4,600	19,800	140-145	27.5-30.0	165-170	110-115	4,500	13,300	130-135	27.5-30.0	155-160
Kevin Thomas	105-110	4,600	16,100	125-130	25.0-27.5	155-160	105-110	4,200	15,000	120-125	25.0-27.5	150-155

Mae'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf a chydabyddiaeth ganolrifol y gweithlu fel y'i datgelir yn y tabl canlynol.

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013
Band cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£,000)	140-145	130-135
Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff CALI (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn)(£)	43,499	45,964
Cymhareb cydnabyddiaeth	3.225	2.870

Yn 2013,-14, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2012-13: dim) gydnabyddiaeth a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £20,340 i £142,960 (2012-13: £14,500-£131,900). Mae cyfanswm cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, lwfans trafniadaeth a buddiannau-mewn-da. Yn achos y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf, mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddatgelu cyflog yr Archwilydd Cyffredinol gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, £151,500 oedd cyfanswm ei gydnabyddiaeth (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn), sef 3.483 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2012-13: £150,000, cymhareb 3.263).

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronodig a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gaiff eu trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem) fel enillion trethadwy.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marwolaeth mewn gwasanaeth sy'n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n marw tra'i fod yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2013-14 oedd £11,424 (2012-13: £12,658). Polisi yswiriant grŵp yw hwn ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli'n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly caiff ei eithrio o'r tabl uchod.

Ni thalwyd unrhyw fonysau i unrhyw aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol.

Treuliau trethadwy

Fel y datgelwyd yn Nodiadau 15 a 20, mae'r cyfrifon yn cynnwys darpariaeth ar gyfer setliad TWE gyda CThem oherwydd nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu TWE mewn perthynas â rhai treuliau a dalwyd i rai grwpiau o staff cyn 2012-13. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys trethiant a chyfraniadau yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i Kevin Thomas ac Anthony Barrett ar gyfer teithio i'w prif fan gwaith, ac ar gyfer 2011-12 roedd hefyd yn cynnwys tâl graddfa tanwydd. Datgelir gwerth y taliadau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl uchod a gwneir y taliadau priodol i CThem.

Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

Tudalen y pecyn 56

Manylion am bensiynau uwch reolwyr

	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2014 a chyfandaliad cysylltiedig	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	CETV ar 31 Mawrth 2014	CETV ar 31 Mawrth 2013	Cynnydd gwiri- oneddol mewn CETV	Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	I'r £100 agosaf
Gillian Body	45-50 a chyfandaliad o 140-145	(5-10) a chyfandaliad o (20-25)	919	1,004	(151)	0
Anthony Barrett	35-40	0-5	523	458	16	0
Kevin Thomas	40-45	0-5	572	515	19	0

Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelodau o un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig: naill ai cynllun cyflog terfynol ('classic', 'premium' neu 'classic plus'), neu gynllun gyrfa gyfan ('nuvos'). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu ac mae'r Senedd yn pleidleisio ar gostau'r buddiannau a delir drwy gronfeydd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau 'classic', 'premium', 'classic plus' a 'nuvos' eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y cynnydd mewn pensiynau. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau sy'n gysylltiedig â chyflog ac ar gyfer 2013-14 roeddent yn amrywio rhwng 1.5 y cant a 6.25 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun 'classic' a rhwng 3.5 y cant ac 8.25 y cant ar gyfer y cynlluniau 'premium', 'classic plus' a 'nuvos'. Bydd cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu o 1 Ebrill 2014. Mae buddiannau yn y cynllun 'classic' yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun 'premium'. Yn wahanol i'r cynllun 'classic', ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun 'classic plus' yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun 'classic' a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun 'premium'. Bydd aelod o gynllun 'nuvos' yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Ymhob achos, gall aelodau ddewis ildio rhan o'u pensiwn (gohirio) am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Tudalen y pecyn 57

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn rhoi swm cyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymdeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronodig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau 'classic', 'premium' a 'classic plus' yw 60 oed, a 65 oed ar gyfer aelodau cynllun 'nuvos'.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservice.gov.uk/pensions.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cydnabyddiaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â Deddf 2013, pennir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Penodwyd aelodau'r Bwrdd ym mis Hydref 2013 ac mae'r penodiadau am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Ni ellir penodi unrhyw berson fwy na dwywaith. Gall aelodau'r Bwrdd hawlio eu costau teithio a'u treuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM. Datgelir gwerth y treuliau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl canlynol.

Mae'r ffigurau ar gyfer 2013-14 yn cynrychioli cyfansymiau o'r dyddiad penodi ym mis Hydref 2013 hyd at 31 Mawrth 2014.

	Cydnabyddiaeth		Treuliau gan gynnwys treth		Cyfanswm	
	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13
Steven Burnett ²	5,746	-	2,838	-	8,584	-
David Corner ²	5,746	-	3,029	-	8,775	-
Isobel Garner (Chair) ¹	13,508	-	1,571	-	15,079	-
Christine Hayes ²	5,746	-	1,504	-	7,250	-
Peter Price ²	5,746	-	166	-	5,912	-
Cyfanswm	36,492	-	9,108	-	45,600	-

¹ Penodir Ms Garner, fel Cadeirydd Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru, gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nid yw'n cael unrhyw gydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ac eithrio ad-daliadau am gostau teithio a threuliau. Datgelwyd ei chydabyddiaeth er mwyn bod yn fwy tryloyw (cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn £25,000).

² Mae pob un o aelodau eraill Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cael cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn o £12,500 a delir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol pwyllgorau

Mae'r tabl canlynol yn nodi cydnabyddiaeth a threuliau aelodau anweithredol pwyllgorau Swyddfa Archwilio Cymru cyn sefydlu'r Bwrdd. Roedd aelodau anweithredol pwyllgorau yn gallu hawlio eu costau teithio a'u treuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM. Datgelir gwerth y treuliau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl.

	Cydnabyddiaeth		Treuliau gan gynnwys treth		Cyfanswm	
	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13
Rosamund Blomfield-Smith ¹	7,000	7,000	2,518	2,122	9,518	9,122
Dr Michael P Brooker ¹	7,000	7,000	331	369	7,331	7,369
Steven Burnett ²	2,681	5,000	-	1,328	2,681	6,328
Mary Champion ¹	3,750	5,000	340	262	4,090	5,262
Christine Hayes ²	2,681	2,487	-	-	2,681	2,487
Dr Elizabeth Haywood ¹	5,000	5,000	-	-	5,000	5,000
Michael Heap ¹	5,000	5,000	-	-	5,000	5,000
Peter Laing ³	-	3,664	572	638	572	4,302
Gilbert Lloyd ⁴	7,250	5,393	-	-	7,250	5,393
Denver Lynn ⁵	-	-	3,947	2,358	3,947	2,358
Dr Arun Midha ¹	3,750	5,000	-	-	3,750	5,000
Deep Sagar ¹	14,176	3,685	2,477	2,696	16,653	6,381
Canon David Stanton ¹	5,000	5,000	1,383	1,393	6,383	6,393
Haydn Warman ¹	3,750	5,000	-	-	3,750	5,000
Cyfanswm	67,038	64,229	11,568	11,166	78,606	75,395

¹ Roedd Mrs Blomfield-Smith, Dr Brooker, Mrs Champion, Dr Haywood, Mr Heap, Dr Midha, Mr Sagar, y Canon Stanton a Mr Warman yn aelodau o Fwrdd Cysgodol Swyddfa Archwilio Cymru a/neu ei bwyllgorau cyn penodi Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2013. Cafodd Mr Sagar gydnabyddiaeth ychwanegol mewn perthynas â gwaith ychwanegol a wnaed yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

² Roedd Mr Burnett a Mrs Hayes yn aelodau o bwyllgorau anweithredol cyn iddynt gael eu penodi i Fwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref 2013.

³ Daeth tymor Mr Laing yn ei swydd i ben ym mis Hydref 2012.

⁴ Ymunodd Mr Lloyd â'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg gynt ym mis Gorffennaf 2012. Wedi hynny, fe'i penodwyd fel y Cadeirydd ac yn y rhinwedd honno, ymunodd â'r Bwrdd Cysgodol. Daeth yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg newydd ym mis Ionawr 2014.

⁵ Roedd Mr Lynn yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg cyn penodi Bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n un o Gyfarwyddwyr Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ac ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am fod yn aelod o'r pwyllgor hwn ac eithrio ad-daliadau am gostau teithio a threuliau.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2014

Tudalen y pecyn 60

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Cafwyd cyfarwyddyd newydd ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2010-11 ac erys mewn grym ar gyfer Cyfrifon 2013-14. Bydd cyfarwyddyd newydd yn berthnasol ar gyfer 2014-15 er mwyn cydnabod Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Paratoir y cyfrifon ar sail gronpus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol yn ogystal ag incwm a gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Ar gyfer cyfrifon 2013-14, yr Archwilydd Cyffredinol oedd Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 16(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano; am gadw cyfrifon cywir; am weinyddu mewn modd pwyllog a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael mewn modd effeithlon ac effeithiol, eu nodi yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2013-14

Mae'r datganiad hwn yn nodi ar ba sail y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei llywodraethu a'i rheoli arni a sut y mae'n atebol am yr hyn a wna. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd newidiadau llywodraethu sylweddol gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013), fel yr eglurir yn y datganiad hwn.

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol²⁵. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes, gan ddiogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae'n rhaid i mi gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni fy mholisiau, nodau ac amcanion, yn hwyluso'r broses effeithiol o gyflawni fy swyddogaethau ac yn ymgorffori trefniadau rheoli risg effeithiol.

Mae'n rhaid i mi hefyd sefydlu trefniadau priodol i dderbyn sylwadau a chyngor ffurfiol ar ansawdd trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y maent yn gweithredu, gan gynnwys drwy gyfraniadau allanol annibynnol ac yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â risg a rheolaeth ac o ran fy ymddygiad i ac ymddygiad fy staff.

Disgrifiwyd cwmpas llawn fy nghyfrifoldebau yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yr oeddwn yn atebol iddo yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu ac a benododd fy archwilydd allanol. Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddodd yr atebolrwydd dros gyflawni fy nghyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol a gyhoeddodd femorandwm newydd ar 31 Mawrth 2014. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diwygiedig o dan Ddeddf 2013 a ddaeth i rym yn llawn o 1 Ebrill 2014.

Fel Archwilydd Cyffredinol, fi yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu rwyf yn penodi archwilwyr iddynt. Rwyf hefyd yn ystyried sut mae'r gyrff hyn yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys a ydynt yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon rwyf yn annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

²⁵ Tan 31 Mawrth 2014

Y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w dwyn i gyfrif am ei gweithgareddau. Mae'n ei gwneud yn bosibl i Swyddfa Archwilio Cymru fonitro sut mae'n cyflawni ei hamcanion strategol ac i werthuso a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith llywodraethu ac fe'i cynlluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethiant i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Felly mae'n rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, yr effaith pe caent eu gwireddu, a rheoli'r risgiau hynny mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 ac hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'n cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM ac yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu newydd o dan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Ar gyfer y cyfnod y mae'r datganiad llywodraethu hwn yn berthnasol iddo, diffiniwyd Swyddfa Archwilio Cymru fel yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Breiniwyd pob pŵer, hawl a dyletswydd gyfreithiol yn yr Archwilydd Cyffredinol.

Fodd bynnag, ar 29 Ebrill 2013, daeth Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn weithredol. Ar 4 Gorffennaf 2013, cychwynnwyd rhai o ddarpariaethau penodol Deddf 2013, gan gynnwys y ddarpariaeth yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol, drwy orchymyn. Roedd y ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi pum aelod anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru, proses a gwblhawyd ganddo ar 17 Hydref 2013. Roedd angen gwneud y penodiadau hyn er mwyn sicrhau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar gyfer cychwyn darpariaethau Deddf 2013 yn llawn o 1 Ebrill 2014 pan ddaeth yn gyflogwr staff ac yn ddeiliad ar yr holl adnoddau eraill, ymhlith cyfrifoldebau eraill.

Roedd y darpariaethau a gychwynnwyd ar 4 Gorffennaf hefyd yn cynnwys y rheini a'm penododd innau fel aelod o'r Bwrdd a Phrif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd fy fframwaith llywodraethu yn fwy cymhleth yn ystod y cyfnod trosglwyddo hwn. O 1 Ebrill 2013, hyd nes y penododd y Cynulliad Cenedlaethol yr aelodau anweithredol ym mis Hydref, gweithredodd Bwrdd Cysgodol o dan drefniant gwirfoddol a sefydlwyd gennyf ym mis Mawrth 2012. Roedd y Bwrdd Cysgodol yn cynnwys wyth aelod ac fe'i cefnogwyd gan dri phwyllgor llywodraethu a sefydlwyd gennyf yn 2011.

Yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd statudol ar 23 Hydref 2013, cytunodd i sefydlu dau bwyllgor - ar gyfer Archwilio a Rheoli Risg a Chydnabyddiaeth. Gyda chefnogaeth y Bwrdd, deuthum â'm trefniadau llywodraethu blaenorol i ben ar unwaith ond gan gadw gwasanaethau cadeiryddion y tri phwyllgor llywodraethu blaenorol hyd at 31 Mawrth 2014 er mwyn sicrhau proses drosglwyddo ddidrafferth drwy sicrhau y câi gwybodaeth ac arbenigedd eu trosglwyddo'n effeithiol.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau sy'n ein hwynebu, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Caiff fy fframwaith llywodraethu ei sefydlu o fewn canllawiau mewnol yr wyf yn parhau i'w hadolygu er mwyn cynnwys darpariaethau Deddf 2013 a'm Cod Ymarfer Archwilio newydd.

Cydymffurfiodd fy nhrefniadau â'r Cod Arfer Da ar Lywodraethu Corfforaethol i'r graddau yr oedd ei ofynion yn berthnasol ac yn ymarferol. Ni chydymffurfiodd fy nhrefniadau â gofynion y Cod o ran cyfansoddiad y bwrdd oherwydd byddai cynnwys cynrychiolaeth weinidogol a swyddogion o'r llywodraeth wedi cyfaddawdu fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol nac o ran penodi aelod anweithredol arweiniol.

Caiff fy ngweledigaeth a'm hamcanion eu sefydlu o fewn strategaeth gorfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-2016. Lluniwyd cynllun gweithredol blynyddol yn sail i'r strategaeth, a oedd yn crynhoi rhaglen gwaith archwilio ariannol a pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a'r cymorth i'w ddarparu gan wasanaethau corfforaethol.

Ni allwn yn realistig wneud pob penderfyniad busnes a sefydlais systemau priodol ar gyfer arfer awdurdod ar fy rhan. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, dirprwyais fy awdurdod am gyflawni fy nodau ac amcanion strategol i dri archwilydd cyffredinol cynorthwyol. Gyda'n gilydd, ni oedd y Pwyllgor Gweithredol yr oeddwn yn ei gadeirio. Drwy'r Pwyllgor hwn y gwneuthum benderfyniadau strategol a phenderfyniadau polisi ac yr oeddwn yn gyfrifol am fonitro risgiau strategol allweddol ac am sicrhau y cawsant eu rheoli'n effeithiol gyda rheolaethau lliniaru priodol ar waith. Y Pwyllgor - ynghyd â'r uwch dîm arwain sy'n cynnwys pob cyfarwyddwr - hefyd a nododd y gwerthoedd sefydliadol a fu'n llywodraethu gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ac ymddygiad ei staff. Yn 2013-14, cyfarfu'r Pwyllgor Gweithredol ar 22 o achlysuron a chafodd amrywiaeth o wybodaeth i ategu ei weithgareddau.

Roedd yr archwilwyr cyffredinol cynorthwyol yn atebol i mi am gyflawni eu hamcanion cymeradwy fel y'u disgrifiwyd yn y cynllun gweithredol ac am sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau yn eu meysydd busnes. Roedd pob un ohonynt yn arwain tîm rheoli o gyfarwyddwyr neu reolwyr gwasanaeth yr oeddent yn dirprwyo cyfrifoldeb iddynt am gyflawni prosiectau, tasgau a gwasanaethau penodol ac am reoli risgiau.

Cynlluniwyd y Bwrdd Cysgodol i baratoi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gweithredu Deddf 2013. Hyd nes ei ddiddymu ym mis Hydref 2013, rhoddodd gyngor i mi ar nodau ac amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru ac ar ddefnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny. O dan arweiniad cadeirydd annibynnol, roedd y Bwrdd Cysgodol hefyd yn cynnwys cadeiryddion y tri phwyllgor llywodraethu a'r archwilwyr cyffredinol cynorthwyol a oedd yn aelodau o'm Pwyllgor Gweithredol.

Tudalen y pecyn 64

Gyda'i gilydd, ac hefyd hyd nes eu diddymu ym mis Hydref, rhoddodd y Pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg, Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ac Adnoddau gyngor gwrthrychol a diduedd a fu o gymorth i mi wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau am reoli risg yn briodol, rheolaeth a llywodraethu ac am roi sicrwydd cysylltiedig yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â chydabyddiaeth staff a rheoli adnoddau.

Gweithredodd y tri phwyllgor llywodraethu fel is-bwyllgorau'r Bwrdd Cysgodol. Yn 2013-14, gweithiodd y cylch busnes yn fwy effeithlon nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol o ran hwyluso trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach o ran cynllunio a rheoli er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mwy amserol ac effeithiol.

Sefydlwyd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Hydref gyda phump aelod anweithredol a'r Archwilydd Cyffredinol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd tri aelod o blith y cyflogeion - gan gynnwys dau i'w hethol drwy gynnal pleidlais o'r holl gyflogeion - yn parhau heb eu penodi, er bod y tri wedi'u penodi ers hynny. Canolbwyntiodd y Bwrdd ar sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer trosglwyddo staff ac adnoddau eraill yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2014 ac ar lunio ei drefniadau gweithredu ei hun gan gynnwys drwy fabwysiadu Cynllun Dirprwyo ffurfiol, Rheolau Gweithdrefnol Cychwynnol, Cod Ymddygiad i Aelodau a Chod Ymarfer ar Gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Bwrdd amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2014-15 a chynllun blynyddol ar gyfer 2014-15, y paratowyd y ddau ohonynt ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol. Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd gynllun ar gyfer codi ffioedd. Gosodwyd y dogfennau hyn ger bron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffodd y Pwyllgor Cyllid arnynt. Ystyriodd y Bwrdd y dogfennau hyn yng nghyd-destun strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-16 sy'n parhau'n berthnasol o dan y trefniadau llywodraethu newydd.

Ar gyfer aelodau anweithredol, cedwais gofrestr buddiannau, a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn i gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn deillio o ddatganiadau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Cysgodol, y Bwrdd statudol a'r pwyllgorau. Roedd hyn yn sicrhau y cafodd achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu nodi cyn cyfarfodydd lle y bo'n ymarferol ac y cymerwyd camau priodol i'w lliniaru.

Roedd gan gadeiryddion y Bwrdd Cysgodol, ei bwyllgorau a'r Pennaeth Archwilio Mewnol hawl mynediad, a gallent roi gwybod yn uniongyrchol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

O dan y trefniadau newydd, mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad, a gallant roi gwybod yn uniongyrchol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Penododd y Cynulliad Cenedlaethol RSM Tenon Audit Limited fel ein harchwilwyr allanol ar gyfer cyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2011-12. Yn ystod y flwyddyn, caffaelwyd RSM Tenon Limited gan Baker Tilly ac fel y cyfryw, caiff yr adroddiad archwilio ei lofnodi yn enw Baker Tilly UK Audit LLP.

Mae gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol fynediad dirwystr a chyfrinachol at y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg o hyd, gan gynnwys drwy sesiwn breifat ymhob un o gyfarfodydd y pwyllgor.

Arddangosyn1 : Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cysgodol, y Bwrdd Statudol a'r pwyllgorau yn 2013-14

	Pwyllgor Gweithred- ol	Bwrdd Cys- godol	Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (hyd at 22 Hydref)	Pwyllgor Cydnabyd- diaeth ac Adnoddau Dynol (hyd at 22 Hydref)	Pwyllgor Adnoddau (hyd at 22 Hydref)	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (o 23 Hydref)	Pwyllgor Cydnaby- ddiaeth (o 23 Hydref)
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd	22	4	3	3	3	5	1	1
Cyfarwyddwyr anweithredol								
Dr Arun Midha ¹					3			
Y Canon David Stanton ²				2				
Christine Hayes ³			2			5	1	1
David Corner ⁴						4	1	
Deep Sagar ⁵		4	1	2				
Denver Lynn ⁶			3					
Dr Elizabeth Haywood ²				2				
Gilbert Lloyd ⁶		4	3				1	
Haydn Warman ³			3					
Isobel Garner ⁸						5		1
Mary Champion ¹					3			
Michael Heap ²				3				
Dr Michael Brooker ⁹		4			3			
Peter Price ¹⁰						5		1
Rosamund Blomfield-Smith		4		3				
Steve Burnett					3	5		1
Swyddfa Archwilio Cymru¹¹								
Anthony Barrett	19	2	2		3	1		
Gillian Body	21	4	3		2	3		
Huw Vaughan Thomas	20	4	3	2	2	5	1	1
Kevin Thomas	19	4	3	3	3	3		

¹ Penodwyd Arun Midha a Mary Champion i'r Pwyllgor Adnoddau tan 31 Rhagfyr 2013.

² Penodwyd y Canon David Stanton, Elizabeth Haywood a Michael Heap i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol tan 31 Mawrth 2014.

³ Roedd Christine Hayes yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Hydref 2013. Fe'i penodwyd yn aelod anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Hydref 2013 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg newydd ac o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

⁴ Penodwyd David Corner a Peter Price fel aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Hydref 2013. Ar 23 Hydref, fe'u penodwyd gan y Bwrdd fel cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, yn y drefn honno.

⁵ Deep Sagar oedd Cadeirydd annibynnol y Bwrdd Cysgodol tan fis Hydref 2013. Aeth i gyfarfodydd y pwyllgor llywodraethu fel arsylwr.

⁶ Penodwyd Denver Lynn a Haydn Warman i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan 31 Rhagfyr 2013.

⁷ Roedd Gilbert Lloyd yn aelod o'r Bwrdd Cysgodol ac yn gadeirydd annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg tan fis Hydref 2013. Gyda chytundeb Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, cedwais wasanaethau Mr Lloyd fel aelod annibynnol o'r pwyllgor newydd tan 31 Mawrth 2014 er mwyn sicrhau proses drosglwyddo effeithiol ac effeithlon i'r trefniadau llywodraethu newydd. Ers hynny, estynnais y penodiad hwnnw, unwaith eto gyda chytundeb y Bwrdd, hyd at fis Medi 2014.

⁸ Penodwyd Isobel Garner fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Hydref 2013. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

⁹ Roedd Michael Brooker a Rosamund Blomfield-Smith yn aelodau o'r Bwrdd Cysgodol drwy rinwedd eu penodiadau fel cadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, yn y drefn honno. Gyda chytundeb y Bwrdd, cedwais wasanaethau Dr Brooker a Mrs Blomfield-Smith tan 31 Mawrth 2014 er mwyn sicrhau proses drosglwyddo effeithiol ac effeithlon i'r trefniadau llywodraethu newydd.

¹⁰ Roedd Steve Burnett yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Adnoddau tan fis Hydref 2013. Fe'i penodwyd fel aelod anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Hydref 2013. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

¹¹ Roeddwn i a'm harchwilwyr cyffredinol cynorthwyl yn aelodau o'r Bwrdd Cysgodol. Rwyf yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru ac aeth fy archwilwyr cyffredinol cynorthwyl i gyfarfodydd i hwyluso trafodaethau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod drosglwyddo a chyn ei gyfansoddiad llawn ym mis Mai 2014. Nid ydym yn aelodau o'r pwyllgorau llywodraethu ond rydym yn mynd i'w cyfarfodydd fel y bo'r angen er mwyn rhoi gwybodaeth i'r pwyllgorau neu er mwyn cymryd eu cynngor.

Tudalen y pecyn 66

Y fframwaith risg a rheoli

Drwy gydol 2013-14, y Pwyllgor Gweithredol oedd yn gyfrifol am reoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn parhau i fod yn gyfrifol am graffu ar drefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau a wynebwn, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Ymgorfforir yr amcan hwn yn ein dulliau gwaith gan gynnwys gweithdrefnau llywodraethu diffiniedig, polisïau rheoli ansawdd, rheolaeth ariannol a systemau i nodi a rheoli risgiau.

O ystyried natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb a rheolaeth ariannol.

Cyflogais nifer fawr o gyfrifwyr cymwysedig ac aelodau eraill o staff â chymwysterau proffesiynol sy'n rhwym wrth ofynion moesegol eu cyrff proffesiynol amrywiol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn benodol, cymhwysir Safon Ryngwladol Rheoli Ansawdd 1 i'n holl waith archwilio ariannol.

Caiff y gwaith o reoli ansawdd archwiliadau ei hwyluso drwy ein proses archwilio a'r oruchwyliaeth hierarchaidd sydd ar waith o fewn prosiectau unigol. Mae gennym hefyd system o adolygiadau ansawdd mewnol ac allanol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg am ganlyniadau'r adolygiadau hyn. Roedd y rheolaethau hyn yn berthnasol i waith a wnaed gan fy staff ac i gwmnïau sector preifat a gontractiwyd i weithio ar fy rhan.

Am y tro cyntaf yn 2013-14, comisynwyd Adran Sicrwydd Ansawdd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr i gynnal adolygiad o weithdrefnau swyddfa gyfan Swyddfa Archwilio Cymru a'i threfniadau sicrwydd ansawdd mewn perthynas ag archwiliadau ariannol. Mae copi o'i hadroddiad cryno ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk/cy.

Cadwodd y Pwyllgor Gweithredol gofrestr o risgiau corfforaethol a nododd risgiau strategol a gweithredol a allai effeithio ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni ei nodau a'i hamcanion. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i adolygu'r risgiau hyn yn barhaus ac ymdrin yn briodol ag amgylchiadau newydd wrth iddynt godi. Roedd y gofrestr gryno o risgiau yn eitem sefydlog ar yr agenda yn ail gyfarfod y pwyllgor bob mis; adolygodd y pwyllgor y gofrestr fanwl o risgiau bob chwarter, cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cwblhau ei adolygiad o drefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn penderfynu p'un a oeddent yn cydymffurfio ag arfer gorau ac i ganfod i ba raddau y maent ar waith drwy'r sefydliad cyfan. Bydd canlyniad yr adolygiad hwnnw, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mehefin 2014, yn llywio unrhyw waith pellach sydd ei angen i wella'r trefniadau.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd proffil risg Swyddfa Archwilio Cymru yn gymharol sefydlog drwy gydol y flwyddyn ond roedd nifer o risgiau strategol allweddol – yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod Deddf 2013 wedi dod i rym – a amrywiodd yn ystod y flwyddyn gan gymryd cryn dipyn o amser y Pwyllgor Gweithredol:

- Mae rôl newydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys darparu adnoddau ar gyfer fy swyddogaethau fel Archwilydd Cyffredinol, a monitro sut rwyf yn arfer y swyddogaethau hynny. Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth i'r Bil fynd ar ei hynt, nodais y tensiynau rhwng natur goruchwyllo a natur weithredol swyddogaethau'r Bwrdd a'r risg y gellid o bosibl roi annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn y fantol. Erys y risg yn uchel wrth i'r trefniadau newydd ymsefydlu'n arferion gweithredol ond mae Cod Ymarfer ar Gydberthnasau bellach ar waith ac rwyf i a'r Cadeirydd yn parhau i gydweithio er mwyn lliniaru'r risg honno.
- Cyflwynodd yr angen i ymateb i ddyfarniad gan CThEM ym mis Rhagfyr 2012 na allaf godi TAW ar ffioedd archwilio i lywodraeth leol a chyrrff iechyd mwyach ynghyd â newidiadau i'm cyfundrefn ffioedd yn sgîl Deddf 2013 rywfaint o ansicrwydd o ran sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y risg i sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn uwch oherwydd y ffactorau hyn ond cwblhawyd gwaith i ddeall effaith y newidiadau hyn ac i liniaru eu risg tuag at ddiwedd y flwyddyn. Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu'r un heriau â chyrrff eraill y sector cyhoeddus wrth sicrhau sefydliad cynaliadwy sy'n darparu gwerth da am arian.
- Mewn blynyddoedd blaenorol, rwyf wedi cyfeirio at yr her barhaus - o ran llunio gwybodaeth reoli amserol a chywir - sy'n gysylltiedig â chynnal amrywiaeth o systemau a etifeddwyd. Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi symleiddio'r trefniadau hynny drwy gaffael system adnoddau dynol newydd a threfnu contract allanol ar gyfer y gyflogres. Roedd risgiau penodol ynghlwm wrth y prosiectau hyn a chafodd y risgiau hyn eu monitro'n effeithiol yn ystod y flwyddyn a rhoddwyd rheolaethau lliniaru ar waith. Gweithredwyd y ddau brosiect yn llwyddiannus.
- Hefyd, yn ystod y flwyddyn, comisiynais brosiect i ystyried dichonoldeb caffael a gweithredu llwyfan TG unigol i gefnogi holl waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddisodli'r ddwy system ar wahân ar gyfer gwaith archwilio ariannol a gwaith archwilio perfformiad a fu ar waith ers peth amser. Byddai prosiect o'r fath yn golygu buddsoddiad sylweddol a byddai risgiau yn gysylltiedig â phob un o'r opsiynau a nodwyd. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu a rheoli risg ar waith ar gyfer y prosiect, cafodd y Bwrdd ei gynnwys yn llawn wrth ystyried yr achos busnes amlinellol ac mae'n disgwyl gwneud penderfyniad terfynol yn ystod 2014-15.
- Yn 2012-13, nodais fod y rhaglen datblygu diwylliannol wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu gallu fy uwch dîm arwain, yn enwedig o ran ei allu i weithredu fel tîm rheoli cydlynus. Yn 2013-14, er mwyn paratoi ar gyfer y trefniadau llywodraethu newydd, ailstrwythurais yr uwch reolwyr a daeth y strwythur newydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2014. Roedd amrywiaeth o risgiau ynghlwm â dechrau'r prosiect hwn ar adeg o newid sylweddol o ran trefniadau llywodraethu ehangach Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys o ran cwblhau'r rhaglen archwilio ac o ran morâl uwch aelodau o staff ac aelodau eraill o staff.

Rwyf yn fodlon bod y risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r prosiectau allweddol hyn wedi'u monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Tudalen y pecyn 68

Datblygiadau i wella'r fframwaith rheoli

Mae'n bwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei chydabod fel sefydliad effeithiol a reolir yn dda sy'n cyflawni gwerth am arian yn ei defnydd o adnoddau. Yn 2013-14, cwblheais nifer o brosiectau a mentrau i wella atebolrwydd ymhellach o fewn y sefydliad.

Sefydlaais brosiect trosglwyddo i reoli'r gweithgareddau niferus sydd eu hangen er mwyn gweithredu gofynion Deddf 2013. Cyflawnwyd y prosiect i raddau helaeth o fewn yr adnoddau a oedd yn bodoli eisoes, gan arwain at rai penderfyniadau i ail-flaenoriaethu gwaith arall, er y profwyd gallu ac adnoddau'r staff i'r eithaf wrth iddynt weithio i sicrhau - a llwyddo i gyflawni - trosglwyddiad didrafferth ar 1 Ebrill 2014.

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y broses o ailstrwythuro fy uwch dîm arwain a gynlluniwyd hefyd i baratoi ar gyfer y trefniadau llywodraethu newydd a sefydlwyd gan Ddeddf 2013. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys disodli'r Pwyllgor Gweithredol gan Bwyllgor Rheoli a chreu Pwyllgor Cymorth Busnes newydd i oruchwylio'r broses o ddatblygu trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer rheoli ariannol, cynllunio'r gweithlu, cynllunio busnes a rheoli risg ymhellach, gan sicrhau bod cysylltiadau priodol rhyngddynt o fewn cyd-destun y strategaeth gorfforaethol.

Cynlluniwyd y strwythur newydd ar gyfer uwch aelodau o staff hefyd er mwyn sicrhau eglurder o ran llinellau atebolrwydd mewnol ac er mwyn meithrin capasiti ychwanegol ar gyfer atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli cydberthnasau gyda'r cyrff a archwilir a rhanddeiliaid allanol allweddol. Er mwyn atgyfnerthu'r amcanion hyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datblygu trefniadau cynllunio busnes newydd sy'n cynnwys cyfres o fesurau perfformiad a fydd yn cefnogi gwelliannau pellach o ran atebolrwydd. Rydym yn treialu'r trefniadau hynny yn ystod 2014-15 gyda'r bwriad o gyhoeddi cyn 1 Ebrill 2015.

Adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad wedi'i lywio gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac archwilwyr allanol drwy sylwadau yn eu llythyr rheoli.

Gweithredodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'n cyflawni rhaglen waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg am hynt y broses o weithredu'r rhaglen waith arfaethedig. Aeth hefyd i gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Adnoddau fel yr oedd angen. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn archwilio mewnol flynyddol yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Yn 2013-14, yn dilyn pryderon parhaus ynghylch oedi wrth roi'r rhaglen gwaith archwilio mewnol ar waith, cwblheais brosiect peilot i dreialu trefniant contractau ar y cyd lle yr isgcontractiwyd elfennau o waith archwilio mewnol arfaethedig i gyflenwyr allanol. Bu'r dull hwn yn llwyddiant ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfioli'r trefniant drwy drefnu contractau allanol ar gyfer rhoi'r rhaglen archwilio mewnol ar waith yn 2014-15.

Cyflwynodd pob un o'm pwyllgorau llywodraethu blaenorol adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Cysgodol ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac ar y meysydd hynny o fusnes Swyddfa Archwilio Cymru a archwiliwyd ganddo. Roedd gan y Bwrdd Cysgodol a'i bwyllgorau hefyd drefniadau ar waith i adolygu eu heffeithiolrwydd bob blwyddyn.

Llywiodd yr adolygiadau hynny, a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2013, y broses o lunio adroddiad etifeddol a ystyriwyd gan y Bwrdd newydd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2013. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn y dyfodol, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- cysoni cyfarfodydd a chylchoedd busnes yn well;
- rhaglen dysgu a datblygu gymesur ar gyfer aelodau anweithredol;
- gwelliannau pellach i drefniadau rheoli perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru yn gysylltiedig â'r strwythur newydd;
- adeiladu ar y trefniadau embryonig ar gyfer mesur effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau; a
- neilltuo amser penodol o fewn rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer gweithdai thematig.

Derbyniodd y Bwrdd argymhellion yr adroddiad ac mae'r argymhellion hynny yn gweithredu fel sail ar gyfer ei raglen ddatblygu.

Cefnogodd fy Swyddfa Breifat waith y Bwrdd Cysgodol, y Bwrdd statudol a'r Pwyllgor Gweithredol a'r pwyllgor llywodraethu. Cyflawnodd y swyddfa hefyd amrywiaeth o weithgareddau i roi sicrwydd bod gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei wneud yn unol â safonau ansawdd priodol a bod ei systemau ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

Tudalen y pecyn 70

Llywodraethu gwybodaeth

Mae gennyf fynediad breintiedig ac eang i ddata a gwybodaeth i'm helpu i gyflawni fy swyddogaethau archwilio a sicrhau bod fy adroddiadau yn ffeithiol, yn gywir ac yn gyflawn. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i barchu'r mynediad breintiedig hwn ac i sicrhau bod y wybodaeth bersonol a sensitif a roddir iddi yn cael ei diogelu'n briodol.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru *Bolisi Diogelwch Gwybodaeth* sy'n:

- nodi rhwymedigaethau pob cyflogai mewn perthynas â defnyddio cyfleusterau TGCh Swyddfa Archwilio Cymru;
- amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer prosesu data;
- tynnu sylw at brif gyfrifoldebau staff o ran diogelwch;
- nodi'r trefniadau ar gyfer gwaith monitro rheolaidd i gadarnhau bod staff yn cydymffurfio â'r gyfraith a pholisi Swyddfa Archwilio Cymru;
- nodi trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r polisi; ac
- egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth a chanllawiau a sut y dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch.

Roedd fy Ysgrifennydd Preifat yn atebol i'r Pwyllgor Gweithredol am lywodraethu gwybodaeth. Ef hefyd oedd y Pwynt Cyswllt Unigol sy'n gorfod awdurdodi'r holl gynigion i drosglwyddo lefelau uchel o wybodaeth fwy sensitif rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, cyrff a archwilir a tharddwyr eraill.

Mae'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yn cyngori uwch reolwyr a staff ar faterion diogelwch technegol ac ymarferol, ac mae'n arwain unrhyw waith ymchwilio gofynnol.

Mae'r Swyddog Gwybodaeth yn gweithio i sicrhau bod prosesau llywodraethu gwybodaeth cyffredinol cadarn ar waith, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y Swyddog Gwybodaeth yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan raddio ei threfniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch yn ystod 2013-2014.

Materion pwysig o ran rheolaeth fewnol

Yn 2012-13, nodais nad oedd unrhyw argymhellion archwilio mewnol yr oedd angen cymryd camau brys neu sylweddol mewn perthynas â hwy am eu bod yn amlygu problem fawr neu wendid rheoli sylweddol. Ni wnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol nodi unrhyw achosion o dwyll yn yr adolygiadau a gynhaliwyd ychwaith. Fodd bynnag, ymhlith y materion pwysig yr oedd angen i reolwyr ymateb iddynt roedd:

- Yr angen i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a chanllawiau gwell i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r polisi cydnabod incwm. Yn absenoldeb hynny, dylai rheolwyr ystyried newid y ffordd y caiff incwm ei gydnabod o fodel sy'n seiliedig ar fewnbwn (amser) i fodel sy'n seiliedig ar allbynnau (cerrig milltir).
- Pwysleisio pwysigrwydd cofnodi amser yn gywir a gwella trefniadau ar gyfer delio ag amrywiadau i raglenni gwaith.
- Cyflwyno adolygiadau chwarterol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm Cyllid gyda rheolwyr y Grŵp Perfformiad ac Ymarfer Archwiliadau Ariannol.
- Gwelliannau pellach i systemau adnoddau dynol gan gynnwys diweddarau a chyflawni'r strategaeth adnoddau dynol a nifer o bolisïau sy'n ymwneud ag adnoddau dynol.

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r materion hyn, gan gynnwys:

- hyfforddiant rheoli ariannol i'r sefydliad cyfan, gan ganolbwyntio ar nodi incwm a phwysigrwydd cofnodi amser yn gywir;
- rhoi menter cofnodi 'amser real' ar waith;
- adolygiadau chwarterol o waith sy'n mynd rhagddo; a
- chaffael a gweithredu system adnoddau dynol newydd ym mis Ebrill 2014.

Cafodd barn archwilio mewnol 2013-14 ei llywio gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y rheini a restrir uchod. Daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod systemau Swyddfa Archwilio Cymru, ar y cyfan, yn darparu fframwaith effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Fodd bynnag, nodwyd rhai diffygion o ran gweithredu rheolaethau mewnol ac ymdrinnir â hwy drwy gamau rheoli y cytunwyd arnynt.

Mae casgliad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar y ffaith ei fod wedi nodi rhai meysydd i'w gwella ymhob adroddiad archwilio ac angen penodol i roi ffocws newydd i fframwaith rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl sefydlu'r Bwrdd ac ailstrwythuro'r uwch reolwyr.

Roedd un argymhelliad yn tynnu sylw at wendid rheoli sylweddol lle roedd angen gweithredu ar fyrder. Ymatebodd y rheolwyr yn gyflym gan hysbysu'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg am y camau a gymerwyd.

Tudalen y pecyn 72

Y camau nesaf

Rwyf yn fodlon bod risgiau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwella; lle ceir gwendidau, mae camau priodol ar waith i fynd i'r afael â hwy.

Rwyf wedi derbyn casgliadau ac argymhellion y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae rheolwyr yn rhoi ei argymhellion ar waith a bydd y Pwyllgor Rheoli yn parhau i fonitro'r gwelliannau a wneir.

Ar ôl cychwyn Deddf 2013 yn llawn ar 1 Ebrill 2014, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys:

- mapio'r trefniadau llywodraethu newydd er mwyn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac wedi'u deall;
- atgyfnerthu trefniadau adrodd ar berfformiad yn gyson â'r cynllun busnes er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda;
- gwaith pellach ar y model costio a pherchenogaeth dros dargedau ffioedd er mwyn sicrhau trosglwyddiad didrafferth i'r gyfundrefn ffioedd newydd; a
- rhoi'r prosiect Llwyfan Archwilio Cyffredin ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd yn ddiweddarach eleni.



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
18 Mehefin 2014

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiwn ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad fel gwybodaeth a archwiliwyd. Rydym hefyd wedi cynnal gwaith, fel gofyniad ar wahân gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, i gael sicrwydd rhesymol bod y gwariant yr aed iddo a'r incwm a dderbyniwyd wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol hynny yn cydymffurfio â'r awdurdodau hynny sy'n eu llywodraethu.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu datgan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Prïod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodwyd ar **dudalen 59**, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwariant yr aed iddo a'r incwm a dderbyniwyd wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd rhesymol bod y gwariant yr aed iddo a'r incwm a dderbyniwyd wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Ceir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm.

Mae'n ofynnol i ni hefyd gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant yr aed iddo a'r incwm a dderbyniwyd wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â Nodyn Arfer 10 y Bwrdd Arferion Archwilio yn hyn o beth.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2014 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar reoleidd-dra

Yn ein barn ni, mae'r gwariant a aed iddo a'r incwm a dderbyniwyd a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu ymhob ffordd berthnasol.

Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Baker Tilly UK Audit LLP
20 Mehefin 2014

Archwilwyr Cofrestredig
Davidson House
Forbury Square
Reading
RG1 3EU

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

	2013-14						2012-13	
	Amcangyfrif			All-dro			Cyfanswm all-dro net o gymharu â'r amcangyfrif	All-dro
	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Refeniw	13,405	(7,994)	5,411	12,609	(7,744)	4,865	546	3,571
Cyfalaf	20	-	20	20	-	20	-	16
Cyfanswm Adnoddau	13,425	(7,994)	5,431	12,629	(7,744)	4,885	546	3,587
Gofyniad Arian Parod Net (gweler y cysoniad isod)			5,431			5,094	337	4,472

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau uchod yn crynhoi sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn yr elfennau hynny o gyllideb y Swyddfa sy'n amodol ar gymeradwyaeth drwy gynnig cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol. Yr elfennau dan sylw yw swm yr adnoddau a'r arian parod y gellir eu tynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru a swm yr incwm a gynhyrchir drwy waith grant yn y GIG, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a ffynonellau amrywiol y gellir ei gadw.

Cysoni alldro adnoddau â gwariant net

	Alldro 2013-14 £'000	Alldro 2012-13 £'000
Cyfanswm adnoddau refeniw	4,865	3,571
Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif	-	(99)
Incwm nad yw'n gyllid cyflenwi	(10,298)	(9,846)
Gwariant nad yw'n gyllid cyflenwi	11,719	8,419
Gwariant net	6,286	2,045

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi lle mae ffigurau 2013-14 yn y tablau uchod wedi'u codi o'r ffigurau cyfatebol yn y Datganiad Cyfrifon, ac yn dangos sut y dosrannwyd y ffigurau hynny yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

	Nodyn	Cyfanswm £'000	Wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau £'000	Heb eu cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau £'000
Incwm (ffioedd)	2	16,606	7,717	8,889
Incwm (grant)	2	1,409	-	1,409
Incwm gweithredu arall	3	20	20	-
Llog banc		7	7	-
Llai incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif		-	-	-
Cyfanswm yr incwm		18,042	7,744	10,298
Gwariant	2	24,325	12,606	11,719
Treth gorfforaeth		3	3	
Cyfanswm gwariant		24,328	12,609	11,719
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr		6,286	4,865	1,421
Dibrisiant ac amorteiddio	7	227	97	130
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith	Datganiad Llif Arian Parod	920	(306)	1,226
Ychwanegiadau cyfalaf	8 a 9	54	20	34

Nid yw'r symudiad mewn cyfalaf gwaith yn y tabl uchod yn cynnwys y symudiadau mewn symiau derbyniadwy (llai £1,046,000), symiau taladwy (plws £1,949,000) na'r darpariaethau (plws £17,000) a ddangosir yn y Datganiad Llif Arian Parod.

Esboniad o amrywiannau

Mae'r alldro net a gofnodir uchod yn adlewyrchu gostyngiad o £796,000 mewn gwariant o gymharu â'r gwariant a ragwelwyd yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2013-14, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £250,000 mewn incwm. Roedd hyn o ganlyniad i swyddi gwag yn ystod y flwyddyn gan fod y gwariant a'r incwm yn yr Amcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaeth y byddai pob swydd wedi'i llenwi.

Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14, mae swm o £337,000 yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 81 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

		2013-14	2012-13
	Nodyn	£'000	£'000
Gwariant			
Staff a chostau cysylltiedig	4	15,291	14,981
Gwasanaethau allanol	6	3,308	3,451
Costau gweithredu eraill	7	4,093	3,221
Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer trethiant	7	-	(2,392)
Dosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol	7	1,633	-
	2	24,325	19,261
Incwm			
Incwm o ffioedd archwilio	2	(16,606)	(15,871)
Grant arolygu	2	(1,409)	(1,322)
Incwm gweithredu arall	3	(20)	(11)
		(18,035)	(17,204)
Gwariant net		6,290	2,057
Llog taladwy/(derbyniadwy)		(7)	(12)
Treth gorfforaeth daladwy/(adenilladwy)		3	-
Gwariant net ar ôl treth a llog		6,286	2,045
Gwariant cynhwysfawr arall		-	-
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		6,286	2,045

Mae'r nodiadau canlynol ar **dudalennau 81 i 103** yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014

	Nodyn	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	666	816
Asedau anniriaethol	9	97	120
		763	936
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo	10	1,996	1,061
Symiau derbyniadwy eraill	11	572	461
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	12	4,489	4,519
		7,057	6,041
		7,820	6,977
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill	13	(3,493)	(1,743)
Incwm gohiriedig	14	(2,463)	(2,264)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	15	(637)	(557)
Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau)		(337)	(268)
		(6,930)	(4,832)
		890	2,145
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	15	(890)	(953)
		(890)	(953)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau			
		-	1,192
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa wrth gefn gyffredinol		-	1,192
		-	1,192

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 81 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau ar adeg cymeradwyo'r adroddiad:

- (a) i'r graddau ei fod yn ymwybodol nad oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- (b) ei fod wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel Swyddog Cyfrifyddu er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn sicrhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 18 Mehefin 2014.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

Tudalen y pecyn 80

Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

		2013-14	2012-13
	Nodyn	£'000	£'000
Lifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net cynhwysfawr		6,286	2,045
Anariannol: dibrisiant	7	(227)	(495)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	10, 11	1,046	(223)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13, 14	(1,949)	704
(Cynnydd)/gostyngiad mewn darpariaethau	15	(17)	2,757
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		5,139	4,788
Lifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	8	16	155
Prynu asedau anniriaethol	9	38	6
Aiddosbarthu'n refeniw	8	-	(6)
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		54	155
Lifau arian parod o weithgareddau ariannu			
Cronfa Gyfunol Cymru		(5,431)	(4,740)
Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		268	1,945
Ariannu net		(5,163)	(2,795)
Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	12	30	2,148

Mae'r nodiadau canlynol ar **dudalennau 81 i 103** yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2012	(1,235)
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2012-13	
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr	(2,045)
Arian o Gronfa Gyfunol Cymru	4,740
	<hr/> 1,460
Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	(268)
Balans ar 31 Mawrth 2013	1,192
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2013-14	
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr	(6,286)
Arian o Gronfa Gyfunol Cymru	5,431
	<hr/> 337
Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru ¹	(337)
Balans ar 31 Mawrth 2014	-

¹ Fel y nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 81 i 103 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodyn 1: Confensiynau a pholisïau cyfrifyddu

Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2013-14, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir yn Nodyn 22: digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y bo FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn effeithiol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi'u cymhwyso i'r cyfnod adrodd hwn:

- (i) Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbriso eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle bo hynny'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe'u cyflwynir mewn punnoedd Prydeinig sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.
- (ii) Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.
- (iii) Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddsbarthu'n incwm gohiriedig (gweler xi). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddsbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler ix). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.
- (iv) Priodolwyd costau yr eir iddynt mewn gwaith archwilio (hy costau staff a chwmnïau dan gontract) yn uniongyrchol i'r ffrydiau incwm perthnasol. Codir am wariant arall yn gyntaf yn erbyn yr arian o Gronfa Gyfunol Cymru nas dyrannwyd ac yna, i'r graddau y mae'r arian ar gael, fe'i priodolir i ffrydiau incwm yn gymesur yn union â lefelau incwm.
- (v) Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn elwa ar wasanaethau cyflogaion drwy wneud taliadau i PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus.

- (vi) Caiff rhenti prydles i gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o gyfanswm y treuliau prydles. Os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o gyfnodau di-rent yn ystod prydles, caiff y budd hwnnw ei gredu'n gyfartal dros y cyfnod o ddechrau'r brydles hyd nes yr adolygiad rhent cyntaf.
- (vii) Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.
- (viii) Delir asedau sefydlog ar gostau adnewyddu wedi'u dibrisio fel amcangyfrif ar gyfer gwerth teg.
- (ix) Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i ddibrisio cost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Dodrefn a ffitiadau (gan gynnwys seilwaith TG)	10 mlynedd
Offer cyfrifiadurol	3 blynedd
Offer swyddfa	5 mlynedd

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd gwerth dros £5,000, offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

- (x) Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwiredadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Pennir darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.
- (xi) Caiff darpariaeth ar gyfer costau dadfeilio eiddo ar brydles yn y dyfodol ei chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Fe'i cronnir drwy daliad dadfeilio blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adferol a wneir i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuir yn y flwyddyn y nodir y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarperir gan syrfewyr annibynnol. Caiff y cyfryw ddarpariaethau eu cyfalafu a'u dibrisio dros oes yr ased neu hyd y brydles, pa un bynnag sydd fyrraf.

- (xii) Mae incwm gohiriedig yn cynnwys incwm ffioedd sydd wedi'i anfonebu ond sydd heb ei gydnabod eto. Fe'i cyfrifir drwy asesu i ba raddau y mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, gan gydnabod y gyfran honno o incwm ffioedd a anfonebwyd fel refeniw yn ystod y cyfnod a thrin incwm sydd wedi'i anfonebu ond heb ei gydnabod fel incwm gohiriedig.
- (xiii) Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath ei adolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ymhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Gwneir y defnydd mwyaf o amcangyfrifon a dyfarniadau pwysig yn y meysydd canlynol:

- Mae darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn seiliedig ar ragamcanion o daliadau pensiwn disgwylidig yn y dyfodol. Yn unol â safonau cyfrifyddu, cydnabyddir y ddarpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad sy'n dwyn rhwymedigaeth, gan dybio ei bod yn debygol bod angen trosglwyddo buddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif hyn mewn ffordd ddibynadwy.
 - Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar sail canran y gwaith heb ei filio sydd wedi'i gwblhau. Cyfrifir incwm gohiriedig ar sail asesiad o'r graddau y mae prosiect wedi'i gwblhau, fel yr eglurir uchod.
 - Mae darpariaethau treth yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.
 - Mae darpariaethau dadfeiliadau yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.
- (xiv) Ystyrir digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol y gall fod angen eu datgelu neu eu haddasu yn unol â gofynion IAS 10 hyd at y dyddiad yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir mai'r dyddiad hwn yw'r dyddiad y llofnodir Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.

Nodyn 2: Dadansoddiad o wariant net fesul segment

Crynoir incwm, ariannu a chostau gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-14 yn y tabl canlynol:

	Archwilio llywodraeth leol £'000	Perfformiad llywodraeth leol £'000	Cyfanswm nas cynhwysyd yn y Datganiad o Aldro Adnoddau £'000	Ardystio grantiau llywodraeth leol ¹ £'000	Archwilio'r GIG ¹ £'000	Archwilio llywodraeth ganolog ¹ £'000	Perfformiad y GIG ¹ £'000	Perfformiad llywodraeth ganolog ¹ £'000	Gwaith gwerth am arian a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru £'000	Gweithgareddau a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru £'000	Cyfanswm a gynhwysyd yn y Datganiad o Aldro Adnoddau £'000	Cyfanswm £'000
Incwm ac ariannu												
Ffioedd Archwilio	5,433	3,456	8,889	2,496	2,039	1,880	1,263	39	-	-	7,717	16,606
Grant	-	1,409	1,409	-	-	-	-	-	-	-	-	1,409
Arian Cronfa Gyfunol Cymru	-	-	-	-	-	-	-	-	2,647	2,764	5,411	5,411
Cyfanswm	5,433	4,865	10,298	2,496	2,039	1,880	1,263	39	2,647	2,764	13,128	23,426
Gwariant	6,381	5,338	11,719	2,427	1,792	1,743	1,215	18	2,647	2,764	12,606	24,325
	(948)	(473)	(1,421)	69	247	137	48	21	-	-	522	(899)

¹ Mae incwm a gwariant y segmentau hyn wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Aldro Adnoddau.

Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	£'000
Yn unol â'r dadansoddiad uchod	899
Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru	5,411
Treth gorfforaeth	3
Llog derbyniadwy	(7)
Incwm arall	(20)
Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	6,286

Roedd ffigurau cymharol 2012-13 fel a ganlyn:

	Archwilio llywodraeth leol £'000	Perfformiad llywodraeth leol £'000	Cyfanswm nas cynhwyswyd yn y Datganiad o Aldro Adnoddau £'000	Ardystio grantiau llywodraeth leol ¹ £'000	Archwilio'r GIG ¹ £'000	Archwilio llywodraeth ganolog ¹ £'000	Perfformiad y GIG ¹ £'000	Perfformiad llywodraeth ganolog ¹ £'000	Gwaith gwerth am arian a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru £'000	Gweithgareddau a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru £'000	Cyfanswm a gynhwyswyd yn y Datganiad o Aldro Adnoddau £'000	Cyfanswm £'000
Incwm ac ariannu												
Ffioedd Archwilio	5,131	3,393	8,524	2,520	1,987	1,588	1,252	-	-	-	7,347	15,871
Grant	-	1,322	1,322	-	-	-	-	-	-	-	-	1,322
Arian Cronfa Gyfunol Cymru	-	-	-	-	-	-	-	-	2,546	2,178	4,724	4,724
Cyfanswm	5,131	4,715	9,846	2,520	1,987	1,588	1,252	-	2,546	2,178	12,071	21,917
Gwariant	4,734	3,685	8,419	2,319	1,423	1,390	986	-	2,546	2,178	10,842	19,261
	397	1,030	1,427	201	564	198	266	-	-	-	1,229	2,656

¹ Mae incwm a gwariant y segmentau hyn wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Aldro Adnoddau.

Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	£'000
Yn unol â'r dadansoddiad uchod	(2,656)
Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru	4,724
Treth gorfforaeth	-
Llog derbyniadwy	(12)
Incwm arall	(11)
Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	2,045

Nodyn 3: Incwm gweithredu arall

	2013-14	2012-13
	£'000	£'000
Incwm amrywiol	20	11
	20	11

Nodyn 4: Staff a chostau cysylltiedig

(i) Costau staff	2013-14	2012-13
	£'000	£'000
Cyflogau staff	10,668	10,317
Ffioedd aelodau anweithredol pwyllgorau ¹	90	64
Costau nawdd cymdeithasol	1,042	1,065
Costau pensiwn (PCPS) ²	2,116	2,061
Costau pensiwn (Pensiynau rhanddeiliaid)	7	8
	13,923	13,515
Cynllun ceir	742	745
Tanysgrifiadau a buddiannau eraill	47	38
	14,712	14,298
Contractwyr archwilio ac arolygu	323	472
	15,035	14,770
Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau	400	263
Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(144)	(52)
Costau staff net	15,291	14,981

¹ Fel y datganwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, ac eithrio Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru y telir ei gydnabyddiaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

² Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil fel y'i disgrifir yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Ceir gwybodaeth fanylach am daliadau cydnabyddiaeth a hawliau pensiwn yr uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar [dudalennau 50 i 58](#).

Nid ymddeolodd unrhyw aelodau o staff yn gynnar ar sail iechyd yn ystod y flwyddyn.

(ii) Niferoedd staff

	2013-14	2012-13
	£'000	£'000
Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd	243	226
Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd)	7	11

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o contractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn i ateb y galw am adnoddau ar gyfnodau brig.

Nodyn 5: Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu cynlluniau diswyddo gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'u cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cynlluniau hyn yn bodloni gofynion cynllunio'r gweithlu ac maent wedi arwain at leihad yn sylfaen costau staffio Swyddfa Archwilio Cymru. Cost y cynllun yn 2013-14 oedd £378,409 (2012-13: £192,207).

Gadawodd nifer o gyflogeion drwy becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2013-14 a 2012-13 fel y crynhoir isod:

Band costau'r pecyn ymadael	2013-14			2012-13		
	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau
Llai na £25,000	-	-	-	-	-	-
£25,001 – £50,000	-	1	1	-	-	-
£50,001 – £100,000	-	2	2	-	1	1
£100,001 – £150,000	-	1	1	-	1	1
£150,001 a throsodd	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	-	4	4	-	2	2

Roedd gan y pedwar unigolyn y caniatawyd iddynt adael yn wirfoddol yn 2013-14 ddyddiadau gadael yn 2014-15. Mae costau'r pecynnau wedi'u cynnwys yn Nodyn 4: costau staff a Nodyn 15: darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau.

Talwyd costau ymddeoliadau cynnar ac ymadawiadau yn unol â pholisi Swyddfa Archwilio Cymru, y cytunwyd arno gydag undebau llafur cydnabyddedig. Caiff y costau ychwanegol nas telir gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu talu yn hytrach gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u cydnabyddir yn y datganiadau ariannol hyn.

Nodyn 6: Gwasanaethau allanol

	2013-14	2012-13
	£'000	£'000
Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat	3,168	3,320
Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill	140	131
	3,308	3,451

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwil.

Nodyn 7: Costau gweithredu eraill

	2013-14	2012-13
	£'000	£'000
Llety		
Costau prydlesi rhent	453	245
Costau eraill	397	390
Cyflenwadau a gwasanaethau	2,233	1,374
Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer trethiant		(2,392)
Recriwtio a throsglwyddiadau	76	57
Dibrisiant ac amorteiddio	227	495
Ffioedd proffesiynol		
Gwasanaethau archwilio mewnol	17	-
Ffioedd archwilio allanol	25	29
Ffioedd proffesiynol eraill	90	64
Teithio a chynhaliaeth	431	397
Dysgu a datblygu	144	170
Dosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyfrif llywodraeth leol ¹	1,633	-
	5,726	829

¹ Caiff cronfeydd cronedig wrth gefn hyd at 31 Mawrth 2014 eu dosbarthu i gyfrif llywodraeth leol yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn yr Amcangyfrif blynyddol ar gyfer 2014-15.

Nodyn 8: Eiddo, offer a chyfarpar

	Dodrefn a ffitiadau	Technoleg gwybodaeth	Offer swyddfa	Cyfanswm
2013-14	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 31 Mawrth 2013	1,377	207	115	1,699
Ychwanegiadau	-	16	-	16
Gwarediadau	-	-	-	-
Ailddosbarthwyd i reffeniw	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2014	1,377	223	115	1,715
Dibrisiant				
Ar 31 Mawrth 2013	697	121	65	883
Darparwyd yn ystod y cyfnod	129	16	21	166
Gwarediadau	-	-	-	-
Ailddosbarthwyd i reffeniw	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2014	826	137	86	1,049
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2014	551	86	29	666
Ar 31 Mawrth 2013	680	86	50	816
Ariannu asedau				
A berchenogir	551	86	29	666

	Dodrefn a ffitiadau	Technoleg gwybodaeth	Offer swyddfa	Cyfanswm
2012-13	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 31 Mawrth 2012	823	207	112	1,142
Ychwanegiadau	560	-	23	583
Gwarediadau	-	-	(20)	(20)
Ailddosbarthwyd i reffeniw	(6)	-	-	(6)
Ailddosbarthwyd o asedau anniriaethol	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	1,377	207	115	1,699
Dibrisiant				
Ar 31 Mawrth 2012	344	104	63	511
Darparwyd yn ystod y cyfnod	355	17	20	392
Gwarediadau	-	-	(18)	(18)
Ailddosbarthwyd i reffeniw	(2)	-	-	(2)
Ar 31 Mawrth 2013	697	121	65	883
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2013	680	86	50	816
Ar 31 Mawrth 2012	479	103	49	631
Ariannu asedau				
A berchenogir	680	86	50	816

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Nodyn 9: Asedau anniriaethol

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

	Cyfanswm
2013-14	£'000
Cost	
Ar 31 Mawrth 2013	712
Ychwanegiadau	38
Gwarediadau	(31)
Ar 31 Mawrth 2014	<u>719</u>
Amorteiddio	
Ar 31 Mawrth 2013	592
Darparwyd yn ystod y cyfnod	61
Gwarediadau	(31)
Ar 31 Mawrth 2014	<u>622</u>
Gwerth llyfr net	
Ar 31 Mawrth 2014	<u>97</u>
Ar 31 Mawrth 2013	<u>120</u>
Ariannu Asedau	
A berchenogir	<u>97</u>

	Cyfanswm
2012-13	£'000
Cost	
Ar 31 Mawrth 2012	715
Ychwanegiadau	6
Gwarediadau	(9)
Ar 31 Mawrth 2013	<u>712</u>
Amorteiddio	
Ar 31 Mawrth 2012	497
Darparwyd yn ystod y cyfnod	104
Gwarediadau	(9)
Ar 31 Mawrth 2013	<u>592</u>
Gwerth llyfr net	
Ar 31 Mawrth 2013	<u>120</u>
Ar 31 Mawrth 2012	<u>218</u>
Ariannu asedau	
A berchenogir	<u>120</u>

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Ni ddelir unrhyw restrau eiddo perthnasol.

Nodyn 10: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Symiau masnach derbyniadwy		
Llywodraeth ganolog	82	98
Llywodraeth leol	253	337
Y GIG	205	99
Y tu allan i'r llywodraeth	31	6
Gwaith sy'n mynd rhagddo		
Llywodraeth ganolog	592	391
Llywodraeth leol	833	130
Y GIG	-	-
	<hr/>	<hr/>
	1,996	1,061

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yn 2013-14. (2012-13 – ni fu angen)

Nodyn 11: Symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	571	459
Benthyciadau i gyflogeion	1	2
	<hr/>	<hr/>
	572	461
	<hr/>	<hr/>

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Gellir dadansoddi balansau'r symiau derbyniadwy yn Nodiadau 10 ac 11 o dan y categorïau canlynol:

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Cyrff llywodraeth ganolog	704	506
Cyrff llywodraeth leol	1,268	631
Cyrff y GIG	205	99
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	391	286
	<hr/>	<hr/>
	2,568	1,522
	<hr/>	<hr/>

Nodyn 12: Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	4,519	6,667
Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(30)	(2,148)
Balans ar 31 Mawrth	<u>4,489</u>	<u>4,519</u>

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Cyfrif cyfredol	2,781	2,817
Cyfrif Ewro	1	1
Y Gronfa Sterling Fyd-eang	1,707	1,701
	<u>4,489</u>	<u>4,519</u>

Mae arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fynediad uniongyrchol iddynt. Mae'r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Diben y cyfrif Ewro yw symleiddio trafodion tramor achlysurol.

Darperir y Gronfa Sterling Fyd-eang gan Grŵp RBS. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae'r gronfa wedi'i strwythuro i sicrhau y cynhelir y statws credyd uchaf, sef statws AAA neu statws cyfwerth, gydag asiantaethau graddio statws Standard & Poor, Fitch a Moody.

Nodyn 13: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Symiau masnach taladwy ¹	217	161
TAW	53	549
Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol	320	2
Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto	481	486
Dosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrrff llywodraeth leol ²	1,633	-
Croniadau eraill ³	789	545
	3,493	1,743

¹ Mae pob swm masnach taladwy yn ddyledus o fewn blwyddyn.

² Yn unol â Deddf 2013, ni all Swyddfa Archwilio Cymru ddal cronfeydd cronedig wrth gefn o 1 Ebrill 2014. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, caiff cronfeydd wrth gefn a gronwyd hyd at 31 Mawrth 2014 eu dosbarthu i gyrrff llywodraeth leol yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn yr Amcangyfrif blynyddol ar gyfer 2014-15 ac, fel y cyfryw, fe'u hystyriwyd fel credydwr yn y cyfrifon hyn.

³ Mae'r rhan helaeth o'r croniadau eraill (£546,000) yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae £243,000 mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2014, a dalwyd ym mis Ebrill 2014.

Nodyn 14: Incwm gohiriedig

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Incwm gohiriedig	2,463	2,264
	2,463	2,264

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, a chydabod y gyfran honno o'r incwm ffioedd disgwylidig fel referniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

Gellir dadansoddi'r balansau taladwy yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
Cyrff llywodraeth ganolog	461	776
Cyrff llywodraeth leol	3,179	1,351
Cyrff y GIG	1,043	885
Cyrff y tu allan i'r llywodraeth	1,273	995
	5,956	4,007

Nodyn 15: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Dadfeiliadau	Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau¹	CThEM	Cyfansymiau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 31 Mawrth 2013	542	815	153	1,510
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	14	495	34	543
Darpariaethau a ddefnyddiwyd/ rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	(428)	(98)	(526)
Ar 31 Mawrth 2014	556	882	89	1,527

¹ Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Tachwedd 2012, sef 1.80 y cant i gyfrifo'r balans hwn ar gyfer 0 i 5 mlynedd ac 1.0 y cant ar gyfer 5 i 10 mlynedd. (2012-13: 2.35 y cant).

Dadansoddiad o'r amseru disgwylidig:

	Dadfeiliadau	Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau	CThem	Cyfansymiau
	£'000	£'000	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	-	548	89	637
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	67	250	-	317
Dros bum mlynedd	489	84	-	573
	556	882	89	1,527

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydles. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys amcangyfrif o gost debygol gwneud newidiadau adferol i eiddo a brydlesir, ynghyd â swm ar gyfer 'traul' a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr ased a brydlesir. Amcangyfrifwyd cost y gwaith adferol a wnaed i'r swyddfeydd ar Heol y Gadeirlan gan syrfewyr annibynnol. Amcangyfrifwyd y gost o wneud newidiadau i'r swyddfeydd ym Mhenllergaer ac Ewlo drwy gyfeirio at y costau sy'n ymwneud â gwneud y newidiadau.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer CThem yn ymwneud â'r canlynol:

- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol i gontractwr sydd wedi darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2013;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i rai aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion; a
- thandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â'r budd-dal Marwolaeth Cyflogai tra'n Gweithio.

Nodyn 16: Prydlesi gweithredu

Roedd isafswm taliadau prydlesi cronedig ar 31 Mawrth 2014 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo:

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	158	188
O fewn blwyddyn i bum mlynedd	241	209
	<hr/>	<hr/>
	399	397

Roedd isafswm taliadau prydlesi cronedig ar 31 Mawrth 2014 o ran prydlesi swyddfeydd:

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2013
	£'000	Nifer yr eiddo	£'000	Nifer yr eiddo
O fewn blwyddyn	446	3	419	3
O fewn blwyddyn i bum mlynedd	1,783	2	1,677	2
Dros bum mlynedd	1,262	1	1,642	1
	<hr/>		<hr/>	
	3,491		3,738	

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

Nodyn 17: Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2014 (31 Mawrth 2013: dim).

Nodyn 18: Colledion a thaliadau arbennig

Taliadau arbennig

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig yn 2013-14 (2012-13: dim).

Colledion

Nid oedd unrhyw golledion i'w datgelu yn 2013-14 (2012-13: dim).

Nodyn 19: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae *IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, ar sail ansoddol ac ar sail feintiol. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fuddsoddi arian dros ben hefyd, a gwna hynny drwy gyfrif llog dros nos a thrwy'r Gronfa Sterling Fyd-eang (gweler Nodyn 12). Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgil yr agwedd hon at risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

Risg cyfradd llog

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r gwarged weithredu.

Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i hamlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2014 (31 Mawrth 2013: dim).

Nodyn 20: Rhwymedigaeth wrth gefn

Cafwyd cadarnhad gan CThEM eu bod yn derbyn bod staff gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru yn bodloni'r diffiniad o staff sydd wedi'u 'lleoli'n ddaearyddol' at ddibenion treth ac felly nad oes unrhyw rwymedigaeth wrth gefn mewn perthynas â hyn.

Nodyn 21: Trafodion â phartion cysylltiedig

Unig gorfforaeth yw'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cynnal nifer o drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo ef a'i archwilwyr penodedig fel y datgelwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partion cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Nodyn 22: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 29 Ebrill 2013, rhoddodd Ei Mawrhydi y Frenhines Gydsyniad Brenhinol i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae Deddf 2013 yn creu corff corfforaethol newydd - Swyddfa Archwilio Cymru. Yn unol â Deddf 2013, trosglwyddwyd pob aelod o staff a gyflogwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, ynghyd â'r holl hawliau, asedau a rhwymedigaethau a freiniwyd yn yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2014, i Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2014.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol gan fod gweithrediadau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol wedi'u trosglwyddo ac yn cael eu cyflawni'n llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014.

Er mai dim ond am naw mis ar ôl dyddiad llofnodi'r datganiadau hyn y cymeradwywyd y cyllid a bleidleisiwyd, cyflwynir Amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2013-14 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff ei gymeradwyo.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Amcangyfrif 2015-16

Amcangyfrif o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2016

Paratowyd a gosodwyd ar y cyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagair

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.


Yn unol ag Adran 20 o'r ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn gynnig cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronrus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Nod ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru



Cynnwys

Rhagair	5
Effaith, cost a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru	7
Lleihau costau a sicrhau effeithlonrwydd cost yn Swyddfa Archwilio Cymru	11
Sicrhau y cyflawnir gwaith archwilio o safon ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol	13
Helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus	15
Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2016	22
Graddfeydd Ffioedd a Chyfraddau Ffioedd Drafft 2015	24
Rhagolwg	26
Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru	27
Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig	29
Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd drafft	30

Rhagair

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi paratoi'r Amcangyfrif hwn ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol a dyma'r ail dro rydym wedi gwneud hyn ers i'r Bwrdd gael ei greu. Dengys yr Amcangyfrif hwn fod y Bwrdd yn benderfynol o sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad atebol a reolir yn dda sy'n cyflawni ei gylch gwaith statudol i ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol. Wrth archwilio mwy na £15 biliwn o wariant yn y sector cyhoeddus, a ddyfernir bob blwyddyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae costau Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfateb i lai na phumed ran o un geiniog am bob punt a archwilir.

Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau. Mae cynnal hyder y cyhoedd o ran y ffordd y caiff arian ei wario yn bwysicach nag erioed, yn arbennig wrth i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru orfod gwneud penderfyniadau anodd a fydd yn effeithio ar y modd y darperir gwasanaethau am flynyddoedd lawer. Mae patrymau darparu gwasanaethau yn cael eu hailystyried ar draws y dirwedd gwasanaethau cyhoeddus ac mae tystiolaeth archwilio yn nodi'n glir fod angen ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau yn wyneb adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol am wasanaethau.

Disgwylwch i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol barhau i geisio mewnbwn annibynnol ac awdurdodol yr Archwilydd Cyffredinol, a gynorthwyr gan Swyddfa Archwilio Cymru, at amrywiaeth o ddibenion. Rydym hefyd yn disgwyl i gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r gymuned ehangach o gyrff adolygu allanol yng Nghymru barhau i gryfhau, gan adeiladu ar fanteision gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sydd â chysylltiadau da.

Nododd y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus fod negeseuon ein hadroddiadau archwilio yn treiddio i syniadaeth yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i gynnig cipolwg amserol a defnyddiol ar wariant ac atebolrwydd cyhoeddus. Ein nod yw lledaenu dysgu o lwyddiannau yn ogystal â methiannau ac annog gwelliant drwy weithio gydag eraill er mwyn datblygu adnoddau gwella a chymorth.

Wrth alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i:

- ddarparu adnoddau medrus er mwyn cyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol;
- datblygu ein gweithlu ymhellach drwy ddiwylliant o ddysgu;
- sicrhau ein bod yn sefydliad y mae rhanddeiliaid a phobl Cymru yn ymddiried ynddo;
- bod, a chael ein hystyried, yn sefydliad a reolir yn dda;
- cadw costau dan reolaeth gadarn, gan geisio cyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd a chadw ffioedd archwilio mor isel â phosibl; a
- mabwysiadu datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog.

Yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf mewn bodolaeth mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar lywodraethu a blaengynllunio er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn y sefyllfa orau i ateb yr heriau sy'n ei wynebu dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r heriau hyn yn debyg i'r rhai a wynebir gan bob gwasanaeth cyhoeddus arall - sef ceisio gwella effeithlonrwydd cost cymaint â phosibl ochr yn ochr â'r galw am wasanaethau o ansawdd uchel, sy'n galw am feddwl trawsnewidiol o ran y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.

Ym mis Ebrill 2015, byddwn yn lansio ein Cynllun Busnes tair blynedd, sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Ariannol Tymor Canolog. Ategir y naill a'r llall gan yr Amcangyfrif hwn ar gyfer 2015-16 ac maent oll yn cydweithio i helpu i lywio hynt drwy'r blynyddoedd sydd i ddod. Rydym wedi sefydlu trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad a fydd yn darparu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o'n cynnydd yn erbyn ein cynlluniau, y byddwn yn ei gofnodi yn ein hadroddiadau interim a blynyddol o 2015-16 ymlaen.

Wrth lunio ein cynlluniau, rydym wedi gwrandao'n ofalus ar ein rhanddeiliaid. Mae'r rhan fwyaf yn dweud wrthym bod ganddynt gryn hyder yng ngwaith Swyddfa Archwilio Cymru a bod ein gwaith yn cynnig gwerth am arian. Fodd bynnag, maent hefyd wedi dweud wrthym, yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol sylweddol, fod yn rhaid i ni wneud mwy i gyfyngu ar ein costau gweithredu ac osgoi codiadau yn ein cyfraddau ffioedd. Mae ein hamcangyfrif, fel y'i cymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn dibynnu'n uniongyrchol ar y cyfraddau ffioedd a bennir gennym. Am y tro cyntaf, rydym wedi cynnwys graddfeydd ffioedd drafft yn ein Hamcangyfrif ac wedi cynnal ein hymgynghorriad statudol ynghylch ffioedd gyda chyrff llywodraeth leol mewn pryd i lywio'r Amcangyfrif. Ystyriwn fod hwn yn gam pwysig o ran gwella tryloywder a rhoi darlun llawnach o gostau ac arian Swyddfa Archwilio Cymru.

Wrth i ni gyflwyno'r Amcangyfrif hwn i'r Pwyllgor i'w ystyried, byddai'r Bwrdd yn pwysleisio ein bod yn benderfynol o ddangos arweinyddiaeth gref a chyfyngu ar wariant yn y cyfnod anodd hwn: gan adeiladu ar ymddiriedaeth ein rhanddeiliaid a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i helpu i wella'r modd y caiff gwariant cyhoeddus yng Nghymru ei reoli a'i gofnodi ac, yn bwysicach oll, sicrhau bod y gwariant hwnnw yn cyflawni canlyniadau gwell.

Isobel Garner
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru


Effaith, cost a chyllid

Swyddfa Archwilio Cymru

- 1 Mae archwiliadau annibynnol o arian cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae'n rhaid i'r cyhoedd gael digon o wybodaeth am weithgareddau cyrff cyhoeddus a sut maent yn defnyddio arian cyhoeddus. Ac mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall sut i wella canlyniadau a llwyddo. Mae angen i'r cyhoedd allu cael gafael ar wybodaeth sy'n amserol, yn ddiuedd, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir. Yn y cyfnod anodd hwn, pan fo'r pwysau a'r risgiau yn llawer mwy sylweddol, ond pan geir cyfleoedd hefyd, mae gwaith archwilio yn chwarae rôl bwysicach fyth.
- 2 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiadau ar gyfrifon mwy nag 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru; yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol ac asesiadau strwythuredig o bob un o 10 corff y GIG. Mae'n cyhoeddi tua 15 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian a'r defnydd cywir o arian cyhoeddus, ac yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £3 biliwn. Y gwaith hwn sy'n darparu'r cwantwm ar gyfer adennill costau net Swyddfa Archwilio Cymru, drwy godi ffioedd a grant ar gyfer gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, ynghyd â chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.


Gwariant

Arddangosyn 1: Amcangyfrif o dreuliau 2015-16




- 3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol yr adnoddau sydd eu hangen arno i wneud ei waith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'n costau yn ymwneud â'r 260 o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gennym, ein contractwyr, darparu gwasanaethau ledled Cymru a darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i gyflawni ein gwaith. Mae rhagor o fanylion yn [Atodiad 1](#).
4. Ers 2009-10, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 20.5 y cant mewn termau real, fel y dangosir yn [Arddangosyn 2](#). Mae'r arbediad cronol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny (yr ardal wedi'i lliwio yn [Arddangosyn 2](#)) yn cyfateb i fwy na £34 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd archwilio.

Arddangosyn 2: Gwariant rhwng 2009-10 a 2015-16




Cyllid

Arddangosyn 3: Cyllid amcangyfrifedig 2015-16



- 5 Yn gyffredinol, caiff 73 y cant o wariant Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrf a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Darperir y 27 y cant arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y dengys **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn debyg i Audit Scotland a gafodd 74.5 y cant o'i incwm o ffioedd yn 2013-14. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **Atodiad 1**.

Arddangosyn 4: Gostyngiad mewn termau real mewn incwm o ffioedd rhwng 2009-10 a 2015-16



- 6 Dengys **Arddangosyn 4** y duedd yn ein hincwm blynyddol o ffioedd o 2009-10 i'n sefyllfa amcangyfrifedig ar gyfer 2015-16 a gwelir gostyngiad o 23 y cant yn ein hincwm o ffioedd dros y cyfnod. Ar yr un pryd, rydym wedi lleihau ein costau gweithredu 20.5 y cant.

Lleihau costau a sicrhau effeithlonrwydd cost yn Swyddfa Archwilio Cymru

- 7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau y flwyddyn nesaf fel y nodir yn [Arddangosyn 5](#):

Arddangosyn 5: Pwysau sylweddol o ran costau yn 2015-16

	£'000
Ychwanegiadau cytundebol at gyflogau	225
Cynnydd pellach mewn costau TAW, sy'n gysylltiedig â gwaith archwilio a osodir ar gontract	210
Cost y polisi o roi codiad cyflog o un y cant i'r sector cyhoeddus	145
Cost cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr a osodwyd gan gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil	100
Cost codiadau chwyddiannol mewn meysydd eraill gan gynnwys costau uwch i'n safleoedd sy'n gysylltiedig ag ynni a chyfraddau busnes.	80
CYFANSWM	760

- 8 Mae cost-effeithlonrwydd yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Gan adeiladu ar arbedion a sicrhawyd mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi mabwysiadu dull blaengynllunio a fydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion ychwanegol ar gyfer 2015-16. Golyga hyn y gallwn ariannu'r cynnydd mewn costau na ellir ei osgoi heb effeithio ar gyfraddau ffioedd na chynyddu'r arian rydym yn ei hawlio o Gronfa Gyfunol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu cynhyrchu'r arbedion a nodir yn [Arddangosyn 6](#).

Arddangosyn 6: Arbedion a nodwyd ar gyfer 2015-16

Savings in 2015-16	£'000
Gostyngiadau mewn costau rheoli a gweinyddu	335
Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd	185
Trefniadau contractio diwygiedig	165
Gosod gwasanaethau ar contract i ddarparwyr allanol (cyflogres a'r gwasanaeth archwilio mewnol)	75
CYFANSWM	760

- 9 Er mwyn cyflawni ymrwymiad i beidio â chynyddu cyfraddau fesul awr yn erbyn cefndir y pwysau o ran costau a nodwyd uchod a'r cyfyngiadau ariannol parhaus ar y sector cyhoeddus, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynyddu'r arbedion y mae am eu cyflawni ymhellach fyth drwy ei Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd. Bydd y rhaglen yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i leihau costau, gan dargedu arbedion yn y meysydd canlynol:
- effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trawsnewidiol;
 - effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosesau;
 - effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran teithio; ac
 - effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ystadau.
- 10 Caiff y targedau a bennir o dan y rhaglen hon eu cysoni â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Bwrdd er mwyn cynnal cynaliadwyedd ariannol ein gwasanaethau.
- 11 Mae'n amlwg y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod ein trefniadau cynllunio sy'n cynnwys ein Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd, ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ein Cynllun Busnes a'n Strategaethau Gweithlu a Chontractio yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ateb yr heriau hynny. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth i ni geisio dulliau mwy effeithlon o wneud ein gwaith, bydd ansawdd gwaith archwilio yn parhau i fod o'r pwys pennaf ac yn safon na allwn ei gostwng, ac na fyddwn yn ei gostwng.

Sicrhau y cyflawnir gwaith archwilio o safon ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol

- 12 Rydym yn darparu staff medrus iawn i gyflawni tua 82 y cant o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, a ategir gan 18 y cant arall o adnoddau archwilio a ddarperir o dan gontract gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat. Dyma ddyfnder yr arbenigedd sy'n cyflwyno adroddiadau ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru; yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ac asesiadau strwythuredig, yn llunio adroddiadau cenedlaethol ac yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £3 biliwn. Mae prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol i'w gweld yn [Atodiad 2](#).

Strategaeth gontractio

- 13 Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth archwilio sy'n cynnig gwerth am arian, rydym wedi adolygu'r gyfran o'n gwaith yr ydym yn ei gosod ar gontract i'r cwmnïau hyn, er mwyn sicrhau bod mwy o'n gwaith yn cael ei wneud yn fewnol. 2015-16 fydd y gyntaf o ddwy flwyddyn bontio pan gaiff cynnydd yng nghostau staff Swyddfa Archwilio Cymru ei wrthbwyso gan ostyngiadau yn ein gwariant ar waith archwilio a osodir ar gontract i'r cwmnïau cyfrifyddu mawr. Ochr yn ochr â budd ariannol defnyddio staff mewnol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awyddus i gadw rhywfaint o economi gymysg er mwyn darparu arbenigedd amgen, atgyfnerthu adnoddau yn y bydymor a rheoli effeithiau newidiadau tymor hwy i'r llwyth gwaith. Wrth i'n contractau presennol â'r cwmnïau ddod i ben yn ystod hydref 2015, mae prosesau caffael newydd yn mynd rhagddynt er mwyn cyflwyno trefniadau cyflenwi mwy hyblyg dros y tair i bum mlynedd nesaf.
- 14 Bydd cyflawni'r newidiadau uchod dros y ddwy flynedd nesaf yn helpu i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i ddelio â newidiadau disgwylidig yn y llwyth gwaith yn y dyfodol ac y bydd ganddo'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r llwyth gwaith hwnnw.

Blaenoriaethau busnes allweddol o ran cynnal archwiliadau

- 15 Mae agweddau ar ein gwaith yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Wrth wneud ein gwaith archwilio yn 2015-16, bydd ein blaenoriaethau busnes allweddol yn cynnwys y canlynol:
- rhoi trosolwg o'r trefniadau lleol ar gyfer cynnal asesiadau lleol o iechyd ariannol ac ansawdd gwaith cynllunio ariannol mewn cyrff llywodraeth leol ledled Cymru;
 - integreiddio'r gwaith o gynllunio, cyflawni a chofnodi ein harchwiliad o gyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad yn well, yn arbennig mewn perthynas ag ystyried effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu;
 - cysoni ein gwaith ymhellach â gwaith y cyrff adolygu allanol eraill;

- paratoi ar gyfer effaith newidiadau i'r gyfundrefn arian grant yng Nghymru a fydd yn deillio o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol a'r Rhaglen Ewropeaidd newydd ar gyfer 2014-2020;
 - gwella ein gwaith sy'n ystyried cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys yn benodol y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol;
 - cyhoeddi adroddiad cryno blynyddol ar GIG Cymru, gan ddefnyddio gwaith archwilio lleol i gyflwyno darlun cenedlaethol o berfformiad cymharol cyrff y GIG o ran materion ariannol a gwasanaethau; a
 - chyhoeddi adroddiad cryno blynyddol ar ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed yn y sector llywodraeth ganolog.
- 16 Bydd yr uchod yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth am ba mor effeithiol yw gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn gan ddefnyddio adnoddau presennol yn hytrach na cheisio arian ychwanegol neu gynyddu cyfraddau ffioedd a byddwn yn cofnodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ein hadroddiadau interim a blynyddol.

Helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus

- 17 Un o amcanion allweddol Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo yng nghyd-destun amgylchedd mwyfwy heriol a chymhleth. Rydym yn ceisio cynorthwyo cyrff cyhoeddus drwy nodi ffyrdd y gellir gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn glir a'u hyrwyddo. Rydym yn anelu at wneud hyn fel rhan o'n gwaith archwilio craidd a thrwy amrywiaeth o weithgarwch ychwanegol, megis y Gyfnewidfa Arfer Da. Mae gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol, a wneir yn uniongyrchol ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus neu gyda chyrrff a archwilir, yn darparu ymdriniaeth awdurdodol ac amserol o wariant a risgiau o ran gwerth am arian. Yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer gwella, mae ein hadroddiadau yn aml yn cynnwys astudiaethau achos o arfer da ac adnoddau ar gyfer gwella, yr ydym yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn gynyddol, mae canfyddiadau gwaith archwilio lleol yr Archwilydd Cyffredinol a'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwnnw wedi cyrraedd cynulleidfa ehangach, er enghraifft drwy hyrwyddo'r negeseuon hyn mewn adroddiadau cryno cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan, megis ei adroddiadau ar wasanaethau orthopedig a rhagnodi ym maes gofal sylfaenol sydd ar fin cael eu cyhoeddi. Mae ein gwaith archwilio yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ac yn ystyried lles hirdymor pobl Cymru. Er enghraifft, mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynnal archwiliadau gwerth am arian o faterion megis rhestrau aros y GIG; buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith band eang; gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru; ac effaith diwygiadau lles ar dai cymdeithasol.
- 18 Ers i ni gael ein sefydlu yn 2005, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio defnyddio a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith archwilio ymhlith gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt. Y prif adnodd ar gyfer casglu a hyrwyddo'r dysgu hwn yw'r Gyfnewidfa Arfer Da rydym wedi'i datblygu, sy'n darparu nifer fawr o adnoddau ar-lein am ddim. Mae ein dull o gyfnewid gwybodaeth wedi cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio gyda llwyddiant cynyddol dros y pum mlynedd diwethaf, yn arbennig drwy ein digwyddiadau dysgu ar y cyd poblogaidd lle y caiff yr hyn a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymharol ei rannu wyneb yn wyneb. Yn ystod 2013-14 mynychodd mwy na 600 o gynadleddwyr 17 o ddigwyddiadau dysgu ar y cyd a drefnwyd gennym a chafodd y deunyddiau a'r negeseuon o'r digwyddiadau hynny eu rhannu â chynulleidfa lawer ehangach drwy'r rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn cydweithio â sefydliadau eraill. Yn benodol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Arfer Da Cymru, sy'n borth ar-lein i arfer da a gwybodaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Blaenoriaethau busnes allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus

- 19 Wrth wneud ein gwaith yn 2015-16, bydd ein blaenoriaethau busnes allweddol ar gyfer helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella yn cynnwys y canlynol:
- Deall disgwyliadau a gofynion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn well, drwy ystyried barn aelodau am y cymorth rydym yn ei roi iddynt wneud eu gwaith craffu a'u barn am adroddiadau archwilio ungiol.
 - Ymestyn yr ystod o allbynnau archwilio i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad, a allai gynnwys sesiynau briffio; memoranda ffeithiol; a chrynodebau blynyddol o'n gwaith archwilio ariannol.
 - Rhoi trefniadau ar wahân ar waith er mwyn helpu i sicrhau y caiff archwiliadau adweithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n peri pryder i'r cyhoedd eu cyflawni'n amserol, heb amharu ar raglenni eraill o waith archwilio a gynlluniwyd.
 - Adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan ein gweithgareddau arfer da a dysgu ar y cyd drwy helpu rhanddeiliaid i droi syniadau yn welliannau pendant.
 - Gwella ein dealltwriaeth o sectorau a'n cydberthnasau â chyrrff a archwilir ymhellach er mwyn llywio ein rhaglen waith yn well a darparu 'archwiliadau amser real', gan gyfrannu at ddatblygiadau a gwelliannau wrth iddynt ddiwydd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.
 - Darparu sylwadau archwilio ar barodrwydd Cymru i gyflwyno pwerau cyllidol a'r cynnydd sydd wedi'i wneud ym mhob un o'r camau cynllunio a gweithredu.
- 20 Rydym yn ceisio £380,000 ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2015-16 er mwyn cyflawni agweddau ar yr uchod. Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio'r cyllid hwn ym [mharagraffau 21 i 32](#).

Gohebiaeth ac archwilio fforensig¹

- 21 Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y problemau a'r pryderon a godir gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig ynghylch y defnydd a wneir o arian cyhoeddus gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, gyda cheisiadau am i ymchwiliad archwilio gael ei gynnal i faterion o'r fath. Rhoddir ystyriaeth briodol i bryderon pob gohebydd a bydd ganddo hawl i gael ymateb o sylwedd. Bydd rhywfaint o ohebiaeth yn arwain at ymchwiliadau gwerth am arian llawn, megis yr adroddiad diweddar ar Ganolfan Cywain yn y Bala, yn ogystal â'r gwaith archwilio sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a Chronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Nid yw'r galw cynyddol hwn am y swyddogaeth archwilio a'r disgwyliadau cynyddol o ran y swyddogaeth honno yn unigryw i Gymru ac maent wedi'u profi gan y swyddfeydd archwilio ym mhob rhan arall o'r DU.

¹ Adroddiad Interim 2014-15 'Gohebiaeth a gwaith nas cynlluniwyd'

- 22 Mae un achos ar ei ben ei hun wedi costio cyllideb y flwyddyn gyfan sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob mater o'r fath. Rydym yn disgwyl i'r duedd gynyddol barhau wrth i gyrff cyhoeddus ddod o dan hyd yn oed fwy o bwysau a chael eu harchwilio llawer mwy mewn blynyddoedd i ddod. Mae dinasyddion sy'n pryderu a'u cynrychiolwyr etholedig, yn gywir ddigon, yn disgwyl ymateb amserol a thrylwyr gennym. Er mwyn ariannu'r gwaith hwn yn realistig yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i atgyfnerthu ein capasiti archwilio fforensig er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflymach heb amharu ar ein gwaith archwilio statudol, bydd angen £110,000 ychwanegol arnom o Gronfa Gyfunol Cymru. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y gwaith hwn yw £230,000 a byddwn yn darparu o leiaf £40,000 o'r gost hon drwy gamau effeithlonrwydd mewnol gyda'r gweddill yn dod o ffioedd a godir am waith archwilio ychwanegol sy'n deillio o'r problemau a godir.

Gwybodaeth sectoraidd strategol

- 23 Oherwydd natur ein rôl archwilio allanol rydym yn gallu cyrraedd amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae gennym wybodaeth a dealltwriaeth fanwl iawn o gyrff cyhoeddus unigol. Rydym yn darparu ystod o gyngor a chymorth i dimau gweithredol a'r rhai sy'n gyfrifol am graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau gweithredol. Rydym yn cymryd rhan fel 'sylwedyddion' mewn amrywiaeth eang o raglenni neu fyrddau prosiectau, gan ddiogelu annibyniaeth ein gwaith archwilio rhag penderfyniadau polisi, ond gan gynnig ein profiad a'n cyngor technegol er mwyn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau hyddysg a rheoli risg yn gadarn.
- 24 Mae tirwedd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn newid yn sylweddol yn sgil adroddiadau Comisiwn Williams a Chomisiwn Silk. Er mwyn sicrhau y gall y polisi a newidiadau arfaethedig eraill gael budd o gyngor a mewnbwn archwilio yn gynnar yn y broses o'u llunio, mae angen i ni bennu uwch aelodau o staff i weithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill. Ymhlith yr enghreifftiau o waith o'r fath, mae'r cymorth y mae angen i ni ei roi er mwyn helpu i ddatblygu swyddogaeth Trysorlys Cymru a darparu mewnbwn 'cyfaill beirniadol' i'r rhaglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn gofyn am feithrin cydberthnasau strategol â rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt er mwyn llywio syniadaeth, cefnogi newid ac adolygu effeithiolrwydd.
- 25 Mae'r arweinwyr sector ar gyfer iechyd a llywodraeth ganolog, a llywodraeth leol a chyfiawnder troseddol a benodwyd gennym yn ddiweddar yn darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi gwelliant. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu strategol hwn hefyd yn helpu i sicrhau bod ein rhaglenni cynllunio ac archwilio ein hunain yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o ddatblygiadau newydd ac arfaethedig yn y sector cyhoeddus. Yn ôl eu

natur, nid yw'n briodol talu cost y gwaith hwn drwy'r ffioedd archwilio a godir gennym ar gyfrif cyhoeddus unigol. Ar gyfer 2015-16, amcangyfrifir y bydd y capasiti hwn yn costio £130,000.

System archwilio newydd

- 26 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli cofnodion ac archwiliadau, y mae rhai ohonynt yn systemau a etifeddwyd gan y sefydliadau rhagflaenol, wedi datblygu dros amser wrth i Swyddfa Archwilio Cymru ddatblygu. Mae angen, sy'n bwysig i'r busnes, i ni gyflwyno system newydd ar gyfer gwaith archwilio ariannol am fod fersiwn y system rydym yn ei defnyddio ar hyn o bryd bellach yn ansefydlog ac ni chaiff ei chefnogi gan berchennog y system mwyach.
- 27 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynnig i gaffael system newydd i gynllunio, rheoli, cofnodi a storio ein gwaith archwilio a fydd hefyd yn rhesymoli ac yn symleiddio ein systemau TG gan y bydd hefyd yn disodli ein systemau cofnodi amser a rheoli adnoddau presennol.
- 28 Caiff ei sefydlu er mwyn ei threialu erbyn mis Mawrth 2015, a bydd yn rhannu arfer da â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland sydd wedi cyflwyno systemau tebyg yn ddiweddar ac yn dysgu gwersi o brofiadau'r ddau sefydliad hynny. Yn ystod 2015-16, byddwn yn cwblhau'r system ac yn ei sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn archwilio ariannol yn ystod hydref 2015. Drwy reoli ein hadnoddau'n ofalus yn 2014-15, byddwn yn ariannu costau'r buddsoddiad cychwynnol gan ddefnyddio adnoddau presennol yn hytrach na cheisio arian ychwanegol.
- 29 Ar gyfer 2015-16, bydd angen £90,000 ychwanegol arnom o Gronfa Gyfunol Cymru; bydd £40,000 yn cyfrannu at ein costau cychwynnol untro ac adnodd anariannol yw'r £50,000 sy'n weddill, sydd ei angen i dalu cost dibrisiant amcangyfrifedig y system newydd.
- 30 Ein huchelgais tymor hwy yw sefydlu system archwilio gyffredin ar gyfer y ddau fath gwahanol o archwiliad a gynhelir gennym er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithredol drwy ddwyn ein ffyrdd gwahanol o reoli cofnodion ac archwiliadau ynghyd o dan un system integredig, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chyrrff archwilio eraill y DU i ymchwilio i opsiynau yn y dyfodol wrth i'r farchnad ddatblygu.

Y Fenter Twyll Genedlaethol

- 31 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yn ymarfer cydweithredol a gynhelir ledled y DU bob dwy flynedd, sy'n paru data electronig yng nghyrrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat a rhyngddynt er mwyn atal a chanfod twyll. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth dros £26 miliwn yng Nghymru ac £1.17 biliwn ledled y DU. Mae arbedion yn effeithio ar gyllid cyhoeddus. Nid ydynt, o reidrwydd, yn effeithio ar y corff sydd wedi talu i gymryd rhan yn y Fenter. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi nodi'n glir ei fod yn awyddus i'r sector cyhoeddus chwarae mwy o ran yn y Fenter a chredwn y gellir hyrwyddo hyn drwy godi baich y gost oddi ar gyrff sy'n cymryd rhan yn y Fenter ac, yn lle hynny, ariannu'r gwaith o'n Hamcangyfrif a chan ddefnyddio arian a hawlir o Gronfa Gyfunol Cymru.
- 32 Mae'r Fenter yn cynhyrchu tua £1.5 miliwn o arbedion blynyddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, caiff y Fenter ei hariannu gan ffioedd a godir ar y cyrff unigol sy'n cymryd rhan ynddi, a all eu darbwylo rhag gwneud hynny ar adeg o gyfyngiadau ariannol yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o gofio y gallai'r manteision yn sgil yr arbedion a nodir ddigwydd rhywle arall. Er mwyn annog mwy i gymryd rhan yn y Fenter, rydym yn cynnig y dylai'r gwaith hwn gael ei ariannu yn y dyfodol gan ddefnyddio arian a hawlir o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae effaith ariannol gwneud hynny yn dilyn cylch dwy flynedd, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £50,000 yn 2015-16; a £100,000 yn y flwyddyn ganlynol.

Defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

- 33 Mae **Arddangosyn 7** yn nodi'r meysydd gwariant a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'r ffioedd a godir gennym ar gyrff a archwilir. Mae'r rhain yn gostau sydd â chysylltiad agosach â'r rôl a gyflawnir gennym ledled Cymru o ran darparu arweiniad ar faterion archwilio, pennu safonau, cyflawni polisïau'r Cynulliad a chefnogi gwaith craffu'r Cynulliad. Ar gyfer 2015-16, mae hyn yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen a drafodir uchod.

Arddangosyn 7: Defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 £'000
Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys astudiaethau adweithiol	1,760	1,760
Hyfforddi a datblygu staff ac archwilwyr dan hyfforddiant	820	820
Cymorth technegol, ymchwil a datblygu gan gynnwys cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd	744	744
Cyfnewidfa Arfer Da	540	540
Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol	530	530
Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol	420	420
Strwythur Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	300	300
Cyfrannu at gostau teithio Cymru gyfan	300	300
Cymhorthdal pontio ar gyfer ffioedd archwilio cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru	250	250
Paratoi ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'i gefnogi	122	122
Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill (paragraffau 21-22)	200	90
Gwybodaeth sectoraidd strategol (paragraffau 23-25)	130	-
Cyfraniad at gostau rheoli prosiect ar gyfer llwyfan archwilio newydd ynghyd â chostau dibrisiant ychwanegol (paragraffau 26-30)	90	-
Y Fenter Twyll Genedlaethol (paragraffau 31-32)	50	-
Cyfanswm y gofyniad gwariant referniw	6,256	5,876

Buddsoddi Cyfalaf

- 34 Mae ein darpariaeth o ran buddsoddiad cyfalaf wedi lleihau o £98,000 yn 2014-15 i £50,000 ar gyfer 2015-16. Mae angen y swm hwn o £50,000 er mwyn talu am waith arfaethedig i adnewyddu'r seilwaith TG ynghyd â chostau adleoli posibl ein swyddfa yng Ngogledd Cymru.

Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2016

- 35 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- 36 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilydd penodedig llywodraeth leol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2016, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:
- yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
 - yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; ac
 - y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.
- 37 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn **Nhabl 1**.

Tabl 1: Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2015-16

	£'000
Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilydd penodedig llywodraeth leol, a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	6,256
• Cyfalaf	50
Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio ac ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a gafwyd i ariannu gwasanaethau archwilio; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith – i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac archwilydd penodedig llywodraeth leol, ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	17,324
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	6,146

38 Mae **Tabl 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2016.

Tabl 2: Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	£'000
Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf	6,306
Addasiad anariannol - dibrisiant a chroniadau	(160)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru	6,146

Graddfeydd Ffioedd a Chyfraddau Ffioedd Drafft 2015

- 39 Nid ydym yn cynhyrchu elw o'n ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni ddylem *godi mwy na chost lawn cyflawni swyddogaeth*. Cyfrifir cyfraddau ffioedd drwy rannu cyfanswm ein costau amcangyfrifedig, heblaw am y rhai a delir gan Gronfa Gyfunol Cymru, â faint o waith archwilio a wneir yn ystod y flwyddyn.
- 40 Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gleientiaid a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae'n anochel y bydd yr union wariant, cymysgedd sgiliau a diwrnodau gwaith yn amrywio ac, o bryd i'w gilydd, ceir bod y ffi a bennwyd yn fwy na'r costau gwirioneddol yr awn iddynt. Ar adegau o'r fath, byddwn yn rhoi ad-daliad. Os bydd y gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, ac os na ellir talu'r gost ychwanegol o adnoddau a ddarperir gan Gynigion Cyllidebol y Cynulliad, byddwn yn codi ffi uwch, yn unol â deddfwriaeth.
- 41 O ganlyniad, mae ein trefniadau ar gyfer codi ffioedd yn gymhleth, yn llafurus ac yn ddrud i'w gweinyddu ac mae rhai yn ystyried nad ydynt yn gwneud dim mwy na chylchredeg arian o fewn y sector cyhoeddus. Mae ein rhanddeiliaid yn dweud wrthym yr hoffent i ni ddod o hyd i fodel symlach ar gyfer adennill costau archwiliadau cyhoeddus ac rydym yn awyddus i ystyried systemau amgen ymhellach. Un agwedd ar hyn rydym yn bwriadu ei newid ar gyfer 2015-16 yw'r gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter). Mae ein cynigion i hawlio cyllid uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn lle'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir wedi'u nodi ym **mharagraff 31**.
- 42 Ar gyfer 2014-15, o ganlyniad i adolygiad o'n model costio, a gynhaliwyd mewn ymateb i ofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n nodi na ddylid codi mwy na chost lawn swyddogaeth, ynghyd â newid i'n statws TAW a wnaed gan Gyllid a Thollau EM, roedd angen cynyddu cyfraddau rhai ffioedd archwilio.
- 43 Ar gyfer 2015-16, gwnaeth y Bwrdd ymrwymiad clir i helpu cyrff cyhoeddus yn y cyfnod anodd hwn: **dim cynnydd mewn cyfraddau ffioedd**.
- 44 Am y tro cyntaf rydym wedi cynnwys graddfeydd ffioedd a chyfraddau ffioedd drafft y bwriedir eu codi ar gyrff cyhoeddus yn y ddogfen Amcangyfrif hon (**Atodiad 3**). Ystyriwn fod hwn yn gam pwysig o ran sicrhau mwy o dryloywder a dangos y gydberthynas rhwng cyfraddau ffioedd a'r Amcangyfrif a gymeradwywyd. Ar ôl i'r Amcangyfrif gael ei gymeradwyo, byddwn yn cyflwyno ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2015-16 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w gymeradwyo ac yn hysbysu cyrff a archwilir o'u ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn.

- 45 Rydym wedi cyfrifo graddfeydd ffioedd drwy gymhwysu cyfraddau fesul awr at y mewnbwn archwilio amcangyfrifedig ar gyfer corff nodweddiadol a archwilir yn y sectorau a ddangosir. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adennill mwy na chost lawn y gwaith archwilio a wnaed. Bydd y ffioedd ar gyfer cyrff unigol a archwilir yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond fel arfer byddai disgwyl iddynt ddod o fewn y graddfeydd ffioedd atodedig.
- 46 Ym mis Medi 2014, gwnaethom gynnal yr ymgynghoriad statudol ynghylch ein graddfeydd ffioedd ar gyfer 2015-16 gyda chyrrff llywodraeth leol, ar sail ymrwymiad y Bwrdd i beidio â chynyddu cyfraddau ffioedd. Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad y canlynol:
- mae'r penderfyniad i rewi cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd i'w groesawu'n fawr yng nghyd-destun y pwysau ariannu ar y sector cyhoeddus;
 - mae'r sefydliadau yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran rheoli costau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd;
 - mae galw am fwy o dryloywder o ran y ffioedd a godir;
 - maent am i ffioedd fod yn fwy cymesur â risg a maint y sefydliad; a
 - disgwylir effeithlonrwydd ac arloesi parhaus o ran darparu gwasanaethau er mwyn lleihau cost gwaith archwilio mewn blynyddoedd i ddod.
- 47 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth hwn a bydd yn ymateb drwy'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2015-16 a'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

Rhagolwg

- 48 Mae'r sefyllfa sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei gwaith archwilio cyhoeddus yn un gymhleth yn y byrdymor, ac mae'n cynnwys y canlynol:
- Rhaglen ddeddfwriaethol a chyfundrefn archwilio perfformiad Llywodraeth Cymru ac unrhyw effeithiau ar waith Swyddfa Archwilio Cymru. Byddai hyn yn cynnwys effeithiau datganoli rhagor o bwerau.
 - Llai o waith ceisiadau am grant i Swyddfa Archwilio Cymru yn sgil penderfyniad y cyrff dyfarnu grant i symleiddio gofynion archwilio.
 - Y bwriad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach, gydag effeithiau canlyniadol ar adnoddau ar draws llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru.
 - Y bwriad i ailgyflunio strwythur llywodraeth leol, gan leihau nifer yr awdurdodau unedol, sef 22 ar hyn o bryd, ac ailstrwythuro, o bosibl, yr awdurdodau parciau cenedlaethol. Gall hyn gynnwys uno gwirfoddol.
 - Fel rhan o'r newidiadau uchod, byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn yr ohebiaeth a'r gwaith adweithiol cysylltiedig y bydd disgwyl i ni ei reoli.
 - Cyfyngiadau ariannol parhaus ar y sector cyhoeddus.
 - Y cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus yn cystadlu â chyflogau archwilwyr yn y sector preifat.
- 49 Mae'r Bwrdd a'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n cynllunio ar gyfer yr effeithiau fel na fyddant yn gostwng safon gwaith archwilio nac yn peryglu effeithlonrwydd ein gwaith archwilio, drwy wneud y canlynol:
- pennu targed blynyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd drwy ein Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – er mwyn helpu i sicrhau y caiff pob punt a wariwn yr effaith fwyaf posibl;
 - newid y cymysgedd o waith archwilio er mwyn sicrhau bod mwy o waith yn cael ei wneud yn fewnol a chwtogi ar y gwaith a gwblheir gan y cwmnïau archwilio – er mwyn sicrhau ein bod mor barod ag y gallwn fod ar gyfer newidiadau yn y llwyth gwaith yn y dyfodol;
 - adolygu ein strategaeth cynllunio'r gweithlu ac ystyried y cymysgedd o sgiliau a model y gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol - fel y gallwn ail-lunio ein gweithlu dros amser, gan gydnabod na ellir cyflawni newidiadau o'r fath dros nos; ac
 - atgyfnerthu ein gwybodaeth strategol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol.
- 50 Bydd ein hamcangyfrifon blynyddol a'n hadroddiadau interim a blynyddol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad, yn dangos bob blwyddyn sut rydym yn wynebu'r heriau ac yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

Atodiad 1

Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

Dadansoddiad o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

		Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 £'000	Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 £'000
Treuliau	Costau staff	14,828	14,066
	Staff contractwyr	862	897
	Teithio a chynhaliath	1,319	1,120
	Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW)	2,728	3,658
	Llety	971	951
	TGCh	524	555
	Balans TAW anadenilladwy	500	290
	Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru	300	300
	Hyfforddiant allanol	266	284
	Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	203	253
	Cyfieithu dogfennau	110	110
	Costau eraill	969	1,031
	CYFANSWM Y TREULIAU	23,580	23,515
	Incwm	Ffioedd archwilio	14,139
Ffioedd ardystio grantiau		2,279	2,429
Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru		906	1,006
CYFANSWM YR INCWM		17,324	17,639
Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru		6,256	5,876

Dadansoddiad o incwm o ffioedd 2015-16

Sector	Archwilio cyfrifon £'000	Archwilio perfformiad £'000	Ardystio grantiau £'000	Cyfanswm £'000
Cyrff llywodraeth leol	5,802	2,636	1,931	10,369
Cyrff llywodraeth ganolog	1,712	-	344	2,056
Cyrff y GIG	2,262	1,279	4	3,545
Incwm arall	371	77	-	448
Cyfanswm yr incwm o ffioedd	10,147	3,992	2,279	16,418

Atodiad 2

Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig

Gweithgaredd	Graddfa	Ffynhonnell y cyllid
Archwilio cyfrifon a baratowyd gan lywodraeth ganolog a chyrrff iechyd	Chwe set o gyfrifon a baratowyd gan Lywodraeth Cymru; 31 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; wyth corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, saith bwrdd iechyd; a thair o Ymddiriedolaethau'r GIG.	Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru
Archwilio cyfrifon a baratowyd gan gyrff llywodraeth leol	22 o awdurdodau unedol, pedwar awdurdod heddlu, tri awdurdod tân ac achub, un o ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf, tri awdurdod parc cenedlaethol, un bwrdd draenio mewnol, wyth cronfa bensiwn a thua 750 o gynghorau cymuned a chyrrff bach eraill.	Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.
Asesiadau gwella llywodraeth leol	Mae'n cynnwys cynnal archwiliadau blynyddol i nodi a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau ar berfformiad; asesiadau blynyddol o'r tebygolrwydd y byddant yn cydymffurfio â dyletswyddau gwella; asesiadau corfforaethol manwl, cylchol ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnwyd mewn 28 o awdurdodau gwella, (y 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol).	Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi gwaith asesu gwelliant.
Gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrrff iechyd	Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnwyd mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG.	Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.
Ardystio hawliadau a ffurflenni grant	Tri deg o gynlluniau llywodraeth leol (tua 650 o hawliadau sy'n werth cyfanswm o tua £3 biliwn), ochr yn ochr â hawliadau am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd lle mae cyfanswm gwerth blynyddol yr hawliadau tua £300 miliwn.	Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.
Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian	Fel arfer, cynhelir tua 12 o archwiliadau, astudiaethau ac allbynnau eraill bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt 'system gyfan' neu o safbwynt 'trawsbyncio', lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.	Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
Cyfnewidfa Arfer Da	Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac arfer da.	Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.
Gweithgareddau pwysig eraill	Mae'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru; ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol; ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill; cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. 	Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ariennir rhai gweithgareddau hefyd gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir.

Atodiad 3

Darnau o'r ddogfen ymgynghori ar Raddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol mis Medi 2014

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys darnau o'r ddogfen ymgynghori ar Raddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014.

Mae'r tablau'n cynnwys ystodau ffioedd nodweddiadol yn ôl y math o awdurdod dan sylw a'i faint. Fel arfer, byddem yn disgwyl i ffi awdurdod gyfateb i ganolrif yr ystod ffioedd. Mae ffi isaf yr ystod yn adlewyrchu agweddau ansawdd gwell awdurdod ar gyfer y gwaith archwilio; mae'r ffi uchaf yn adlewyrchu agweddau mwy cymhleth.

Mae'r ffi wirioneddol a bennir ar gyfer awdurdod yn seiliedig ar ein profiad yn yr awdurdod hwnnw. Bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo unrhyw ffioedd nad ydynt yn cyd-fynd â'r graddfeydd ffioedd hyn.

Awdurdodau unedol


Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
100	119	140	161	140
200	143	168	193	168
300	159	187	215	187
400	172	202	232	202
500	182	215	247	215
600	191	225	259	225
700	199	235	270	235
800	207	243	280	243
900	213	251	289	251
1,000	219	258	297	258
1,100	225	265	304	265
1,200	230	271	312	271

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2015-16

Pob awdurdod unedol	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
	94	112	130	117

Graff o'r raddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15 awdurdodau unedol



Awdurdodau tân ac achub


Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
20	35	41	47	41
40	42	49	57	49
60	47	55	63	55
80	50	59	68	59
100	53	63	72	63

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2015-16

Pob awdurdod tân ac achub	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
	10	15	20	16

Graff o'r raddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15 awdurdodau tân ac achub



Awdurdodau parciau cenedlaethol


Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15

Gwariant gros £000,000	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
2	22	25	29	25
4	26	31	35	31
6	29	34	39	34
8	31	37	42	37
10	33	39	45	39

Graddfa ffioedd am archwiliadau ac asesiadau gwella 2015-16

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
	5	7	9	7

Graff o'r raddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15 awdurdodau parciau cenedlaethol




Comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiliaid

Mae archwilwyr yn archwilio dau gorff statudol mewn ardal heddlu, sef Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabiliaid. Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15

Gwariant gros cyfun Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid £000,000	Ystod ffioedd cyfun ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
50	61	70	79	76
100	71	83	94	89
150	79	91	104	97
200	84	98	111	104
250	89	103	118	109
300	93	108	123	114
350	96	112	128	118

Graff o'r raddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15 comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabiaid



Cynghorau tref a chymuned

Mae cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant o hyd at £1 filiwn yn cael eu harchwilio ar sail 'sicrwydd cyfyngedig'. Mae'r ffioedd am yr archwiliadau hyn yn amrywio yn ôl trosiant blynyddol.

O dan amgylchiadau lle mae angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd, a chodir ffioedd ychwanegol yn gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno un math o archwiliad ar gyfer pob cyngor tref a chymuned yn lle'r archwiliadau dwy haen presennol (sylfaenol/canolradd), o flwyddyn cyfrifon 2015-16 ymlaen. Bydd y drefn ddiwygiedig yn annog cynghorau i ganolbwyntio ar wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, ac yn arwain at fwy o adroddiadau cyhoeddus ar faterion sy'n deillio o waith archwilio.

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15 cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant o hyd at £1,000,000

Incwm neu wariant blynyddol (telir ffioedd yn seiliedig ar ba un bynnag sydd fwyaf bob blwyddyn)	Math o archwiliad	Ffi arfaethedig	Ffi a godwyd y llynedd
£100 – £1,000	Sylfaenol	£30	£30
£1,001 – £5,000	Sylfaenol	£80	£80
£5,001 – £10,000	Sylfaenol	£175	£175
£10,001 – £30,000	Sylfaenol	£205	£205
£30,001 – £60,000	Sylfaenol	£295	£295
£60,001 – £100,000	Sylfaenol	£350	£350
£100,001 – £200,000	Sylfaenol	£415	£415
£200,001 – £300,000	Canolradd	£650	£650
£300,001 – £400,000	Canolradd	£650	£650
£400,001 – £500,000	Canolradd	£650	£650
£500,001 – £750,000	Canolradd	£920	£920
£750,001 – £1,000,000	Canolradd	£920	£920

Cronfeydd pensiwn

Graddfa ffioedd am archwilio cyfrifon 2014-15

Pob cronfa pensiwn	Ystod ffioedd £000			Canolrif y flwyddyn flaenorol £000
	Lleiafswm	Canolrif	Uchafswm	
	30	40	50	40

Menter Twyll Genedlaethol 2014-15

Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i drechu twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru bob dwy flynedd. Caiff y Fenter ei chynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter ynparu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter wedi bod yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at ganfod ac atal gwerth mwy na £26 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru ac £1.17 biliwn ledled y DU.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter o dan ei bwerau paru data statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Dangosir isod y ffioedd statudol arfaethedig am goladu data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn 2014-15.

Math o gorff	2010-11 (£)	2012-13 (£)	2014-15 (£)
Awdurdod unedol	3,650	3,650	3,650
Comisiynwyr yr heddlu a throseddau	1,000	1,000	1,000
Awdurdod tân ac achub	1,000	1,000	1,000
Ymddiriedolaeth y GIG	1,000	1,000	1,000
Bwrdd Iechyd Lleol	3,650	3,650	1,000

Mae comisiynwyr yr heddlu a throseddau a phrif gwnstabiliaid yn gorfod cymryd rhan. Cynigiwn y dylid codi £1,000 ar gorff yr heddlu ym mhob ardal a fydd yn cyflwyno data ar ran y ddau gorff.

Cynhelir y Fenter Twyll Genedlaethol dros gyfnod o ddwy flynedd, felly mae'r raddfa ffioedd rydym yn ymgynghori yn ei chylch yn cwmpasu'r ddwy flwyddyn ariannol 2014-15 a 2015-16. Byddwn yn anfon un bil am ein gwaith i sefydliadau sy'n gorfod cymryd rhan, ym mis Ionawr 2015 yn ôl pob tebyg, ar gyfer y cam coladu data o'r ymarfer.

Mae'r Amcangyfrif hwn yn cynnig y dylid trosglwyddo cost gwaith archwilio dilynol i'r Fenter Twyll Genedlaethol am gyfanswm cost o £50,000 yn 2015-16.

Cyfraddau ffioedd am waith arall

Archwiliadau o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sydd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol archwilwyr, a gwaith ardystio grantiau

Ar wahân i'r mathau hynny o gyrff y rhagnodwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol. Ar gyfer archwiliadau o'r gyrff hyn, caiff dull cynllunio archwiliadau seiliedig ar sero ei ddefnyddio o hyd, a chaiff y gofynion o ran adnoddau eu trosi'n ffioedd sy'n uniongyrchol seiliedig ar gostau cyflawni'r gwaith.

Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â her etholaethol ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith dan sylw.

Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn gyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y gyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn fesul diwrnod ac maent yn adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

Ym mhob un o'r achosion hyn, caiff ffioedd eu codi ar sail y cyfraddau ffioedd a nodir isod. Efallai y bydd cyfraddau uwch yn briodol ar gyfer darnau penodol o waith, sy'n galw am sgiliau arbenigol. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i'r archwilydd ymgynghori â Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw.

Cyfraddau ffoedd am waith arall

Graddfa staff		Cyfradd ffoedd fesul awr
Archwiliad ariannol	Arweinydd ymgysylltu	£162
	Rheolwr yr archwiliad	£111
	Arweinydd tîm	£75
	Aelod o'r tîm	£56
	Swyddog dan hyfforddiant	£45
Archwiliad perfformiad	Arweinydd ymgysylltu	£162
	Rheolwr yr archwiliad perfformiad	£111
	Arweinydd yr archwiliad perfformiad	£93
	Archwilydd Perfformiad	£65

Isod, ceir amcangyfrifon o gyfrannau perthynol y graddfeydd staff archwiliadau ariannol a ddefnyddir ar gyfer y mathau gwahanol o waith ar grantiau.

Amcangyfrif o'r cymysgedd staff ar gyfer gwaith ardystio grantiau

Graddfa staff	Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth %	Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill %
Arweinydd ymgysylltu	1 i 2	0 i 1
Rheolwr yr archwiliad	4 i 6	1 i 2
Arweinydd tîm	18 i 21	12 i 16
Aelod o'r tîm/swyddog dan hyfforddiant/technegydd	77 i 71	87 i 81

Mae'r grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- EUR01 Cronfeydd strwythurol
- HOU03 Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (awdurdodau nad ydynt yn trosglwyddo stoc)
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Gwaith atodol

Caiff cyrff a archwilir a mathau penodol eraill o gyrff wneud trefniadau â Swyddfa Archwilio Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol.

Ni dderbynnir gwaith o'r fath os gallai beryglu annibyniaeth ac uniondeb archwiliadau neu os gellid ystyried ei fod yn gwneud hynny, oni ellir rhoi mesurau lliniaru a rheolaethau priodol ar waith.

Os gellir cyflawni gwaith o'r fath o fewn y rheolau hyn, bydd y ffioedd a godir yn cydymffurfio â'r Cynllun Ffioedd cyhoeddedig mewn perthynas â staff Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad. O ran staff eraill, cytunir ar gyfraddau heb fod yn fwy na chost lawn y gwaith.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Wales Audit Office
Final Audit Findings Report**

Year ended 31 March 2014

**Presented to those charged with Governance
by Baker Tilly UK Audit LLP
on 16 June 2014**

Tudalen y pecyn 161

Contents

1	<i>Introduction and coverage</i>	2
2	<i>Qualitative aspects of earnings</i>	3
3	<i>Audit and accounting issues identified at planning stage</i>	4
4	<i>Audit and accounting issues identified during the audit</i>	8
5	<i>Unadjusted/adjusted misstatements</i>	10
6	<i>Control recommendations</i>	12
7	<i>Significant accounting policies, disclosures and estimates</i>	13
8	<i>Fees</i>	14
9	<i>Independence</i>	14
	<i>Appendix A – Draft letter of representation</i>	15
	<i>Appendix B - Updated financial reporting developments</i>	21

Tudalen y pecyn 162

This report has been prepared for the sole use of the Wales Audit Office and must not be disclosed to any third party, or quoted or referred to, without our written consent. No responsibility is assumed to any other person in respect of this report.

1 Introduction and coverage

This report summarises our key findings in connection with the audit of the financial statements of the Wales Audit Office in respect of the year ended 31 March 2014.

The scope of our work has already been communicated to you via our Audit Plan document.

A summary of adjusted and unadjusted misstatements identified during the audits has been prepared and is included in Section 5.

We consider that the audit approach adopted will provide the audit committee with the required confidence that a thorough and robust audit has been carried out and can confirm that, at the date of this report, we anticipate no modifications from our pro-forma audit report provided in the Audit Plan previously communicated to you.

No regularity issues were noted during the course of our work for the attention of the audit committee.

2 Qualitative aspects of earnings

The purpose of this section is to bring to the attention of those charged with governance not only those matters that properly fall to be treated as exceptional items, but also those matters of significance that are non-recurring in nature

The table below sets out the significant one-off items that have affected reported results for the year:

	£'000
Total comprehensive net expenditure	6,286
Adjustments:	
Redistribution of reserves	1,633
Underlying comprehensive net expenditure	<u>4,653</u>

Tudalen y pecyn 164

Under the new Government of Wales Act the AGW is no longer able to retain reserves from local government work. All reserves must be repaid to the WCF. Therefore the retained earnings of £1,192 brought forward and the surplus retained in year of £441,000 either had to be refunded to the LG bodies or would be repayable next financial year to the WCF.

3 Audit and accounting issues identified at planning stage

Tudalen y pecyn 165

Key area of audit focus	Our approach	Resolution
<p>Budgeting and cost allocation</p> <p>Correct cost allocation between local authority activity and central government/NHS activity. The cost allocation is key to determining the budget and presenting the outturn position.</p>	<p>We will review that the basis of cost allocation used for the resource accounts is consistent with the method used for the estimate.</p> <p>As in prior years we will review the calculations to ensure that the underlying principals used remain reasonable and appropriate to the circumstances of the Office</p>	<p>In the first draft there were adjustments to the net cash requirement which had not been included in the original estimate.</p> <p>Management consider that the line for adjustments is just a reconciliation note and not a control total and therefore it is still appropriate to include these in the final out-turn in line with prior years.</p> <p>If these reconciliation adjustments were not included then the amount payable to the WCF would increase by £209k with a corresponding reduction in amounts payable to Local government bodies.</p> <p>In future years the Estimate will include estimated amounts in the reconciliation note to aid clarity.</p> <p>Other calculations are in line with the estimate basis and reasonable judgements have been applied.</p>

Key area of audit focus	Our approach	Resolution
<p>Income recognition and work in progress</p> <p>There are a number of contracts which span the year end. There is a risk that revenue and costs are not appropriately recognised on these contracts.</p>	<p>During the audit of the 2013-14 resource accounts, we will:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Review a sample of WIP and ensure correctly valued at the lower of costs and fee quotes. • Agree a sample of costs through to complete and accurate inclusion in the accounts. • Review a sample of income to evidence of performance of the work 	<p>No issues identified with the valuation of WIP for our sample.</p> <p>Sample of WIP agreed to timesheets and employment costs appropriately recognised.</p> <p>Sample agreed back to evidence of work performed and no issues identified.</p>
<p>Enhanced pension provision</p> <p>Calculation of the enhanced pension provision There is a risk that the enhanced pension provision may be misstated.</p>	<p>Review calculation of early retirement and severance provision. Consider the impact of any early retirements and severances arising during the period. Agree to confirmation from pension provider.</p>	<p>We have reviewed the calculation of the early retirement and severance provision and considered the impact of any early retirement and severances. No significant issues were identified.</p>

Tudalen y pecyn 167

Key area of audit focus	Our approach	Resolution
<p>Refund of reserves to local government bodies</p> <p>Following the Public Audit (Wales) Act 2013 Act the Wales Audit Office will become a corporate body from 1 April 2014.</p> <p>The Auditor General for Wales is considering paying any surplus reserves back to local government bodies as a refund of fees historically charged. This will be reflected as a provision in the accounts</p>	<p>A provision can only be recognised if there is a legal or constructive obligation at the year end to make repayment. Review correspondence with the local government bodies and consider whether there is a legal or constructive obligation at the balance sheet date.</p> <p>Review disclosures in the accounts in respect of the provision to confirm in line with requirements of ISA's and FReM.</p>	<p>During the year, both through the Estimate and through the Fee scale publication, the AGW made clear his intentions to return these funds to the LG bodies, thereby creating a valid expectation that the monies would be returned and a constructive obligation at the year end. This has been recognised as a creditor due within one year in the financial statements as it is expected to be paid out in July.</p>
<p>Provisions for displacements and red circled employees</p> <p>The WAO is undertaking restructuring during the year. At the year end there may be staff who are displaced under this process. Additionally other staff members will be re-graded or red circled. The pay policy will guarantee the salary of any person who has been red circled for a period of 4 years.</p>	<p>Consider whether a legal or constructive obligation exists in respect of these individuals at the year end.</p> <p>Based on a draft review of the organisational change policy we do not expect a provision to arise unless displaced employees have been notified of redundancy at the year end. No additional provision is expected in respect of red-circle employees as the salary is for future services and would not be payable if the staff member were to leave the office.</p>	<p>There are four employees who have taken voluntary exit within the year. We have reviewed correspondence with these individuals and confirmed that a constructive obligation exists at the year end.</p>

Key area of audit focus	Our approach	Resolution
<p>Reputation</p> <p>Due to public interest in the financial statements there is a desire to maintain reputation and demonstrate exemplary financial management. Accounting judgements may be influenced by the desire to demonstrate good financial management and remain within the Estimate.</p>	<p>Review of judgemental aspects in year-end balances particularly focusing on any;</p> <ul style="list-style-type: none"> - Round sum provisions - Estimates - Recoverability of debtors - Disclosure of remuneration 	<p>We have not identified any unusual accounting judgements or round sum provisions from our work performed.</p>

Tudalen y pecyn 168

4 Audit and accounting issues identified during the audit

Work in Progress

It was noted during the course of our audit work that the current method of accounting for work in progress where other firms undertake the work results in a net work in progress position being reflected rather than a gross position. When the entries to reflect the amount of work completed are processed each month, the correct entries are reflected in the SoCNE but the balance sheet entries are all offset to work in progress.

A disclosure journal to gross up the accrued income due from clients and the accrued costs due to firms has been processed. This has not impact on the SoCNE. The comparative position has not been calculated but has assumed to be a similar value to the current year and therefore comparatives have not been restated as the impact is not considered material to the financial statements.

We recommend that the process for posting these entries is reviewed to ensure that the balances are not offset.

AGW and Board Salaries

- Deg barn archwilio ariannol ar gyfrifon cyrff iechyd erbyn 30 Mehefin (yn unol â'r cynllun). Roedd tair barn wedi'u hamodi yn sgil achosion o dorri terfynau adnoddau awdurdodedig gan fyrddau iechyd lleol, a chyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd adroddiadau o sylwedd (ond heb amodi ei farn) ar gyfrifon tri bwrdd iechyd arall.
- Un ar hugain o farnau archwilio ariannol ar gyfrifon llywodraeth leol yn unol â'r cynllun. Roedd y farn ar gyfrifon cryno'r byrddau iechyd lleol wedi'i hamodi a chyflwynwyd adroddiad o sylwedd yn deillio o'r amodau ar gyfrifon sylfaenol byrddau iechyd unigol.
- Barn un llywodraeth leol ar yr ymddiriedolaeth prawf erbyn 30 Mehefin, a 39 o farnau ar gyfrifon prif gyrff llywodraeth leol erbyn 30 Medi. Disgwyliwyd i ddwy farn arall gael eu cyflwyno erbyn 30 Medi, ond gohiriwyd un ohonynt hyd nes y caiff gwrthwynebiad ffurfiol mewn perthynas â chyfrifon y Cyngor ei ddatrys, ac roedd y gwaith o lofnodi'r farn archwilio ar gyfer Cyngor arall wythnos yn hwyr oherwydd digwyddiad ôl-fantolen a gododd ar fore 30 Medi.

Ardystio grantiau

- 14 Mae grantiau yn ffynhonnell allweddol o arian yng Nghymru ac yn 2014-15, disgwyliwn ardystio 32 o gynlluniau grant llywodraeth leol gwerth £3 biliwn. Mae trefniadau ardystio manwl eisoes wedi'u gwneud ar gyfer 22 o'r 32 o gynlluniau ac mae negodiadau'n mynd rhagddynt ag arianwyr y 10 cynllun sy'n weddill er mwyn i archwilwyr allu dechrau eu gwaith erbyn 30 Medi, neu'n fuan wedi hynny, sef y dyddiad y dylai awdurdodau fod wedi cwblhau eu hawliadau yn barod ar gyfer eu hardystio. Disgwylir tua 650 o hawliadau unigol ar draws y 32 o gynlluniau gwahanol, ac mae archwilwyr yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Chwefror 2015.
- 15 Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn perthynas â diddymu'r system budd-dal tai a chwblhau'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae DWP yn disgwyl y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn 2017 ac, oherwydd y dylai gael ei weinyddu'n llawn gan DWP, ni fyddai gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae mwyach wrth gynorthwyo hawlwr gyda'u costau tai. Byddai hyn yn arwain at derfynu ein gwaith ardystio budd-daliadau mewn awdurdodau lleol a bydd colli'r llwyth gwaith hwn a'r incwm cysylltiedig yn cael ei gydnabod yn ein cynlluniau ariannol a gweithlu tymor canolig.
- 16 Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi diwygio ei threfniadau ar gyfer archwilio rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 sydd ar y gweill, ac ni fydd unrhyw ofyniad mwyach i gyfrifwyr adrodd (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru) ardystio hawliadau yn y fframwaith hwn. Yn lle hynny, caiff yr holl archwiliadau a rheolaethau ar gyfer rhaglen 2014-2020 eu cynnal gan WEFO ei hun. Rydym yn parhau i archwilio hawliadau gweddilliol o raglen 2007-2013 ond, wrth i'r prosiectau presennol ddod i ben, daw ein gwaith yn y maes hwn i ben yn y pen draw. Disgwylir i hyn leihau ein hincwm blynyddol £550,000 ac mae hyn eisoes wedi cael ei ystyried yn ein cynllun ariannol tymor canolig.

Gwaith ymatebol mewn llywodraeth leol

- 17 Mae deddfwriaeth yn rhoi'r hawl i etholwyr godi cwestiynau a gwrthwynebiadau gyda'r Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr penodedig mewn perthynas â'r cyfrifon. Ceir hefyd hawliau cyffredinol i godi pryderon am y ffordd y mae cyrff llywodraeth leol yn defnyddio arian cyhoeddus. Gall hyn arwain at ohebiaeth helaeth ac archwilio cofnodion awdurdodau lleol, a gall arwain at gyhoeddi adroddiad cyhoeddus. Rydym yn parhau i ymateb i ohebiaeth a geir gan aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud â'r pwerau cyfreithiol penodol hyn, ond nid oes unrhyw ohebiaeth wedi arwain at gyhoeddi adroddiad cyhoeddus yn ystod y cyfnod ers mis Ebrill 2014. Manylir ar ein gwaith mewn ymateb i ohebiaeth arall ym [mharagraffau 26 i 28](#).

Archwilio perfformiad

- 18 Nod ein gwaith archwilio perfformiad yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac, yn gyffredinol, mae'n perthyn i dair ffrwd fusnes:
- rhaglen dreigl o astudiaethau gwerth am arian i gefnogi gwaith craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) y Cynulliad Cenedlaethol;
 - byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG: sy'n cynnwys rhaglen flynyddol o astudiaethau Cymru gyfan o gyrff y GIG a rhai prosiectau archwilio perfformiad pwrpasol lleol; a
 - llywodraeth leol (gan gynnwys parciau cenedlaethol a'r gwasanaethau tân ac achub); sy'n cynnwys rhaglen flynyddol o waith asesu gwelliant o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 ochr yn ochr â rhaglen o astudiaethau o gyrff llywodraeth leol.

Gwaith perfformiad cenedlaethol (gan gynnwys astudiaethau gwerth am arian)

- 19 Mae Cynllun Blynyddol 2014-15 yn crynhoi'r corff sylweddol o waith archwilio perfformiad cenedlaethol o fewn rhaglenni gwaith parhaus yr Archwilydd Cyffredinol, a all gwmpasu'r tair ffrwd gweithgarwch archwilio perfformiad a ddisgrifiwyd uchod. Yn ystod y chwe mis ers 1 Ebrill 2014, cyhoeddwyd wyth adroddiad:
- Arian cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, y Bala
 - Cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, 2007-2013
 - Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) - adroddiad ar astudiaeth gwerth am arian
 - Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru
 - Craffu ym maes Llywodraeth Leol
 - Menter Twyll Genedlaethol 2012-13
 - Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
 - Glastir (cynllun grantiau amaeth-amgylchedd)

- 20 Bwriadwn gyhoeddi o leiaf chwe adroddiad pellach yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2014 a mis Mawrth 2015 a fydd, ar y cyd â'r gwaith yr adroddwyd arno eisoes, yn helpu i gyflawni ymrwymiad yr Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno rhwng 10 a 12 o gynhyrchion y flwyddyn i'w hystyried gan y PCC. O blith y rhain, mae dau adroddiad eisoes wedi'u cyhoeddi ym mis Hydref ar y canlynol:
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau lleol 2012-13
 - GIG Cymru: trosolwg o berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau 2013-14
- 21 Ymhlith yr allbynnau eraill y bwriedir eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn mae'r adroddiad ar amseroedd aros y GIG, adroddiad ar astudiaeth genedlaethol llywodraeth leol, lechyd yr Amgylchedd (Cyflawni â Llai), a nifer o adroddiadau sy'n deillio o ohebiaeth a gwaith nas cynlluniwyd fel yr amlinellir ym [mharagraff 27](#) a [28](#).

Perfformiad y GIG

- 22 Yn ystod y cyfnod, rydym wedi cwblhau gwaith archwilio perfformiad lleol yng nghyffwrdd y GIG ar godio clinigol, ac mae ein gwaith lleol ar Nyrsio Ardal ar fin cael ei gwblhau. Mae elfen y gwaith ynghylch cynllunio a datblygu Aseiad Strwythuredig 2014 wedi'i chwblhau ac mae archwilwyr wedi cael hyfforddiant yn barod ar gyfer cyflwyno'r gwaith hwn yn ddiweddarach yn 2014-15. Mae'r elfen o'r gwaith hwnnw ar reolaeth ariannol wedi'i chwblhau a'i defnyddio i lywio adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref ar GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14. Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu'r astudiaeth o drefniadau Rheoli Meddyginiaethau a dechreuir ar y cam casglu data yn fuan, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn mis Mai 2015. Mae gwybodaeth wrthi'n cael ei chasglu gan gyrff y GIG ar gyfer ein hadolygiad diagnostig byr o adnoddau a seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), y disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 23 Cwblhawyd y cam cynllunio cychwynnol ar gyfer adolygiad o'r broses o reoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gynnal yn ystod hydref 2014 gyda'r nod o'i gwblhau tua diwedd y flwyddyn ariannol. Cwblhawyd gwaith ymchwil er mwyn nodi testunau addas ar gyfer adolygiadau arfer da i'w cynnal rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2014, a disgwylir i'r allbynnau gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2015.

Llywodraeth leol

- 24 Cyhoeddwyd pob un o'r 28 o dystysgrifau cynlluniau gwella yn ôl y bwriad erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014. Cyhoeddwyd pob un o'r 28 o adroddiadau gwella blynyddol ar gyfer 2013-14 erbyn diwedd y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad interim hwn. Mae cynnydd yn cael ei wneud i gyflawni gwaith asesu rhaglen gwella 2014-15. Cyhoeddwyd pob un o'r asesiadau corfforaethol o 2013-14 ac, o blith y chwe asesiad a gynlluniwyd ar gyfer 2014-15, mae gwaith maes wedi'i gwblhau ar gyfer tri ohonynt ac mae'r rhai sy'n weddill wrthi'n cael eu cynllunio.
- 25 Mae adroddiadau ar yr astudiaethau o Drefniadau Craffu Llywodraeth Leol a NEETs wedi'u cyhoeddi a'u cyflwyno i'r PCC (gweler paragraff 19) ac mae cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas ag astudiaethau o lechyd yr Amgylchedd (sy'n rhan o gyfres o astudiaethau Cyflawni â Llai), Diwygio Lles a Diogelu, a disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar astudiaethau o sefyllfa ariannol awdurdodau lleol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol; gwasanaethau llywodraeth leol sy'n cefnogi byw'n annibynnol; a gwasanaethau hamdden (Cyflawni â Llai). Cwblhawyd y gwaith o adolygu datganiadau llywodraethu blynyddol a rhoddwyd adborth lleol i'r cyrff a archwiliwyd.

Gohebiaeth a gwaith nas cynlluniwyd

- 26 Yn ogystal â'r rhaglenni a gynlluniwyd a nodir uchod ar gyfer gwaith archwilio ariannol a pherfformiad, rydym yn gweld nifer gynyddol o faterion a phryderon yn cael eu codi gyda'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd â cheisiadau am ymchwiliad archwilio i faterion o'r fath. Nid yw'r cynnydd hwn yn y galw ar y swyddogaeth archwilio a'r disgwyliadau ohoni yn unigryw i Gymru, ac fe'i profwyd gan y swyddfeydd archwilio ym mhob rhan arall o'r DU. Nodwn fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi sefydlu Tîm Ymchwiliadau er mwyn darparu'r adnoddau penodol sydd eu hangen i ymdrin â'r maes gwaith cynyddol hwn.
- 27 Mae llawer o'r gwaith hwn yn deillio o'r llif cyson o ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig sy'n codi pryderon am y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio arian cyhoeddus, sy'n ychwanegol at y gwaith sy'n deillio o gwestiynau a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon a nodwyd ym mharagraff 17. Gall pob gohebydd ddisgwyl i'w bryderon gael eu hystyried yn ofalus gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chael ymateb o sylwedd. Gall gohebiaeth o'r fath arwain at ymchwiliadau gwerth am arian llawn, fel yr adroddiad diweddar ar Ganolfan Cywain yn y Bala, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a Chronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 28 Mae PCC y Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi troi'n gynyddol at yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor hwnnw ac yn peri pryder iddo. Er enghraifft, mewn ymateb i geisiadau o'r fath, paratodd yr Archwilydd Cyffredinol ddau femorandwm a ddefnyddiwyd gan y Pwyllgor wrth lansio ei ymchwiliadau ei hun yn ystod 2014, ar gyflog uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r Cyswllt Awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn ymateb i argymhelliad ffurfiol gan y PCC i ystyried effaith bosibl agweddau ar arferion preifat ar ddarpariaeth y GIG. Disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Rydym hefyd wrthi'n paratoi memorandwm i'r PCC ar drefniadau llywodraethu'r GIG, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2014.

Gwaith a Gomisiynwyd

- 29 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cael ceisiadau i wneud gwaith a gomisiynwyd yn arbennig, a gall gytuno i ymgymryd â gwaith o'r fath os oes ganddo'r pwerau i wneud hynny. Yn ystod y cyfnod hyd at 30 Medi, mae wedi cyflawni nifer o eitemau o waith a gomisiynwyd gan gynnwys:
- archwilio cyfrifon Llywodraeth Anguilla;
 - adolygu trefniadau llywodraethu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol;
 - archwilio cyfrifon Coleg Gŵyr;
 - archwilio hawliadau Ewropeaidd ym Mhrifysgol Morgannwg;
 - archwilio nifer o gyrrff elusennol llywodraeth leol; a
 - chynnal adolygiad ar ran y Comisiwn Archwilio o'i bwyllgor archwilio.
- 30 Mae'r ffioedd archwilio a gafwyd mewn perthynas â gwaith a gomisiynwyd yn helpu i ategu incwm blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwaith trawsbynciol

- 31 Gall ein gwaith archwilio lunio adroddiadau ar waith trawsbynciol, fel y memorandwm diweddar ar gyflog uwch swyddogion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, a'n hadroddiadau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), ac ar y Fenter Twyll Genedlaethol (nodir eu cwmpas a'u heffaith isod). Fodd bynnag, mae ein gwaith ar arfer da yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo dysgu ar y cyd ar draws timau, sefydliadau a sectorau, yn ogystal ag o'r tu allan i Gymru.

Cyfnewidfa Arfer Da

- 32 Mae dull yr Archwilydd Cyffredinol o ymdrin ag arfer da yn cynnwys nodi a rhannu gwybodaeth am arfer da drwy nifer o ffyrdd, gan gynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da. Gwnaed cynnydd da wrth gyflawni rhaglenni gwaith y Gyfnewidfa Arfer Da ar gyfer 2014-15, ac roedd chwech o'r 12 o ddigwyddiadau dysgu ar y cyd a gynlluniwyd wedi'u cynnal erbyn diwedd mis Medi. Ymhlith y rhain roedd seminarau ar reoli asedau gan gynnwys TG, Fflyd, Ynni, Adeiladau, Tir a Rheoli Cyfleusterau, a chafwyd presenoldeb da ym mhob un ohonynt. Rydym wedi cynnal y seminarau ar 'Ad-drefnu Gwasanaethau' ar gais Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â nifer o sefydliadau partner ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid eraill i ddatblygu digwyddiadau ar gyfer y dyfodol.
- 33 Rydym wedi cael adborth da mewn perthynas â gwerth ein gwaith ar Arfer Da. Yn ystod chwe mis cyntaf 2014-15, cawsom adborth cadarnhaol gan 94 y cant o'r cynadleddwyr a fynychodd y seminarau a 70 o 'addewidion i weithredu' gan y sawl a oedd yn bresennol, sydd wedi ymrwymo i roi menter arfer da ar waith a fydd yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus neu sicrhau gwerth gwell am arian ym maes gwasanaethau cyhoeddus. Gwelsom hefyd gynnydd mewn gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r Gyfnewidfa Arfer Da, gan gynnwys nifer y dilynwyr ar Twitter, nifer y bobl a ddarllenodd y blogiau a nifer y bobl a ymwelodd ag adran y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn parhau i gynnwys ffyrdd o nodi arfer da yn ein gweithgareddau archwilio prif ffrwd.
- 34 Rydym yn meithrin cysylltiadau agosach â chyrff archwilio ar arolygu eraill y DU gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd wedi meithrin cysylltiadau â chyrff archwilio ledled y byd, gan gynnwys Awstralia a Llywodraeth Nova Scotia yng Nghanada, a fydd yn cymryd rhan mewn dwy seminar dysgu ar y cyd.

Y Fenter Twyll Genedlaethol

- 35 Ymarfer cydweithredol ledled y DU a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n paru data electronig o fewn cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat a rhyngddynt er mwyn atal a chanfod twyll. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar ymarfer 2012-13 y Fenter ym mis Mehefin 2014 ac fe'i cyflwynwyd i'r PCC.
- 36 Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth dros £26 miliwn yng Nghymru, ac £1.17 biliwn ledled y DU. Mae'r arbedion yn effeithio ar arian cyhoeddus yn hytrach nag o reidrwydd ar y corff sydd wedi talu i gymryd rhan yn yr ymarfer. Mae'r PCC wedi nodi'n glir ei awydd i weld mwy o gyrff sector cyhoeddus yn cymryd rhan, ac rydym wrthi'n cynnig y dylai ein costau cylchol ar gyfer y Fenter gael eu hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, er mwyn dileu unrhyw ddatgymhelliad i gymryd rhan.

Rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru

Bod yn sefydliad atebol ac effeithlon a gaiff ei redeg yn dda

- 37 Prif amcan Swyddfa Archwilio Cymru yw bod yn 'sefydliad atebol ac effeithlon a gaiff ei redeg yn dda' ond mae ganddi hefyd nifer o gyfrifoldebau statudol, gan gynnwys:
- darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol (gan gynnwys darparu'r staff a'r asedau sydd eu hangen iddo gyflawni ei swyddogaethau archwilio);
 - monitro'r modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau;
 - codi ffioedd a pharatoi Cynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru a'i adolygu bob blwyddyn; a
 - rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ar y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

Sefydlu ein trefniadau llywodraethu newydd

- 38 Blaenoriaeth allweddol yn ystod y cyfnod ers mis Ebrill 2014 fu sefydlu'r trefniadau llywodraethu newydd a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion o fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a gaiff ei redeg yn dda. Cyfansoddwyd y Bwrdd yn llawn ym mis Mai 2014 yn dilyn penodi un Archwilydd Cyffredinol a enwebwyd a dau aelod a etholwyd gan staff. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i adolygu a gwerthuso datblygiad trefniadau llywodraethu unigryw Swyddfa Archwilio Cymru a phrofiadau aelodau'r Bwrdd.

Niferoedd staff a'r cymysgedd sgiliau

- 39 Sefydlodd Swyddfa Archwilio Cymru Bwyllgor Cymorth Busnes ym mis Gorffennaf 2014 er mwyn sicrhau trefniadau cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a rheoli risg sydd wedi'u cydgysylltu'n briodol. Bydd ei waith yn llywio adolygiad y Bwrdd o anghenion ein gweithlu, nawr ac yn y dyfodol.
- 40 Cydgysylltir gwaith y Pwyllgor Cymorth Busnes â'r broses o weithredu ein strategaeth contractio newydd, y cafodd gwahoddiadau i dendro ar ei chyfer eu cyhoeddi ym mis Medi 2014, a disgwylir i contractau fframwaith newydd fod ar waith ar gyfer blwyddyn archwilio 2015-16. Disgwylir i'r strategaeth arwain at fwy o waith archwilio gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn fwy cost-effeithiol, ac a fydd yn sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad.

- 41 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fuddsoddi yn nysgu a datblygiad proffesiynol ein staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i ymgymryd â gwaith awdurdodol a chredadwy ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2014, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi darparu amrywiaeth o hyfforddiant mewnol, ac wedi buddsoddi £104,482 mewn gweithgareddau dysgu a datblygu, y mae £31,245 ohono wedi'i wario ar astudiaethau proffesiynol. Bwriedir gwario £160,000 pellach erbyn 31 Mawrth 2015, a chaiff effeithiolrwydd y buddsoddiad hwn o ran diwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol ei adolygu a'i asesu'n barhaus.
- 42 At hynny, mae gennym raglen hyfforddiant i raddedigion. Ar hyn o bryd, rydym yn penodi chwe hyfforddai graddedig bob blwyddyn. Mae'r hyfforddeion hyn yn treulio o leiaf bedair blynedd gyda ni yn astudio am gymhwyster cyfrifyddu proffesiynol. Eleni, enillodd dau o hyfforddeion Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) wobrau rhyngwladol am eu perfformiad mewn arholiadau. Rydym yn ystyried ffyrdd o benodi mwy o hyfforddeion graddedig ac yn defnyddio hyn i gefnogi gwelliannau ehangach i drefniadau rheolaeth ariannol a chyfrifyddu sector cyhoeddus ledled Cymru.

Gwella ein systemau a'n prosesau

- 43 Fel rhan o'n hawydd parhaus i fod yn sefydliad effeithlon a gaiff ei redeg yn dda, rydym yn parhau i symleiddio ein systemau a'n prosesau lle y bo'n bosibl. O fewn y timau Adnoddau Dynol a Chyllid, canolbwyntiwyd ar symleiddio ac awtomeiddio prosesau er mwyn rhyddhau amser staff i weithio ar ychwanegu gwerth yn hytrach na gweithgareddau trafodol. Cyflwynwyd gwasanaeth cyflogres allanol newydd ym mis Mawrth 2014 sydd wedi arwain at arbedion cost o 64 y cant (£25,000) y flwyddyn. Mae'r system adnoddau dynol newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2014 wedi awtomeiddio prosesau ar gyfer monitro absenoldeb a salwch a chynnal a chadw manylion personol cyflogeion. Caiff y modiwlau e-recriwtio a dysgu a datblygu eu cyflwyno yn nhymor yr hydref 2014. Caiff system treuliau electronig newydd ei chyflwyno ym mis Hydref yn lle'r hawliadau papur presennol a'r trefniadau prosesu â llaw.
- 44 Gwnaethom adolygu ein Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i osod ar gontract allanol i BDO ym mis Mehefin 2014, a fydd yn sicrhau arbedion o £50,000 y flwyddyn. Bydd yr holl waith a wneir yn parhau i gydymffurfio'n llawn â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus(PSIAS), a bydd y trefniant newydd yn atgyfnerthu annibyniaeth, yn sicrhau mwy o adnoddau, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd ar yr adeg gywir, ac yn rhoi mwy o sicrwydd o ran fframwaith rheoli Swyddfa Archwilio Cymru.

- 45 Rydym wedi parhau i fireinio ein gwybodaeth am reolaeth ariannol a'n prosesau adrodd, a chymeradwyodd y Bwrdd gynllun busnes tair blynedd newydd ac adroddiad dangosfwrdd ategol ym mis Gorffennaf 2014, a gaiff ei dreialu yn rhan olaf 2014 cyn ei lansio'n ffurfiol ar 1 Ebrill 2015.
- 46 Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynnig i gaffael system newydd i gynllunio, rheoli, cofnodi a storio ein gwaith archwilio a fydd hefyd yn rhesymoli ac yn symleiddio ein systemau TG gan y bydd hefyd yn disodli ein systemau cofnodi amser a rheoli adnoddau presennol.

Sicrhau effeithlonrwydd pellach wrth ddefnyddio ein hystâd a'n hasedau eraill

- 47 Yn ystod 2014-15, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein hystâd er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o ofod a sicrhau defnydd gwell o dechnoleg. Rydym wedi rhoi system archebu ystafelloedd cyfarfod newydd ar waith er mwyn gwneud defnydd gwell o'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael yn ein prif swyddfeydd yng Nghymru. Rydym wrthi'n adolygu'r opsiynau ar gyfer lleoliad ein safle yng Ngogledd Cymru er mwyn llywio dadansoddiad cost a budd yn ddiweddarach yn 2014. Rydym wedi adolygu ein cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ym mhob un o safleoedd Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau i ddelio â materion os byddant yn codi ac rydym wedi cynnal hyfforddiant gloymi mewn perthynas â'r meysydd risg uwch.
- 48 Gwnaethom gwblhau ein buddsoddiad mewn cyfarpar fideo-gynadledda ychwanegol ym mis Mai 2014 a diweddarau ein cyswllt â'r rhyngwyrdd. Gwnaethom osod gweinyddwyr newydd yn lle'r rhai sy'n bodoli eisoes yn ein seilwaith rhithwir ym mis Gorffennaf 2014 a byddwn yn prynu elfennau newydd yn lle elfennau hynaf ein prif gyfleusterau storio data erbyn mis Mawrth 2015.
- 49 Yn ystod 2014-15, ein nod yw gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barod ar gyfer gwneud cais am achrediad Lefel 5 (lefel uchaf) y Ddraig Werdd. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth leihau gwastraff ac wedi buddsoddi mewn dyfeisiau sganio aml-swyddogaeth effeithlon newydd er mwyn lleihau'r defnydd a wneir o ynni. Rydym yn datblygu ein trefniadau adrodd er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am allyriadau anuniongyrchol. Bwriedir i'r buddsoddiad mewn cyfarpar fideo-gynadledda ychwanegol leihau'r angen i deithio mewn car a'r nod yw lleihau nifer y milltiroedd busnes a deithir yn 2014-15.

Adolygu ein cynllun ceir fflyd a'n trefniadau teithio a chynhaliaeth

- 50 Daeth adolygiad ein harchwilwyr allanol o'n cynlluniau ceir fflyd a theithio a chynhaliaeth i ben ym mis Medi 2014, a bydd y Bwrdd yn ystyried eu hargymhellion yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Gwaith i'w gynhelu ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol

- 51 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn gosod y cyd-rwymedigaethau canlynol ar yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru:
- paratoi Amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant;
 - paratoi adroddiadau blynyddol ac interim; a
 - pharatoi cynllun blynyddol.
- 52 Disgwylir i'r Amcangyfrif ar gyfer 2015-16 gael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Hydref 2014 yn unol â'r gofyniad iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- 53 Gosodwyd Cynllun Blynyddol 2014-15 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2014, ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2014. Paratowyd yr adroddiad interim hwn yn unol â'r gofynion statudol.
- 54 Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14 ym mis Gorffennaf 2014 ynghyd â barn archwilio amodol ar y cyfrifon blynyddol.
- 55 Felly, bydd yr holl gyd-rwymedigaethau a osodwyd ar yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u bodloni eleni yn unol â'r gofynion statudol.

Perfformiad ariannol

- 56 Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2014-15 yn caniatáu ar gyfer gwariant refeniw o £23.515 miliwn ac incwm ffioedd (adnoddau sy'n cronni) o £17.639 miliwn. Mae Cronfa Gyfunol Cymru yn darparu £5.876 miliwn o arian refeniw a £0.98 miliwn o arian cyfalaf.
- 57 Ceir cymhlethdod cynhenid yn ein trefniadau incwm ffioedd gan ein bod yn cydbwysu amcanestyniadau incwm â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i beidio â chodi mwy na chost swyddogaeth. Roedd yr incwm ffioedd ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn o fewn dau y cant i'r hyn a ddisgwyliwyd ac ar hyn o bryd, disgwyliwn i'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fod o fewn yr Amcangyfrif a gymeradwywyd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos ac yn ystyried pa un a fyddai'n briodol cynnal adolygiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn os bydd amcanestyniadau'n awgrymu y gallai'r adnoddau sy'n cronni fod yn fwy na'r Amcangyfrif (hynny yw, os yw'r incwm ffioedd gwirioneddol yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd gennym).
- 58 Roedd gwariant ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn o fewn chwech y cant i'r hyn a ddisgwyliwyd. Roedd y tanwariant yn bennaf oherwydd anawsterau a brofwyd wrth recriwtio i swyddi archwilio ynghyd ag amseru gwariant ar gontractwyr archwilio.
- 59 Ym mis Gorffennaf, diweddarwyd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chais posibl am Gyllideb Atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn cyflawni'r gwaith hanfodol o gyflwyno systemau TG archwilio newydd yn lle'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd. Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r prosiect a fydd yn sicrhau parhad y System Archwilio Ariannol hanfodol, yn ogystal â gwella'r modd y caiff adnoddau eu rheoli a darparu datrysiad cofnodi amser mwy cost-effeithiol. Byddwn yn ariannu costau'r prosiect (yn 2014-15, £216,000 mewn arian cyfalaf; £46,000 mewn arian refeniw) o arbedion mewn gwariant mewn manau eraill o'r gyllideb. Ni fydd angen i ni geisio arian ychwanegol drwy Gyllideb Atodol, fel y nodwyd yn wreiddiol, ond yn lle hynny byddwn yn ceisio addasiad technegol er mwyn adlewyrchu gwariant cyfalaf yn lle refeniw.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cyllid – 6 Tachwedd 2014

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Amcangyfrif am Flwyddyn Ariannol 2015/16

1. Cefndir y cyflwyniad amcangyfrif hwn

- 1.1 Cyflwynaf yr amcangyfrif cyllideb hwn fel sy'n ofynnol yn ôl paragraff 15 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n nodi pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni fy swyddogaethau statudol heblaw am fy nghyflog, costau Yswiriant Gwladol a phensiynau, sy'n dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad ydynt felly'n rhan o'r amcangyfrif hwn. Fodd bynnag, cânt eu cynnwys yn fy Nghyfrifon Blyneddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfanswm costau cynnal fy swyddfa.
- 1.2 Dyma fy mhedwerydd cyflwyniad o amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried y cyflwyniad amcangyfrif hwn. Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Mae'r wybodaeth a roddir yn y papur hwn yn ymwneud yn benodol â'r materion hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 2.1 Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf yn ystyried cwynion a wnaethpwyd gan y cyhoedd am eu bod yn credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff sy'n dod o fewn fy awdurdodaeth. Mae fy awdurdodaeth yn cynnwys:
 - llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned),
 - y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
 - landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai), a
 - Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff a noddir ganddi.
- 2.2 Rwyf hefyd yn ystyried cwynion sy'n honni bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri eu cod ymddygiad. Hefyd, rwyf yn darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru – gwasanaeth dros y ffôn a'r we – sy'n galluogi'r cyhoedd yng Nghymru, sy'n dymuno cwyno am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus, ond nad ydynt yn gwybod sut i fynd o'i chwmpas, i gwyno i'r corff hwnnw. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn cynorthwyo unigolion sydd â chwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ar lefel y DU lle nad yw'r gwasanaethau hynny wedi'u datganoli.

3. Llywodraethu Corfforaethol

- 3.1 Mae sefyllfa gyfansoddiadol corfforaeth undyn yn golygu bod yn rhaid i'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am weithgareddau fy swyddfa aros gyda mi, fel Ombwdsmon.
- 3.2 Er hynny, cyflwynwyd Panel Cynghori yn ystod 2012/13 er mwyn gwneud fy swyddfa'n fwy agored a thryloyw. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau fel is-bwyllgor o'r Panel Cynghori. Mae'r trefniadau hyn wedi bod o fudd sylweddol, yn enwedig o ran cael barn allanol ar waith y swyddfa gan aelodau sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn rhoi sicrwydd a chynghor ychwanegol i mi fel Ombwdsmon a Swyddog Cyfrifyddu i gynnig gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

4. Perfformiad ariannol

- 4.1 Mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a rheoli mewnol wedi cael eu hadolygu'n annibynnol gan Deloitte fel archwilyr mewnol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth penodiad Deloitte i rym ar 1 Ebrill 2011. Cafodd gwaith Deloitte ei gynllunio ar sail eu hasesiad o angen cyffredinol. Mae eu hadroddiadau wedi amlygu fframwaith rheolaeth fewnol boddhaol o fewn y sefydliad a gwnaeth argymhellion ar gyfer gwelliannau lle'r oedd angen.
- 4.2 Dywedodd Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol Deloitte am y flwyddyn 2013/14:
- “Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru system reolaeth fewnol gadarn, a ddylai roi **sicrwydd sylweddol** o ran cyflawni amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru”. Yn ystod 2013/14, sef trydedd flwyddyn y cynllun archwilio tair blynedd, cafwyd dau argymhelliad blaenoriaeth isel yn unig.”
- 4.3 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon am y flwyddyn 2013/14 yn yr un modd â phob blwyddyn flaenorol.
- 4.4 Mae'r Ombwdsmon wedi dilyn yr egwyddor y dylai gorbenion y swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Cyflawnwyd hyn gydol yr amser ers sefydlu'r swyddfa o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae'n egwyddor sydd wedi deillio o arferion da yn y sector cyhoeddus. Dangosir hyn yn y dadansoddiad o wariant ar nodau ac amcanion fy Nghynllun Strategol fel yr amlinellir yn y Cyfrifon Blynyddol.

5. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

- 5.1 Mae'r Ombwdsmon wedi adrodd o'r blaen wrth y Pwyllgor Cyllid ar yr ymdrech lew a wnaethpwyd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yng nghanau cynnar y broses o ddelio â chwynion, ynghyd â symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau i fod yn hanfodol yng nghyd-destun delio â nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion a wneir i fy swyddfa.
- 5.2 Mae'r cynnydd yn y duedd honno'n parhau. Mae Atodiad B yn olrhain llwyth gwaith y swyddfa ers ei sefydlu yn 2006/07.

- 5.3 Mae'n werth nodi y bu cynnydd o **117%** yn nifer yr ymholiadau a chwynion a wnaethpwyd i'm swyddfa yn y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009/10 a 2013/14.
- 5.4 Wrth baratoi'r papur hwn, rwyf wedi cymharu pum mis cyntaf (Ebrill i Awst) y flwyddyn fusnes gyfredol 2014/15 â'r un cyfnod yn 2013/14. Gwelais y canlynol:
- cynnydd o **7%** yn yr ymholiadau (1,464 o'i gymharu â 1,370)
 - cynnydd o **11%** yn y cwynion (1,025 o'i gymharu 923).
- 5.5 Mae'r gwaith a wnaethpwyd i ddatblygu gwefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'i ffurflenni cwyno rhyngweithiol ar-lein, yn parhau i ddangos ei werth. Mae chwarter y cwynion a wneir i'r swyddfa bellach yn cael eu gwneud drwy'r cyfrwng hwn ac mae'r ffaith nad oes yn rhaid i'r tîm rheng flaen greu a bwydo data cofnodion achosion â llaw yn helpu fy swyddfa i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau 5.3 a 5.4 uchod.
- 5.6 **Adnoddau staff** – Disgrifir y strwythur staffio fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014 yn Atodiad D. Roedd yn rhaid i fy rhagflaenydd, Peter Tyndall, leihau nifer y swyddi yn y sefydliad yn ystod 2011/12. Llwyddodd y swyddfa i gynnal lefel ei pherfformiad er gwaethaf y cynnydd yn nifer yr ymholiadau a'r cwynion a gafwyd. Rwyf fi, fodd bynnag, yn adleisio'r pryderon difrifol a fynegwyd y llynedd am y gallu i gynnal y sefyllfa honno o ganlyniad i'r cynnydd yn y llwyth gwaith y mae fy swyddfa'n ei wynebu. Yn ystod Gorffennaf 2014 cafodd y swyddfa'r nifer uchaf o ymholiadau a'r nifer uchaf o gwynion am gyrff cyhoeddus mewn unrhyw fis ers i'r swyddfa gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2006. Rwyf yn pryderu y bydd parhad yn y cynnydd mewn cwynion yn arwain at ddirywiad yn ein perfformiad oni bai fy mod yn cryfhau'r adnoddau sydd ar gael i ddelio â chwynion. Rwyf wedi dechrau adolygu'r gwasanaeth a ddarparaf ac mae fy nghanfyddiadau cychwynnol yn dangos bod angen staff ychwanegol i ddelio â chwynion. Byddaf yn cwrdd â'r costau hyn o'r amcangyfrifon fel y'u cyflwynwyd yn Atodiad A.
- 5.7 **Cynghorwyr proffesiynol**
- (a) Rwyf yn defnyddio cynghorwyr clinigol sydd â phrofiad o wahanol feysydd yn y proffesiwn iechyd i fy nghynorthwyo i ystyried achosion iechyd. Cyn hynny, roedd fy swyddfa'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gynghorwyr a gyflogwyd drwy drefniant â Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OPHSO), a oedd yn codi tâl ar fy swyddfa. Hysbyswyd y Pwyllgor y llynedd am benderfyniad swyddfa'r Ombwdsmon i ymgysylltu'n uniongyrchol â nifer o gynghorwyr clinigol sy'n dod i'r swyddfa'n ôl yr angen. Rydym yn parhau'n fodlon iawn â'r effaith bositif y mae hyn wedi'i gael ar wasanaeth y swyddfa. Mae hyn wedi ein galluogi i adolygu achosion yn gyflymach yng nghamau cynnar y broses o ystyried achosion, ac i ryngweithio mewn ffordd fwy penodol ac effeithiol â chynghorwyr arbenigol eraill yn OPHSO yn ystod ymchwiliadau. Mae hyn wedi lleihau costau fy swyddfa am nad oes angen anfon cymaint o ffeiliau achos at OPHSO ym Manceinion neu Lundain. Fodd bynnag, er ein bod yn ymdrechu i leihau'r galw am y trefniant ag OPHSO i'r graddau posibl, rydym yn dal i ddibynnu cryn dipyn ar y gwasanaeth hwn. Hefyd, oherwydd y parhad yn y cynnydd mewn cwynion iechyd a wneir i fy swyddfa, mae'n debygol y bydd yn rhaid i mi hefyd gynyddu nifer y ceisiadau am gyngor, sy'n golygu mwy fyth o gostau i fy swyddfa.

- (b) Rwyf yn ymgysylltu'n uniongyrchol hefyd â nifer o gynghorwyr proffesiynol eraill ym meysydd gofal cymdeithasol a chynllunio. Mae'r rhain hefyd yn dangos eu gwerth, yn fwyaf arbennig drwy alluogi penderfyniadau cynnar i gael eu gwneud yn ystod cam cyn ymchwilio'r broses gwyno. Rwyf yn ymwybodol ei bod yn debygol iawn y bydd yn rhaid i mi wneud mwy o ddefnydd o'r cynghorwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol i mi ar faterion gofal cymdeithasol o ganlyniad i'r cwynion ychwanegol o'r math hwn y bydd yn rhaid i fy swyddfa eu hystyried yn sgil y weithdrefn cwynion gofal cymdeithasol statudol ddiwygiedig ac o ganlyniad i ymestyn fy awdurdodaeth yn y maes hwn.

6. Y Cynllun Strategol tair blynedd cyfredol

6.1 **Cynllun Strategol 2012/13 to 2014/15** – Rydym yn awr yn dynesu at ddiwedd oes y Cynllun cyfredol, sydd wedi cynnwys cynlluniau i symleiddio'r broses gwyno ac i ymdrin â'r cynnydd yn nifer y cwynion gofal cymdeithasol a ragwelir o ganlyniad i ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Mae'r Cynllun hefyd wedi bwrw ymlaen â datblygiadau a gyflwynwyd eisoes, fel gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru a datblygiadau technolegol yn ymwneud â'r gwefannau – gan gynnwys datblygu fersiynau ar gyfer ffonau clyfar / llechi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n rhoi profiad gwell i'r defnyddwyr, yn enwedig o ran ffurflenni cwyno ar y we.

6.2 **Cynllun Strategol 2015/16** –

- (a) Gan nad ydwyf wedi bod yn fy swydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am amser hir, credaf y byddai'n synhwyrol i ymestyn y Cynllun cyfredol am un flwyddyn arall. Fy mwriad yw cadw'r Weledigaeth, y Gwerthoedd a'r prif Nodau Strategol presennol, ond pennu blaenoriaethau allweddol newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- (b) Rwyf yn rhagweld y bydd 2015/16 yn flwyddyn o gyfnerthu, o adeiladu ar ddatblygiadau arloesol y blynyddoedd blaenorol, ac un hefyd lle gallaf ffurfioli fy syniadau ar 'foderneiddio'r' ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rwyf yn ymwybodol iawn bod Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005 yn un a fu'n uchel iawn ei pharch yn y gorffennol ymhlith cynlluniau ombwdsmon eraill a hefyd Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, rwyf yn sylweddoli bod y cynlluniau ombwdsmon hynny wedi 'symud ymlaen' ers hynny. Mae'n bwysig nad yw Cymru'n cael ei gadael ar ôl ac na ddylai ei phobl fod o dan anfantais o'u cymharu â phobl mewn cenhedloedd eraill. Yn yr un modd, mae darpariaeth yr hyn sy'n cael ei ystyried fel 'gwasanaethau cyhoeddus' wedi newid ac esblygu'n sylweddol ers dyfodiad Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, (yn enwedig o ran yr amwysedd cynyddol rhwng gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y sector cyhoeddus a phreifat) ac yn wir o ran yr hyn yr edrychir arno fel arfer da yng ngwaith ombwdsmon mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

7. Pensiynau Llywodraeth Leol

- 7.1 O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae fy staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yng nghyflwyniad y llynedd nodais ar adeg sefydlu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2006, roedd gan nifer o staff a gyflogwyd cyn hynny gan y Comisiwn dros Weinyddu Cyhoeddus yng Nghymru hawl i aros ym Mhrif Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ers hynny, mae'r cynllun, sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerdydd, yn parhau mewn diffyg. Mae hyn wedi digwydd oherwydd y cynnydd mewn disgwyliad oes sy'n effeithio ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn tra mae ei asedau wedi lleihau oherwydd gostyngiadau yng ngwerth ei fuddsoddiadau a'r cyfraddau enillion. Mae cyflwr presennol yr economi wedi dwysau'r diffyg hwnnw er bod gobaith y gwelir gwelliant yng nghyflwr y gronfa pensiwn wrth i'r economi wella.
- 7.2 Daeth rhwymedigaeth am y diffyg i'r amlwg yn dilyn adolygiad actwari tair blynedd a oedd wedi'i gynnwys yn yr ail amcangyfrif atodol ar gyfer 2011/12 fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME); fodd bynnag, mae'r taliadau blynyddol yn cael eu trin fel Terfyn Gwariant Adrannol (DEL). Bydd y taliadau hyn yn parhau i gael eu gwneud tan 2017/18.
- 7.3 Mae sefyllfa ariannu'r cynllun wedi dirywio ers 31 Mawrth 2010 a hynny'n bennaf oherwydd amrywiadau mewn amodau ariannol (sydd wedi effeithio ar enillion gwirioneddol buddsoddiadau ers 31 Mawrth 2013 yn ogystal â'r enillion a ddisgwylir yn y dyfodol). Gwrthbwysswyd hyn yn rhannol gan godiadau cyflog is na'r disgwyl a diffyg yn y cyfraniadau a dalwyd ers 31 Mawrth 2010. Mae'r prisiad actwari ar 31 Mawrth 2014 yn dangos diffyg o £720k a ddylai gael ei ddileu dros y 3 blynedd ariannol nesaf drwy'r taliadau ychwanegol a wneir i'r Cynllun yn 7.2 uchod.

8. Dyfarniadau cyflog

- 8.1. Mae cyflogau'r swyddfa'n seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr gyda chodiadau'n ddibynnol ar setliadau cyflog Llywodraeth Leol. Talwyd codiad cyflog o 1% a oedd yn cyfateb i £27k yn 2013/14, ond ni chafwyd cytundeb eto ar setliad cyflog 2014/15.

9. Pwysau costau

- 9.1 Er gwaethaf pwysau costau a phwysau eraill ar fy ngwasanaeth, ar gyfer yr amcangyfrif cyllideb hwn am 2015/16 yr wyf wedi cadw at ymrwymiad fy rhagflaenydd o gadw gyllideb OGCC yn unol â'r symudiad yn y Bloc Cymreig.
- 9.2 Mae'r swyddfa'n parhau i amsugno cynnydd mewn costau. Dywed Trysorlys EM fod yr amcangyfrif ar gyfer dachwyddyddion CMC fel mesur o chwyddiant am y blynyddoedd nesaf yn 2.2% y flwyddyn ar gyfer 2014/15 ac yn 1.6% ar gyfer 2015/16.

- 9.3 Mae'r swyddfa wedi amsugno costau uwch sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y pensiynau ar gyfer y cyn-Ombwdsmyd y mae eu pensiynau'n cael eu talu o'r gyllideb a ddyrannwyd i'r swyddfa. Yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau ar gyfer 2014 mae'r taliadau pensiwn hyn wedi cynyddu 2.7% ac mae wedi ychwanegu £3k at gostau rhedeg y swyddfa hon. Yn seiliedig ar ragor o gynnydd mewn costau tanwydd a gwres mae'n debygol y bydd y cynnydd mewn pensiwn tua 3% yn 2015/16 a fydd yn arwain at gynnydd pellach o £3k mewn costau.
- 9.4 Mae'r swyddfa yn parhau i gwrdd â'r cynnydd mewn taliadau gwasanaeth, trethi a chyfleustodau yn y safle ym Mhencoed. Mae yna, fodd bynnag, gofyn am le archif ychwanegol, sydd wedi codi yn sgil y cynnydd mewn ffeiliau achos sydd angen eu cadw. Felly, fel rhan o'r trafodaethau ar gyfer adnewyddu'r prydles 10 mlynedd gyda'n landlord presennol, rydym yn ceisio caffael lle storio ychwanegol o fewn yr un adeilad heb denu unrhyw gostau rhent ychwanegol, er y bydd yna gynnydd mewn taliadau gwasanaeth a chostau adeilad cysylltiedig eraill.
- 9.5 Er bod costau argraffu, postio a chludiant yn parhau i godi rydym yn bwriadu amsugno'r costau hyn drwy fabwysiadu amryw o gynlluniau effeithlonrwydd a lleihau costau fel annog argraffu ar ddwy ochr dalenni papur, defnyddio mwy o bost ail ddsbarth a gwerthuso costau cludwyr yn barhaus.
- 9.6 Byddwn yn parhau i fabwysiadu datblygiadau technolegol newydd gyda'r nod o fod yn swyddfa ddi-bapur.
- 9.7 O safbwynt caffael, pan fydd contractau newydd yn destun negodi a phan fydd contractau sydd ar fin darhod yn cael eu hadolygu y nod yw sicrhau gostyngiadau cost a/neu welliannau yn y dull gweithio. Mae enghreifftiau'n cynnwys dull integredig newydd ar gyfer ffonau symudol a llechi, adnewyddu cyfrifiaduron manyleb isel ar gyfer staff rheng flaen, cynnydd mewn lled band heb dalu mwy a chyfarpar mesur rheoli perfformiad gwell drwy gyfrwng meddalwedd ffôn newydd. Rydym yn parhau i wella ein system i ddelio â chwynion gyda'r nod o'u gwneud yn haws i'w defnyddio, adlewyrchu datblygiadau yn ein prosesau mewnol a chadw i fyny â deddfwriaeth.
- 9.8 Yn olaf, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad yw fy amcangyfrif cyllideb yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth wrth gefn i dalu am wariant annisgwyl, megis heriau cyfreithiol i benderfyniadau yn fy ngwaith achos.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Hydref 2014**

<p>Atodiad A – Amcangyfrifon 2015/16 Atodiad B – Tueddiadau Llwyth Gwaith newydd ers 2006/07 Atodiad C – Cwynion fesul sector – Cyrff y GIG Atodiad D – Siart Sefydliadol</p>
--


Atodiad A

Amcangyfrifon 2015/16

	Gwirioneddol 2013/14	Cyllideb 2014/15	Amcangyfrif 2015/16
	£'000	£'000	£'000
A Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cyfalaf	47	13	13
B DEL Refeniw Cyllidol			
Cyflogau a chostau cysylltiedig	2,503	2,786	2,788
Costau sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)	242	254	266
	2,745	3,040	3,054
Swyddfeydd	343	349	399
Systemau a chymorth cyfrifiadurol	207	85	149
Costau swyddfa	111	148	127
Ffioedd cynghori	400	310	310
Cyfathrebu	76	82	82
Hyfforddi a recriwtio	37	65	44
Teithio a chynhaliath	35	34	36
Ffioedd archwilio	20	22	20
Is-gyfanswm	3,974	4,135	4,221
Incwm	0	-6	0
Cyfanswm DEL Refeniw Cyllidol	3,974	4,129	4,221
C DEL Anariannol			
Dibrisiant	135	105	75
DEL Refeniw (B+C)	4,109	4,234	4,296
Cyfanswm DEL (A+B+C)	4,156	4,247	4,309
D Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			
Symudiad mewn LGPS	-242	-254	-266
Symudiad mewn darpariaethau	88	30	20
Cyfanswm AME	-154	-224	-246
E Cyfanswm Gwariant a Reolir A+B+C+D	4,002	4,023	4,063
Adnoddau Gofynnol	4,002	4,023	4,063
Dibrisiant	-135	-105	-75
Cynnydd mewn Darpariaethau	-88	-30	-20
Defnyddio Darpariaethau	242	254	266
Symudiadau eraill mewn Cyfalaf			
Gweithio	19	20	20
Gofyniad Anariannol Net	4,040	4,162	4,254

Atodiad B Tueddiadau Achosion Gwaith Newydd Ers 2006/07


Tudalen y pecyn 224



Atodiad C

Cwynion Fesul Sector - Cyrff y GIG


Tudalen y pecyn 225



Rhagamcan at 31 Mawrth 2015 ar sail y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y pum mis o Ebrill hyd at Awst 2014

Atodiad D

Siart Strwythur (sefyllfa ar 31 Mawrth 2014)



Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon